




# Ein hadroddiad blynyddol 2021

Cyngor Meddygol Cyffredinol

# Am yr adroddiad hwn


Mae'n hymddiriedolwyr yn cyflwyno'r datganiadau ariannol a'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2021.

Maent yn cadarnhau eu bod wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd i'r cyhoedd wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion, a'u bod wedi ystyried y canllawiau hyn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau neu wrth wneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bob amser ein bod wedi gweithredu er budd y cyhoedd a bod y gweithgareddau fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn a'r cyfrifon hyn yn bodloni'r gofynion o ran budd y cyhoedd yn llawn, a'u bod yn cefnogi ein diben elusennol.










# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** | **01** |
| **Ein rôl yn systemau gofal iechyd y DU** | **04** |
| **Cipolwg ar 2021** | **06** |
| **Cyflawni ein strategaeth** | **21** |
| Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel | 24 |
| Datblygu gweithlu cynaliadwy | 33 |
| Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig | 44 |
| Buddsoddi yn ein pobl | 48 |
| **Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol** | **51** |
| **Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli** | **54** |
| **Adolygiad ariannol 2021** | **65** |
| **Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio** | **71** |
| **Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr CMC** | **76** |
| **Cyfrifon 2021** | **81** |
| **Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio** | **114** |

# Rhagair

Bu ein systemau gofal iechyd dan straen difrifol unwaith eto yn 2021. Ddwy flynedd ar ôl i bandemig COVID-19 gychwyn, roedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn darparu gofal rhagorol o hyd, dan amgylchiadau eithriadol o anodd. Yn drychinebus, fu farw rhai ohonynt, ac mae'r golled honno yn un ddofn.

Rydym wedi gweld gwasanaethau iechyd a gweithwyr gofal iechyd yn addasu ac yn arloesi yn gyflym er mwyn gwneud eu gorau dros gleifion, ac mae eu tosturi a'u hymroddiad wedi bod yn rhyfeddol. Ond mae hyn wedi effeithio ar iechyd a lles meddygon. Bellach, mae argyfwng aciwt COVID-19 wedi arwain at bwysau di-ball, ac mae hyn wedi esgor ar sialensiau newydd dros y tymor hwy. Tanlinellwyd hyn yn ein hadroddiad *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU* (SOMEP) yn 2021, wrth i feddygon sôn wrthym am lwyth gwaith, blinder a gorweithio cynyddol, a 23% yn nodi eu bod yn bwriadu gadael y proffesiwn.

Er mwyn i feddygon ffynnu a darparu'r gofal gorau ag y bo modd i gleifion, mae angen i ni gael amgylcheddau gwaith cynhwysol a chefnogol ac arweinyddiaeth dosturiol sy'n rhoi'r pwys mwyaf ar les meddygon, ac effaith gadarnhaol hyn ar ddiogelwch cleifion. Mae'r manteision i gleifion yn glir. Mae timau cynhwysol lle y gall pobl fynegi eu hunain a lle y mae meddygon yn teimlo'n gyffyrddus i ofyn am help a mynegi pryderon, yn darparu'r gofal mwyaf diogel ac yn cynnig amgylcheddau lle y bydd timau yn dysgu gan gamgymeriadau. Mae gan CMC rôl allweddol i gydweithio gyda chyflogwyr a meddygon er mwyn creu'r amgylcheddau hynny.

Yn ystod 2021, roedd cryn dipyn o'n gwaith wedi canolbwyntio ar ddarparu'r cymorth hwnnw yn ystod cyfnod anodd i wasanaethau gofal iechyd ar draws y DU.

Ym maes hyfforddiant ôl-raddedig, cymeradwyom gamau a oedd yn llacio'r gofynion mewn cwricwla fel y gallai meddygon dan hyfforddiant sicrhau cynnydd mewn ffordd ddiogel a hyblyg yn ystod y pandemig, ac fel rhan o'n proses fonitro estynedig, penderfynom gymryd camau pendant i ddiogelu cleifion a meddygon dan hyfforddiant, gan gynnwys gweithio gydag awdurdodau addysg iechyd i dynnu hyfforddeion allan o amgylcheddau hyfforddiant yn ôl yr angen. Ym maes addysg israddedig, cynorthwyom ysgolion meddygol i wneud penderfyniadau ynghylch graddio myfyrwyr yr amharwyd ar eu hastudiaethau o ganlyniad i'r pandemig, ac roeddem wedi parhau i gyflwyno ein proses sicrhau ansawdd addysg rhagweithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynnal ansawdd yr hyfforddiant y maent yn ei gynnig, hyd yn oed dan amgylchiadau heriol.

Er mwyn lleihau'r pwysau ar feddygon a chyflogwyr, aildrefnom ddyddiadau cyflwyno yn y broses ailddilysu, a gweithiom gyda chydweithwyr ar draws y system i drafod sut y byddai modd defnyddio arfarniadau er mwyn cynorthwyo meddygon i feddwl am a phrosesu eu profiadau o weithio trwy'r pandemig. Yn ogystal, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a chymesur tuag at ymchwiliadau, gan wybod y bydd hi'n cymryd yn hirach efallai i rai cyflogwyr, meddygon a sefydliadau eraill gynorthwyo gyda'n hymchwiliadau yn ystod y cyfnod hwn lle y mae pobl dan straen, sy'n golygu y gallai rhai achosion sicrhau cynnydd arafach.

Yn ogystal, roedd hi'n bwysig i ni gynnig sicrwydd i feddygon ein bod yn gwybod eu bod yn parhau i weithio dan amgylchiadau eithriadol. Felly, cyhoeddom ganllawiau wedi'u diweddaru i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, gan ystyried y cyd-destun cyfredol wrth ystyried cwynion. Yn ystod y gaeaf 2021, lansiom ymgyrch

cymorth, sicrwydd a chydnabyddiaeth hefyd, wrth ragweld pwysau tymhorol ar ein gwasanaethau iechyd.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar ein gwaith i gynorthwyo datblygiad gweithlu mwy cynaliadwy hefyd. Mae galluogi graddedigion meddygol rhyngwladol i ymuno â'n gwasanaethau iechyd yn hanfodol, ac yn 2020, effeithiwyd ar y llif hwn yn fawr gan gyfyngiadau teithio a gofynion cadw pellter cymdeithasol. Er mwyn rhoi sylw i hyn, agorom ail ganolfan asesu clinigol, gan sicrhau bod y capasiti profi yn ôl fel ag yr oedd cyn y pandemig, fel bod mwy o feddygon newydd yn gallu ymuno â gweithlu meddygol y DU. O ganlyniad, ymunodd dros 10,000 o raddedigion meddygol rhyngwladol â chofrestr feddygol y DU yn 2021.

Er bod sialensiau arwyddocaol i'w hwynebu o hyd, ceir cyfleoedd hefyd y dylid eu coleddu. Roedd ein hadroddiad SOMEP yn 2021 yn dangos tystiolaeth o'r ffaith bod diwylliannau cefnogol a chydweithredol wedi gwella ar draws timau gofal iechyd. Yn ogystal, gwelom ein gwasanaethau iechyd yn addasu ac yn arloesi yn gyflym. Rhaid i ni ddysgu o'r pethau hyn, a'u datblygu ar gyfer y dyfodol: mae'r manteision yn glir, i gleifion ac i feddygon.

2021 oedd y flwyddyn pan ymrwymom i dargedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol ym maes meddygaeth hefyd, gan weithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau gofal iechyd i osod y sylfeini ar gyfer gwneud gwelliannau o ran tegwch.

Rydym yn gwybod bod meddygon o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, neu sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU yn llawer mwy tebygol o gael eu cyfeirio atom gan eu cyflogwyr, a'u bod yn wynebu rhwystrau ym maes addysg a hyfforddiant meddygol hefyd. Y tu hwnt i'r angen amlwg i roi sylw i sefyllfa sy'n annheg yn y bôn, gan bod ychydig dan 65% o feddygon newydd yn nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol Asiaidd neu Ddu, ni fydd ein gwasanaethau iechyd yn gallu cadw gafael ar y meddygon y mae eu hangen arnynt, heb sôn am alluogi meddygon i wireddu eu potensial a chyfrannu gymaint ag y gallant, os na fyddwn yn cynnig y cymorth a'r cynwysoldeb y mae'n iawn iddynt ei ddisgwyl. Rydym wedi nodi dau darged yn y maes hwn: hoffem weld diwedd yr anghydraddoldeb o ran cyfeiriadau erbyn 2026, ac o ran cyrhaeddiad addysgol erbyn 2031.

Mae'r rhain yn dargedau uchelgeisiol, ac ni allwn eu cyflawni ar ein pen ein hunain, felly byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda chyflogwyr, addysgwyr, a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau newid go iawn. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn adolygu tegwch ein prosesau ni hefyd.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae newidiadau sylfaenol ar y gorwel ym maes rheoleiddio meddygol.

Rydym yn disgwyl i ddiwygiadau deddfwriaethol ein grymuso i fod yn rheolydd mwy hyblyg ac ymatebol, un sy'n gallu delio gyda chwynion yn gyflymach a lleihau'r straen ar bawb dan sylw. Byddwn yn gallu symleiddio ein prosesau cofrestru hefyd er mwyn cynnal llif cyson o feddygon newydd i systemau gofal iechyd y DU. Bydd gennym bwerau newydd a fydd yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant, fel y gallwn gynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol trwy eu hastudiaethau a'u gyrfa. Mewn cam hanesyddol ar gyfer rheoleiddio meddygol, bydd diwygiadau deddfwriaethol yn dwyn dau grŵp proffesiynol newydd dan ein hymbarél rheoliadol hefyd: cymdeithion meddygol (CMion) a chymdeithion anesthesia (CAion). Mae CMion ac CAion yn hanfodol bwysig i dimau gofal iechyd. Cyfrannwyd at ein gwaith cynllunio i ddwyn y grwpiau hyn dan ein trefniadau rheoleiddio ni gan weithgarwch

ymgysylltu cynhyrchiol gyda CMion, CAion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac edrychwn ymlaen i barhau i feithrin y perthnasoedd hyn.

Buom yn gwneud paratoadau pellach hefyd er mwyn cyflwyno asesiad newydd i feddygon sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr feddygol – yr Asesiad Trwyddedu Meddygol. Bydd graddedigion sy'n pasio'r asesiad wedi dangos eu bod yn bodloni safon medrusrwydd y cytunwyd arni – gan gynnig mwy o hyder i gleifion, cyflogwyr a chyd feddygon ynghylch eu cymhwystra a'u sgiliau, ble bynnag y byddant wedi hyfforddi. Yn ogystal, rhaid i ni edrych ymlaen i'n hadolygiad o *Arfer meddygol da*, y canllaw craidd sy'n amlinellu'r gwerthoedd, y wybodaeth a'r ymddygiad yr ydym yn ei ddisgwyl gan aelodau'r proffesiwn. Mae'n cynnig sylfaen ar gyfer arfer meddygon ond hefyd, eu haddysg a'u hyfforddiant, ac mae wrth wraidd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn feddyg da.

Mae llawer i'w wneud er mwyn adfer, ailgychwyn a diwygio wrth i ni adael cyfnod mwyaf aciwt y pandemig, ond fel mae'r adroddiad hwn yn nodi, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn gyntaf ein strategaeth gorfforaethol pum mlynedd.


Ein rôl yw sicrhau bod gweithwyr meddygol proffesiynol yn parhau i gael eu hyfforddi a'u cynorthwyo i ddarparu'r gofal mwyaf diogel a mwyaf effeithiol i gleifion a'r cyhoedd. Rydym yn hyderus ein bod yn parhau i fod ar y trywydd iawn er mwyn cyflawni'r rôl hwn, gan weithio gyda meddygon, cyflogwyr ac addysgwyr i ddiogelu a hyrwyddo diogelwch cleifion ar draws y DU.





**Charlie Massey,** Prif Weithredwr





**Athro Bonesig Carrie MacEwen,** Cadeirydd

# Ein rôl yn systemau gofal iechyd y DU

Ni yw rheolydd annibynnol meddygon yn y DU. Ein rôl yw diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Rydym yn cyflawni hyn trwy:

- hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol i feddygon
- goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU
- gweithredu pan fydd diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon mewn perygl.

## Sut ydym yn cadw cleifion yn ddiogel

Mae cadw cleifion yn ddiogel a diogelu hyder y cyhoedd mewn meddygon wrth wraidd ein holl waith.

- Rydym yn gosod y safonau ar gyfer meddygon. Mae'n safonau yn diffinio'r hyn sy'n gwneud meddyg da. Maent yn nodi'r gwerthoedd proffesiynol, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan bob meddyg sy'n gweithio yn y DU. Er mwyn datblygu e in safonau a'n canllawiau, byddwn yn ymgynghori gyda chleifion, meddygon, cyflogwyr ac addysgwyr.
- Rydym yn goruchwylio pob cam mewn addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddygon yn y DU. Rydym yn sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfaoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy bennu'r canlyniadau y mae angen i raddedigion eu sicrhau a chymeradwyo cwricwla ar gyfer addysg ôl-raddedig. Yn ogystal, rydym yn monitro amgylcheddau hyfforddiant er mwyn cynorthwyo dysgu diogel ac effeithiol.
- Rydym yn rheoli cofrestr feddygol y DU. Rydym yn archwilio cymwysterau meddygon cyn iddynt ymuno â'r gofrestr. Yn ôl yr angen, byddwn yn archwilio eu sgiliau. Yn ogystal, rydym yn holi ysgolion meddygol neu gyflogwyr blaenorol er mwyn darganfod a oes ganddynt unrhyw bryderon am allu meddyg i ymarfer yn ddiogel.
- Rydym yn sicrhau bod meddygon yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng ailddilysu, sef system sy'n sicrhau bod pob meddyg yn cael arfarniad blynyddol a'u bod yn dilyn y safonau a bennwyd gennym. Mae ailddilysu yn rhan sylfaenol o lywodraethu clinigol. Mae'n cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod meddygon yn y DU yn rhan o system a lywodraethir. Yn ogystal, mae'n cynorthwyo gweithgarwch i adnabod a rheoli pryderon yn gynnar.
- Rydym yn ymchwilio i bryderon am feddygon ac yn gweithredu yn eu cylch – Pan fydd rhywun yn mynegi pryder i ni, byddwn yn asesu a yw'n bodloni ein trothwy er mwyn ymchwilio iddo. Os ydyw, byddwn yn ymchwilio. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, byddwn yn penderfynu pa gamau y mae angen i ni eu cymryd. Gall hyn gynnwys peidio cymryd unrhyw gamau, rhoi cyngor neu rybudd, neu gytuno y bydd y meddyg yn cyfyngu eu gwaith, yn ailhyfforddi neu'n gweithio dan oruchwyliaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd, byddwn yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS).

Mae MPTS yn annibynnol wrth iddo wneud penderfyniadau, ac mae'n gweithredu ar wahân i rôl ymchwiliol CMC. Mae'n paratoi ei adroddiad blynyddol ar wahân ei hun.

## Ein perfformiad

Bob blwyddyn, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn asesu ein perfformiad fel rheolydd ar draws ein pedair swyddogaeth graidd: addysg a hyfforddiant, cofrestru, canllawiau a safonau, ac addasrwydd i ymarfer.

Cadarnhaodd ei asesiad blynyddol diweddaraf ein bod wedi llwyddo i fodloni ei 18 Safon Rheoleiddio Da yn ystod 2020-21. Mae hyn yn golygu ein bod yn sicrhau perfformiad o safon uchel fel rheolydd. Ac mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn ein holl waith at safonau megis:

- tryloywder
- diogelu'r cyhoedd
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- amseroldeb.

**Safonau cyffredinol**

5 allan o 5

**Canllawiau a safonau**

2 allan o 2

**Addysg a hyfforddiant**

2 allan o 2

**Cofrestru**

4 allan o 4

**Addasrwydd i ymarfer**

5 allan o 5

**Cyfanswm y safonau a fodlonwyd**

18 allan o 18

# Cipolwg ar 2021




# Cipolwg ar 2021


## Y gofrestr feddygol

Mae'r holl ffigurau yn cyfeirio at y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2021 (neu 2020) oni bai y nodir fel arall. Trowch at archwiliwr Data CMC i ddysgu mwy am addysg ac arfer meddygon yn y DU.

**Cyfanswm y meddygon ar y gofrestr***





**Lleoliad graddio**





* Gan gynnwys meddygon sy'n meddu ar gofrestriad brys dros dro (TER) – trowch at dudalenau 10 â 37 am ragor o wybodaeth.

### Meddygon ar y gofrestr yn ôl lleoliad*




### Meddygon ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd





* Caiff lleoliad tarddiadol meddygon cofrestredig ei gyfrifo gan ddefnyddio'r hierarchaeth ganlynol:

1. lle y maent yn gweithio ar sail data ynghylch hanes ymarfer GIG
2. eu lleoliad hyfforddi wedi'i seilio ar yr Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol
3. lleoliad eu corff dynodedig
4. eu cyfeiriad cofrestredig.

Caiff meddygon cofrestredig wedi'u lleoli yn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw eu cynnwys yn y ffigurau sy'n cyfeirio at Loegr.

## Meddygon ar y gofrestr yn ôl rhyw




**Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Meddygon Teulu***

**79,685**

Cynnydd o **2.6%** er 2020 (**77,659**)

Roedd **64,676** (81.2%) yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **2,204** (2.8%) yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **7,457** (9.4%) yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **3,284** (4.1%) yn byw yng **Nghymru**.

Roedd **2,064** (2.6%) wedi'u lleoli **y tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth i ni er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

**Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Arbenigol***

**107,009**

Cynnydd o **2.5%** er 2020 (**104,383**)

Roedd **80,920** (75.6%) yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **2,577** (2.4%) yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **8,330** (7.8%) yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **4,136** (3.9%) yn byw yng **Nghymru**.

Roedd **11,046** (10.3%) wedi'u lleoli **y tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth i ni er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

* Cynnwys meddygon sy'n meddu ar gofrestriad brys dros dro (TER) – gweler tudalennau 10 a 37 am ragor o wybodaeth.

## Cofrestriad brys dros dro

Fel rhan o'i hymateb i bandemig COVID-19, gofynnodd Llywodraeth y DU i ni yn 2020 i roi cofrestriad brys dros dro (TER) i feddygon a oedd wedi gadael y gofrestr dros y blynyddoedd diwethaf. Cyflawnodd nifer o'r meddygon hyn rôl gwerthfawr ym maes gofal cleifion a chyflwyno'r brechlyn yn ystod y pandemig. Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i reolyddion ddirwyn TER i ben ym mis Medi 2022. Am ragor o wybodaeth am Gofrestriad brys dros dro, gweler t.37.

Ar 31 Rhagfyr 2021, roedd

**22,718**

o feddygon ar ein cofrestr yn meddu ar **TER** a thrwydded i ymarfer.


Mae'r cyfanswm hwn

**10.2%** ↓

yn llai nag yr oedd ar yr un dyddiad yn 2020.

## Meddygon TER yn ôl eu lleoliad graddio

Roedd gan **15,575 gymhwyster meddygol sylfaenol o'r DU**.





Roedd **2,082** wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd gan **5,061** gymhwyster a sicrhawyd yng **ngweddill y byd**.

## Meddygon TER yn ôl lleoliad

Roedd **18,642** (82%) yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **656** (2.9%) yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.



Roedd **201** (0.9%) wedi'u lleoli y **tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth i ni er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

Roedd **2,194** (9.7%) yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **1,025** (4.5%) yn byw yng **Nghymru**.

**Yn 2021, dyfarnom:**

# 19,977

**o geisiadau mynediad i'r gofrestr am y tro cyntaf.**

Mae hwn

13.7% ↑

yn uwch na'r nifer yn 2020 (**17,234**).

Roedd **7,377** (36.9%) gan feddygon a oedd yn meddu ar **PMQ o'r DU**.

Roedd **2,591** (13%) gan feddygon a oedd wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd **10,009** (50.1%) gan feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster yng **ngweddill y byd**.



# 3,326

**o geisiadau i ymuno â'r gofrestr Meddygon Teulu.**

Mae hwn


10.7% ↑

yn uwch na'r nifer yn 2020 (**2,970**).

Roedd **2,299** (69.1%) gan feddygon a oedd yn meddu ar **PMQ o'r DU**.

Roedd **191** (5.8%) gan feddygon a oedd wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd **836** (25.1%) gan feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster yng **ngweddill y byd**.



# 4,613

**o geisiadau i ymuno â'r Gofrestr Arbenigol.**

Mae hwn


3.1% ↓

yn is na'r nifer yn 2020 (**4,755**).

Roedd **2,959** (64.1%) gan feddygon a oedd yn meddu ar **PMQ o'r DU**.

Roedd **680** (14.8%) gan feddygon a oedd wedi graddio yn **AEE** neu yn y **Swistir**.

Roedd **974** (21.1%) gan feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster yng **ngweddill y byd**.



## Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB)

Fel arfer, bydd angen i feddygon sy'n graddio y tu allan i'r DU, AEE, neu'r Swistir gymryd ein prawf Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) er mwyn ymuno â chofrestr feddygol y DU.* Mae gofyn sefyll y prawf mewn dwy ran (PLAB 1, a gyflwynir mewn canolfannau asesu ar draws y byd, a PLAB 2, a gynhelir mewn un o'n canolfannau profi ym Manceinion).

### PLAB 1

Yn 2020 a 2021, effeithiwyd yn ddifrifol ar ein gallu i ddarparu profion PLAB 1 o gwmpas y byd oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion COVID-19 ar draws y byd. Mewn sawl achos, bu'n rhaid i ni ganslo profion oherwydd cyfyngiadau lleol ac am resymau diogelwch.

Roedd

**10,431**

**o ymgeiswyr wedi sefyll PLAB 1 yn 2021**, a oedd yn nifer debyg iawn i'r hyn a welwyd yn 2020 **(10,601)**.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y sialensiau wrth ddarparu PLAB 1 wedi bod yn rhwystredig i ymgeiswyr. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod mwy o leoedd PLAB 1 ar gael, a mawr obeithiwn y bydd cyflwyno'r brechlyn yn caniatáu i ni groesawu rhagor o feddygon i weithio yn y DU yn fuan.

### PLAB 2

Yn 2021, gwnaethom fuddsoddiadau sylweddol i gynyddu'r capasiti i gynnal arholiadau PLAB 2 yn dilyn y pandemig, gan gynnwys creu ail gylched PLAB 2 ym Manceinion.†

**Arweiniodd hyn at**

**8,648**

**o ymgeiswyr yn sefyll PLAB 2 yn 2021,** cynnydd o 136.7% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020 **(3,654)**.

* Mae eithriadau i hyn yn cynnwys graddedigion meddygol rhyngwladol a ymunodd â'r gofrestr ar ôl iddynt gael eu noddi gan sefydliadau gofal iechyd, neu ar sail cymwysterau ôl-raddedig. Yn y ddau achos hwn, rhaid i feddygon ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd a'u sgiliau o hyd. Am ragor o wybodaeth am y gwahanol lwybrau er mwyn ymuno â'r gofrestr, trowch at www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-the-register/before-you-apply/evidence-to-support-your-application.

† Gweler tudalen 37 am ragor o wybodaeth.

# Gosod safonau a'u cynnal

## Ailddilysu

Rhaid i bob meddyg trwyddedig sy'n gwneud gwaith meddygol yn y DU brofi eu bod yn bodloni ein safonau bob pum mlynedd trwy gyfrwng proses a elwir ailddilysu. Mae ailddilysu yn cynorthwyo meddygon i ddatblygu eu harfer, mae'n ysgogi gwelliannau ym maes llywodraethu clinigol, ac mae'n cynnig hyder i gleifion bod meddygon yn addas i ymarfer.

Fel rhan o'n hymateb i'r pandemig, yn 2020 a 2021, gohiriom ddyddiadau cyflwyno ailddilysu tua 60,000 o feddygon, gan helpu lleoliadau gofal iechyd i ymdopi gyda phwysau ar systemau trwy sicrhau y gallai meddygon dreulio cymaint o amser ag y bo modd yn darparu gofal.

**Yn 2021, cawsom**

**65,893**

o **argymhellion ailddilysu** at ei gilydd.

Cyflwynwyd **55,488** o'r argymhellion gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yn **Lloegr**.

Cyflwynwyd **2,100** o'r argymhellion gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yng **Ngogledd Iwerddon**.

Cyflwynwyd **5,125** o'r argymhellion gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yn **Yr Alban**.

Cyflwynwyd **3,035** o'r argymhellion gan gyrff dynodedig wedi'u lleoli yng **Nghymru**.

Gwnaethom benderfyniad am

**98.2%**

o'r argymhellion a gawsom yn ystod 2021 **cyn pen 5 diwrnod gwaith** o'u cael, **gan ragori ar ein targed o 95%**.

**Ailddilyswyd**

**53,322**

**o feddygon yn 2021**.†

Roedd **44,778** yn byw yn **Lloegr**.

Roedd **1,580** yn byw yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **4,152** yn byw yn **Yr Alban**.

Roedd **2,327** yn byw yng **Nghymru**.

Roedd **485** wedi'u lleoli **y tu allan i'r DU** neu nid oeddent wedi darparu digon o wybodaeth i ni er mwyn i ni allu nodi eu lleoliad.

**11,041** — Cymeradwyom y cam o **ohirio dyddiadau cyflwyno at ddibenion ailddilysu** 11,041 o feddygon.

**398** — Penderfynom **dynnu trwydded** 398 o feddygon ar ein cofrestr yn ôl.‡

* Nid yw'r 145 sy'n weddill yn gysylltiedig â lleoliad penodol gan eu bod o ganlyniad i brosesau gweinyddol sy'n angenrheidiol er mwyn cyfuno data.

† Gan ddibynnu lle y maent yn gweithio, gall meddygon unigol gael mwy nag un argymhelliad.

‡ Os na fydd meddyg yn bodloni gofynion ailddilysu, os byddant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus, neu os na fyddant yn darparu tystiolaeth yr oedd y cais i'w darparu yn rhesymol, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni dynnu eu trwydded yn ôl. Mae'r broses hon yn wahanol i'r broses o'u tynnu oddi ar y gofrestr, er enghraifft, yn dilyn gwrandawiad MPTS.

## Allgymorth

### Darparodd ein timau allgymorth hyfforddiant am ein safonau ar gyfer:

**16,974**
**o feddygon** mewn **527 sesiwn** ac

Mae hwn yn gynnydd o **73.6%** o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020 (9,776).

**8,218**
**o fyfyrwyr** mewn **71 sesiwn** ar draws y DU.

Mae hwn yn gynnydd o **9.2%** o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020 (7,529).*

Dywedodd **93%** o'r meddygon a **93%** o'r myfyrwyr a fynychodd un o'n gweithdai allgymorth ar draws y DU bod **eu gwybodaeth o rôl a safonau CMC wedi gwella**.


Dywedodd **84%** o'r meddygon a **84%** o'r myfyrwyr a fynychodd sesiwn ar draws y DU ei bod **wedi gwella eu hargraff o CMC**.

### Atebodd ein tîm ymholi am safonau:

**613**
ymholiad am ein canllawiau.

Mae hwn yn ostyngiad o **18.9%** o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020 (**756**).

Roedd tua **54%** o'r ymholiadau **gan feddygon** (2020: 65%)




Roedd **34%** gan **aelodau'r cyhoedd** (2020: 22%)

Roedd **12%** **gan eraill,** gan gynnwys staff o sefydliadau proffesiynol, myfyrwyr a'r heddlu (2020: 13%).

Yn ogystal, mae ein timau allgymorth yn darparu gweithdai sy'n ceisio helpu meddygon y mae **ymarfer yn y DU yn brofiad newydd iddynt**, i addasu i weithio yn systemau gofal iechyd y DU.

Yn 2021, darparodd y tîm **208 o weithdai Croeso i Arfer yn y DU**, a oedd wedi cynnwys **6,471 o feddygon** - mae hyn **72%** yn uwch na'r nifer yn 2020 **(3,762)**.

Cynhaliodd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr **1,284** o gyfarfodydd gyda swyddogion cyfrifol.

Yn ogystal, rhoddont gyngor addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â **2,205** o feddygon.

* Rydym wedi gweld cynnydd llai mewn gweithgarwch ymgysylltu gyda myfyrwyr oherwydd yr amhariad parhaus ar addysg uwch o ganlyniad i'r pandemig.

† Gweler tudalen 31 am ragor o wybodaeth.

# Goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol

## Sicrhau ansawdd

Rydym yn rheoleiddio'r holl gamau mewn addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddygon yn y DU. Rydym yn pennu safonau a chanlyniadau disgwyliedig ac rydym yn cyflawni gwaith sicrhau ansawdd (SA) er mwyn sicrhau y cynhelir safonau.

Mae ein prosesau monitro estynedig a SA israddedig ac ôl-raddedig yn hyrwyddo ac yn annog rheolaeth leol o bryderon am ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant meddygol.

Ar ddechrau'r pandemig yn 2020, bu'n rhaid i ni atal ymweliadau SA addysg dros dro am resymau diogelwch. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, llwyddom i'w cynnal unwaith eto trwy drefniant rhith, ac yn 2021, llwyddom i gynyddu nifer yr ymweliadau yn sylweddol.

Yn 2021, cynhaliom **208** o ymweliadau SA addysg.

Mae hyn **136%** ↑ yn uwch na'r nifer yn 2020 (**88**).

Roedd **165** o'r ymweliadau yn **Lloegr**.
Roedd **6** o'r ymweliadau yng **Ngogledd Iwerddon**.
Roedd **24** o'r ymweliadau yn **Yr Alban**.
Roedd **13** o'r ymweliadau yng **Nghymru**.

Roedd **154** ohonynt yn **ymweliadau SA i ysgolion meddygol newydd, ysgolion meddygol sefydledig, neu amgylcheddau clinigol** lle y cynhelir addysg a hyfforddiant meddygol.

Roedd **54** ohonynt yn **ymweliadau monitro estynedig**, a oedd yn ceisio hyrwyddo'r broses o ddatrys pryderon ynghylch ansawdd hyfforddiant ôl-raddedig yn lleol.

O'n hymweliadau SA, canfuom:

- **19** maes **arfer da neu sy'n gweithio'n dda**.
- **21** maes lle y **bodlonwyd ein safonau**, ond lle y **nodom welliannau** y byddai modd eu gwneud.
- **18** maes yr oedd gofyn **sicrhau gwelliant** ynddynt.*

O ganlyniad i'n hymweliadau monitro estynedig:

- **Uwchgyfeiriwyd 9** achos a oedd yn ymwneud ag addysg ôl-raddedig **i'n proses monitro estynedig**.
- **Llwyddwyd i ddatrys 10 achos monitro estynedig** a uwchgyfeiriwyd yn flaenorol.

Er mwyn sicrhau y gallai hyfforddiant ôl-raddedig barhau hyd yn oed pe bai'n cael ei effeithio gan y pandemig, gweithiom gyda phartneriaid i wneud rhai newidiadau i gwricwla ac arholiadau.

Erbyn diwedd 2021, roeddem wedi **cymeradwyo 80 o gamau a oedd yn llacio'r gofynion** mewn cwricwla hyfforddi a newidiadau dros dro i **114 o gydrannau arholiadau**.

Yn ogystal, cynorthwyom ysgolion meddygol i **wneud penderfyniadau ynghylch graddio myfyrwyr** y tarfwyd ar eu hastudiaethau o ganlyniad i'r pandemig.

* Nid yw pob ymweliad SA yn arwain at ganfyddiadau penodol fel y rhai a restrir yma – mewn rhai achosion, ni chanfyddir unrhyw beth o bwys, gan nad oes unrhyw beth wedi newid ers yr ymweliad blaenorol, neu ni chanfuwyd unrhyw beth a oedd yn werth ei nodi (hy. mae'r addysg a'r hyfforddiant yn gweithio fel y disgwyl).

# Cynorthwyo'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu

Yn 2021, cafodd ein tîm adolygu Corfforaethol **1,884** o **gwynion** am ein gwasanaeth.*

Mae hwn yn ostyngiad o **2.3%** o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020 (**1,928**).

Cofnododd **6,543** **canmoliaeth** hefyd.

Mae hwn yn gynnydd o **100.9%** o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020 (**3,257**).*

**Yn 2021, cafodd ein gwasanaeth cyswllt cleifion 285 o gyfarfodydd gyda chleifion a oedd wedi mynegi pryder gyda ni.**

| | |
|---|---|
| **88%** | Roedd 88% o'r rhai a oedd wedi mynychu un o'n cyfarfodydd cleifion yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r profiad o gyfarfod gyda chleifion. |
| **96%** | Roedd 96% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff cyswllt cleifion yn dangos empathi ynghylch eu sefyllfa. |
| **92%** | Roedd 92% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fodlon bod eu pryderon wedi cael eu deall yn ystod y cyfarfod. |
| **95%** | Roedd 95% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cyfarfodydd wedi eu helpu i ddeall pa gamau y gallai CMC eu cymryd. |

Atebodd ein canolfan gyswllt **162,504** o alwadau a **131,157** o negeseuon e-bost neu lythyrau.

Roedd **77%** o'r galwadau a'r negeseuon e-bost a gawsom gan feddygon ac roedd **23%** gan aelodau'r cyhoedd ac eraill.

Yn ogystal, deliodd y ganolfan gyswllt gyda **65,178** o sesiynau gwe-sgwrsio.

* Mae'r cynnydd sylweddol hwn o ganlyniad rhannol i ymdrechion a wnaethom i sicrhau bod cydweithwyr yn casglu ac yn cofnodi'r ganmoliaeth y byddwn yn ei chael hefyd.

# Ymchwilio i bryderon a gweithredu yn eu cylch

## Pryderon a fynegwyd

**9,074** **Mynegwyd 9,074 o bryderon i ni yn ystod 2021.**

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o **7.2%** o'i gymharu gyda'r sefyllfa yn 2020 (8,468 o bryderon).

| | |
|---|---|
| 62.7% | Mynegwyd **5,685** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn **Lloegr**. Mae hon yn ganran debyg i'r hyn a welwyd yn 2020 (62%). |
| 2.2% | Mynegwyd **199** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yng **Ngogledd Iwerddon** - mae hon yn ganran ychydig yn uwch na'r hyn a welwyd yn 2020 (1.8%). |
| 4.2% | Mynegwyd **381** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn **Yr Alban** - mae hon yn ganran ychydig yn is na'r hyn a welwyd yn 2020 (4.9%). |
| 2.8% | Mynegwyd **253** mewn perthynas â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yng **Nghymru** - mae hon yn ganran debyg i'r hyn a welwyd yn 2020. |
| 28.2% | Ar gyfer **2,556** ohonynt, **ni nodwyd lleoliad y digwyddiad, neu roeddent wedi digwydd y tu allan i'r DU** – mae hon yn ganran debyg i'r hyn a welwyd yn 2020 (28.5%). |

## Canran y pryderon a fynegwyd gan y cyhoedd

| 2021 | 2020 | |
|---|---|---|
| 74.8% | 74.6% | **O blith y 9,074 o bryderon a fynegwyd i ni yn 2021, mynegwyd 74.8% ohonynt gan gleifion neu aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn debyg iawn i'r ganran a welwyd yn 2020 (74.6%).** |
| 72.2% | 70.7% | Canran y pryderon a oedd yn ymwneud â digwyddiadau a oedd wedi digwydd yn **Lloegr** ac a fynegwyd gan y cyhoedd oedd 72.2% (cynnydd bach o 70.7% yn 2020). |
| 50.3% | 54.7% | Yng **Ngogledd Iwerddon**, roedd yn 50.3%, (gostyngiad o 54.7% yn 2020). |
| 70.6% | 70.2% | Yn **Yr Alban**, roedd yn 70.6%, (tebyg i 2020 - 70.2%). |
| 60.9% | 66.8% | Yng **Nghymru**, roedd yn 60.9% (gostyngiad o 66.8% yn 2020). |
| 84.4% | 85.9% | Roedd 84.4% o'r pryderon a gawsom heb leoliad wedi'i nodi neu yr oeddent wedi digwydd y **tu allan i'r DU** wedi cael eu mynegi gan y cyhoedd (gostyngiad bach o 85.9% yn 2020). |

## Ymchwiliadau

Nid yw'r holl bryderon a fynegir i ni yn bodloni ein trothwy er mwyn cynnal ymchwiliad. Weithiau, y ffordd orau o ddelio gyda phryderon yw delio â nhw yn lleol neu thrwy gael sgwrs gyda'r meddyg, neu dylid eu dwyn gerbron sefydliad arall. Dim ond pan fydd risg i ddiogelwch cleifion neu i hyder y cyhoedd mewn meddygon y byddwn yn gweithredu.

Roedd **925** (**10.2%**) o'r pryderon a gawsom yn 2021 yn bodloni ein **trothwy statudol ar gyfer cynnal ymchwiliad**.

↓ Mae'r ganran hon yn is na'r ganran a welwyd yn 2020 (**12.3%**).

Roedd **214** (23.1%) yn cyfeirio at bryderon a fynegwyd gan **aelodau'r cyhoedd**.

↓ Mae hon yn ganran is na'r ganran a welwyd yn 2020 (**28.1%**).

## Canlyniadau ymchwiliadau

**55.2%** Cwblhawyd 569 o'r ymchwiliadau a gwblhaom yn 2021 heb gymryd unrhyw gamau.

**24.9%** Mewn 257 achos, cyfeiriom yr achos at y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol.

**8.4%** Mewn 87 achos, cyhoeddom rybuddion.

**6.5%** Mewn 67 achos, cytunodd y meddyg ymrwymo i ymgymeriadau.

**5%** Mewn 51 achos, rhoddom gyngor.

## Ymholiadau amodol

Mewn achosion penodol, byddwn yn cynnal ymholiadau amodol, lle y byddwn yn ystyried gwybodaeth yn gynnar mewn achos er mwyn cynnig datrysiad cyflymach i gleifion a meddygon. Os bydd y dystiolaeth yn dangos nad oes unrhyw risg i gleifion yn y dyfodol, ac nad oes angen cymryd camau rheoliadol, ni fyddwn yn symud ymlaen i ymchwiliad llawn. Ar gyfer yr achosion hynny lle y bydd gennym bryderon am ddiogelwch cleifion, byddwn yn cynnal ymchwiliad llawn.

Ystyriwyd

**490**

(5.4%) o'r pryderon a gawsom yn 2021 **dan ymholiad amodol**.

Mae hon yn ganran uwch na'r hyn a welwyd yn 2020 (**4.9%**).

Roedd

**382**

o'r rhain (**78%**) yn cyfeirio at bryderon a fynegwyd gan **aelodau'r cyhoedd**.

Mae hon yn ganran debyg i'r hyn a welwyd yn 2020 (**77.3%**).

Mewn

**333**

o'r achosion (**68%**), penderfynom gau'r ymholiad amodol **heb gymryd unrhyw gamau**.

Mewn

**64**

64 o'r achosion (**13%**), **penderfynom symud yr achos ymlaen i ymchwiliad**.

Roedd yr ymholiad amodol **ar agor o hyd** ar 31 Rhagfyr 2021 mewn

**93**

achos (**19%**).

## Canlyniadau tribiwnlysoedd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol

**Yn 2021, cynhaliodd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol 269 tribiwnlys at ei gilydd.**

| | |
|---|---|
| 33.8% | Mewn 91 ohonynt, penderfynodd y tribiwnlys atal y meddyg a gyfeiriwyd at y tribiwnlys am gyfnod. |
| 26.4% | Mewn 71 achos, nid oedd y tribiwnlys wedi canfod unrhyw amhariad. |
| 21.6% | Mewn 58 achos, tynnwyd enw'r meddyg oddi ar y gofrestr. |
| 10.4% | Mewn 28 achos, er nad oedd y tribiwnlys wedi canfod unrhyw amhariad, penderfynodd roi rhybudd. |
| 5.2% | Mewn 14 achos, gosodwyd amodau ar arfer y meddyg. |
| 1.5% | Mewn 4 achos, roedd meddygon wedi gwneud penderfyniad gwirfoddol i dynnu eu henw oddi ar y gofrestr. |
| 0.7% | Mewn 2 achos, canfuwyd yr amharwyd ar arfer y meddyg, ond ni chymrwyd unrhyw gamau pellach. |
| 0.4% | Mewn 1 achos, cytunodd y meddyg ymrwymo i ymgymeriadau. |

Pan na fyddwn yn cytuno gyda'r penderfyniadau a wneir gan dribiwnlys ymarferwyr meddygol, gallwn apelio yn eu herbyn.

Yn 2021, gwnaethom 10 apêl. Roedd hyn 1 yn fwy nag a wnaethpwyd yn 2020. Bu 1 o'n hapeliadau yn llwyddiannus, ond nid oeddem wedi cael penderfyniad eto am 9 ohonynt ar 31 Rhagfyr 2021.

# Cyflawni ein strategaeth



# Cyflawni ein strategaeth

2021 oedd 12 mis cyntaf ein strategaeth 2021–2025. Mae'n strategaeth yn seiliedig ar ein gweledigaeth ar gyfer 2030 i fod yn rheolydd mwy effeithiol, perthnasol a thosturiol fyth – ar gyfer cleifion, ar gyfer y cyhoedd, ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac fel cyflogwr.

Mae pedair prif thema yn siapio ein holl waith:

Yn adran hon yr adroddiad, rydym yn disgrifio sut y gweithiom i gyflawni'r nodau hyn yn 2021 trwy gyfrwng mentrau amrywiol, gan gydweithio'n agos gyda'n partneriaid.



## Ymateb i'r pandemig

Trwy gydol y flwyddyn, mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ein gweithrediadau. Fel y gwelwyd yn ystod 2020, roedd cryn dipyn o'n gwaith yn ystod 2021 wedi canolbwyntio ar gynorthwyo meddygon, myfyrwyr, a chyflogwyr yn ystod cyfnod arbennig o anodd. Fel rhan o hyn:

- cyflwynom gofrestriad brys dros dro yn 2020 i feddygon a oedd wedi gadael y gofrestr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd llawer o'r meddygon hyn, yr oedd nifer ohonynt wedi parhau i fod yn weithgar yn ystod 2021, wedi cyflawni rôl gwerthfawr wrth ddarparu gofal i gleifion. Roedd eraill wedi darparu cymorth hanfodol ar gyfer y rhaglen frechu.
- agorom ganolfan asesu clinigol dros dro newydd er mwyn caniatáu i brofion y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol barhau yn unol â'r capasiti a welwyd cyn y pandemig, gan ganiatáu i fwy o feddygon ymuno â'r proffesiwn.
- cymeradwyom nifer o newidiadau dros dro i gwricwla addysg er mwyn cynorthwyo dilyniant diogel a hyblyg i feddygon dan hyfforddiant.
- cynorthwyom ysgolion meddygol i wneud penderfyniadau ynghylch graddio myfyrwyr yr amharwyd ar eu hastudiaethau o ganlyniad i'r pandemig.
- aildrefnom ddyddiadau ailddilysu er mwyn lleddfu'r pwysau ar feddygon a'u cyflogwyr.
- cyhoeddom ddatganiad ar y cyd gyda rheolyddion proffesiynol eraill, a oedd yn cynnig sicrwydd i staff iechyd a gofal cymdeithasol ein bod yn deall ac y byddem yn ystyried y sialensiau cyd-destunol a achoswyd gan y pandemig wrth wneud penderfyniadau am addasrwydd i ymarfer neu ailddilysu.
- cyflwynom ganllaw newydd i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer, gan ystyried yr amgylchiadau a'r sialensiau sydd wedi codi yn sgil y pandemig.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant

Amlygodd y pandemig anghydraddoldebau sydd wedi bodoli ers amser hir hefyd, gan gynnwys effeithiau anfantais a gwahaniaethu hiliol.

Rydym yn meithrin cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) ym mhopeth a wnawn fel rheolydd a chyflogwr. Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yw'r peth iawn a theg i'w wneud. Yn ogystal, mae'n hanfodol er mwyn helpu i gadw meddygon sy'n gweithio yn y DU ac er mwyn cynorthwyo gofal o ansawdd uchel i gleifion. Felly, rydym wedi ymwreiddio ED&I ym mhob nod yn ein strategaeth.

Gan adlewyrchu hyn, ym mis Chwefror 2021, ymrwymom i gyflawni targedau penodol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol. Rydym yn dymuno gwaredu anghydraddoldebau mewn cyfeiriadau addasrwydd i ymarfer erbyn 2026 ac o ran cyrhaeddiad myfyrwyr ar sail hil a ffactorau eraill sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd erbyn 2031. Ni allwn gyflawni'r targedau hyn ar ein pen ein hunain, gan bod gwelliannau yn dibynnu ar newid systemig, ehangach. Felly yn ystod 2021, gweithiom gyda gwahanol bartneriaid ar draws systemau gofal iechyd y DU er mwyn dechrau paratoi'r sylfaen ar gyfer y gwelliannau hyn.

# Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

Mae ymchwil yn dangos bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn amgylcheddau cefnogol lle y rhoddir blaenoriaeth i les yn gallu rhoi gofal diogel ac o ansawdd uchel i gleifion mewn ffordd well. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wella diwylliannau ac amgylcheddau gwaith, gan sicrhau eu bod yn gefnogol, yn gynhwysol ac yn deg i weithwyr meddygol proffesiynol. O ganlyniad, bydd cleifion yn cael budd gan ofal gwell a mwy diogel a bydd y proffesiwn yn cadw ac yn denu mwy o weithwyr proffesiynol. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio gyda chleifion a gweithwyr meddygol proffesiynol er mwyn sicrhau bod ein canllawiau yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol a'u bod yn cynrychioli anghenion amrywiol cleifion. Rhoddom sylw i'r nod hwn yn 2021 trwy gyfrwng nifer o fentrau.

## Diweddaru ein canllawiau

### Adolygu *Arfer meddygol da*

*Arfer meddygol da* yw'r canllaw craidd y mae'n rhaid i bob meddyg sy'n gweithio yn y DU ei ddilyn. Mae'n siapio'r ffordd y maent yn gofalu am gleifion trwy ddisgrifio'r gwerthoedd a'r ymddygiad y mae angen iddynt eu dangos.

Cyhoeddom fersiwn cyfredol *Arfer meddygol da* yn 2013. Ers hynny, mae disgwyliadau cleifion a'r ffordd y darparir gofal iechyd wedi newid. Yn ogystal, rydym yn paratoi i ymgymryd â'r gwaith o reoleiddio cymdeithion meddygol (CMion) a chymdeithion anesthesia (CAion). Felly rydym yn adolygu'r canllaw er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion cleifion ac yn cynorthwyo'r gweithwyr meddygol proffesiynol yr ydym yn eu rheoleiddio i ddarparu gofal diogel ac o ansawdd uchel. Rydym yn bwriadu diweddaru'r canllaw mewn pedwar prif maes:

- gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu gyda chleifion
- mynd i'r afael â thuedd a gwahaniaethu wrth drin cleifion a gweithwyr proffesiynol
- gweithio mewn ffordd effeithiol gyda chydweithwyr
- arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol.

Ers i ni gychwyn ar yr adolygiad:

- rydym wedi gwahodd meddygon, cleifion a rhanddeiliaid eraill i ymrwymo i'n cymuned o ddiddordeb. Byddant yn cael diweddariadau am yr adolygiad ac yn helpu i siapio ein gwaith.
- rydym wedi cyflawni gwaith cwmpasu er mwyn datblygu tystiolaeth, gan gynnwys: ymchwilio i ganfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus ac adolygiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar, cael dirnadaeth gan CMion ac CAion o'r safonau interim, ac adolygu gwybodaeth a gasglwyd yn ystod gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid.
- rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil ynghylch sut y mae meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn defnyddio ein canllaw ar hyn o bryd.

Er mwyn helpu gyda'r adolygiad, sefydlom fforwm cynghori hefyd. Mae'r fforwm yn glust i wrando ar benderfyniadau allweddol am yr adolygiad a'r newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud. Mae ei 12 aelod yn cynnig cyfoeth o arbenigedd mewn meysydd megis moeseg meddygol, gofal cleifion, gwaith aml-ddisgyblaethol, a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Disgwyliwn gwblhau'r adolygiad a chyhoeddi fersiwn newydd o *Arfer meddygol da* yn 2023. Yn ystod 2022, byddwn yn ymgynghori gyda meddygon, cleifion, cyflogwyr, a rhanddeiliaid eraill yn systemau gofal iechyd y DU. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu arbenigwr allanol mewn dirnadaeth ymddygiadol i ymchwilio ac ymgysylltu gyda dros 200 o gleifion y mae ganddynt brofiad o'r system gofal iechyd. Bydd mewnbynnau o'r gweithgareddau hyn yn ein helpu i benderfynu pa newidiadau y mae angen i ni eu gwneud.


Ein huchelgais yw y bydd rhifyn newydd *Arfer meddygol da* yn adlewyrchu anghenion a disgwyliadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, a gofalwyr yn well, ynghyd â'r cyd-destun y mae ymarferwyr meddygol yn gweithio ynddo. Bydd yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, gan ymateb i'r sialensiau o ddarparu gofal o ansawdd uchel ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn gwasanaeth sydd dan bwysau. Mawr obeithiwn y bydd y newidiadau yn helpu i sicrhau bod y diwylliant yn y gweithle yn fwy diogel ac yn fwy ymatebol i gleifion, ac y bydd ein gwasanaethau iechyd yn fwy cynhwysol, teg, moesgar a thosturiol i bawb.

## Diweddariadau i'n hyb moesegol*

Mae ein hyb moesegol yn gasgliad o adnoddau ar-lein sy'n archwilio sut i weithredu ein canllawiau mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae'n canolbwyntio ar feysydd y mae meddygon yn aml yn holi amdanynt neu y maent o'r farn eu bod yn heriol. Mae'r adnoddau yn cynnwys astudiaethau achos, offerynnau penderfynu, siartiau llif, a fideos. Fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo meddygon gyda sefyllfaoedd moesegol cyffredin, megis diogelu oedolion, gofal iechyd traws, a gofalu am bobl sydd ag anableddau dysgu.

Yn 2021, gwnaethom sawl newid i'r hyb. Yn arbennig:

- diweddarom arddull ein dewislenni, sydd wedi arwain at fwy o ymgysylltu gyda'n deunyddiau dysgu
- cyhoeddom gynnwys newydd ynghylch nodi camymddwyn rhywiol a mynd i'r afael ag ef
- darparom wybodaeth ychwanegol am ymgynghoriadau o bell
- ychwanegom ragor o wybodaeth am ein gweithgarwch rheoleiddio CMion a CAion a fydd yn cychwyn cyn bo hir
- aethom ati i wella ein siart llif ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n canllaw a ddiweddarwyd
- diweddarom ein cyngor ynghylch COVID-19, gan symleiddio'r wybodaeth a oedd ar gael ac ychwanegu gwybodaeth fanwl ynghylch brechu.




* Diweddarwyd yr adran hon ar 19/08/2022 gan bod y fersiwn gwreiddiol yn cynnwys gwybodaeth ac ystadegau nad oeddent yn rhan o waith ar yr hyb moesegol.

## Presgripsiynu


Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddom ein canllaw Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau wedi'i ddiweddaru. Daeth y canllaw newydd i rym ar 5 Ebrill 2021. Aethom ati i'w ddiweddaru yn dilyn galwad am dystiolaeth ynghylch presgripsiynu ac ymgynghoriadau o bell a lansiwyd yn 2019. Roeddem yn dymuno deall a oedd ein canllaw yn llwyddo i ystyried y newidiadau yn y maes hwn. Yn ogystal, mae'r canllaw newydd yn ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn ymgynghoriadau o bell a welsom dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r pandemig wedi rhoi hwb pellach i'r cynnydd hwn.

Cawsom 75 o ymatebion i'n hymgynghoriad gan unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad yn y maes hwn. Roedd yr ymatebion hyn wedi ein helpu i siapio'r diweddariad.

Mae'r canllaw yn cynnig cyngor wedi'i ddiweddaru am bresgripsiynu wyneb yn wyneb ac o bell. Mae'n hanfodol bod egwyddorion arfer da yn cael eu gweithredu mewn lleoliad wyneb yn wyneb neu o bell. Yn ogystal, lluniom rai sefyllfaoedd cyffredin er mwyn cynorthwyo'r canllaw.

> Bu'r ymateb i'r canllaw a ddiweddarwyd yn gadarnhaol iawn. Bum niwrnod ar ôl ei lansio, roedd eisoes wedi cael ei lawrlwytho bron i 5,000 gwaith.

Mae'r canllaw newydd yn helpu'r rhai sy'n presgripsiynu i ddeall eu cyfrifoldebau. Yn ei dro, mae hyn yn eu helpu i bresgripsiynu mewn ffordd ddiogel a gwybodus. Mae'n cynorthwyo meddygon, y mae nifer ohonynt yn gweithio mewn realiti newydd sef meddygaeth o bell, ac yn eu helpu i gynnal gofal da i gleifion dan amgylchiadau heriol.



# Gweithio gyda phartneriaid i nodi risgiau i ddiogelwch cleifion a rhoi sylw iddynt

## Gofal mamolaeth

Mae mamolaeth yn faes cymhleth o fewn meddygaeth, sy'n gofyn am waith tîm ar draws disgyblaethau. Pan fydd pethau yn mynd o le, gall yr effaith fod yn drasig. Yn ogystal, mae'n faes lle y mae'r canlyniadau i fenywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol dipyn yn waeth.

Ceir cofnod da o'r materion a'r pryderon ynghylch gwasanaethau mamolaeth y DU, ac maent yn ymestyn yn ôl dros o leiaf ddau ddegawd – gyda sawl achos amlwg, adolygiadau ac ymchwiliadau amrywiol, adroddiadau gan reolyddion eraill, y ffaith bod gwasanaethau mamolaeth yn ymddangos yn rheolaidd mewn grwpiau trosolwg gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar y cyd, ac ymdrechion amrywiol penodol ym maes mamolaeth yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo ar draws darparwyr, rheolyddion ac eraill i ddeall a gwella gofal mamolaeth. Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddeall a gweithredu ynghylch pryderon a helpu i wella'r diwylliant mewn adrannau mamolaeth.

**Rhannu data a dirnadaeth**

Ar draws gofal iechyd yn y DU, mae llywodraethau, darparwyr, rheolyddion ac eraill wedi ymrwymo i ddatblygu, deall a gweithredu ar sail data a dirnadaeth. Rydym yn rhannu'r ymrwymiad hwnnw ac rydym yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n gynyddol gydweithredol – gan gynnwys rhannu ein data a'n dirnadaeth ynghylch gwasanaethau mamolaeth er mwyn helpu i adnabod risgiau yn gynnar, cynyddu cydlyniant rhwng rheolyddion, a rhoi sylw i faterion sy'n dod i'r amlwg. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar hyn o bryd ar blatfform data a rennir er mwyn archwilio mesurau y gallent helpu i adnabod adrannau mamolaeth sy'n cael anhawster.

**Gwella diwylliannau gweithle**

Mae ein timau allgymorth wedi bod yn ymgysylltu gyda Gweithgor Diwylliant National Health Service England/Improvement (NHSEI) a grwpiau trosolwg amenedigol rhanbarthol i siapio a gwella diwylliant mamolaeth. Ein ffocws presennol yw gwaith ar y cyd gydag NMC, Health Education England (HEE), ac NHSEI er mwyn datblygu ein canllaw a darparu sesiynau Ymddygiad Proffesiynol a Diogelwch Cleifion (PBPS) ar gyfer unedau mamolaeth a dargedir. Gellir darparu'r sesiynau wyneb yn wyneb neu fel sesiynau rhith, ac mae'r cynnwys yn canolbwyntio ar ofal mamolaeth. Bellach, rydym yn gweithio gydag NMC a Phrif fydwragedd Rhanbarthol i ddarparu sesiynau PBPS ym mhob rhanbarth yn Lloegr yn ystod 2022.

Ar y cyd ag NMC a Phrif Fydwragedd Rhanbarthol, rydym wedi bod yn darparu digwyddiadau rhanbarthol ar y cyd i weithwyr mamolaeth proffesiynol hefyd, er enghraifft, ynghylch dyletswydd gonestrwydd.

## Monitro a rhoi sylw i risgiau sy'n dod i'r amlwg

Rydym yn parhau i ymgysylltu gyda fframwaith y Grŵp Trosolwg Strategol Cenedlaethol a Rhanbarthol ar y Cyd (JSOG) yn Lloegr. Mae'r fframwaith yn darparu fforwm i reolyddion gofal iechyd, GIG Lloegr ac NHS Improvement i rannu a thrafod gwybodaeth am risgiau sy'n dod i'r amlwg i ddiogelwch cleifion ar er mwyn datblygu dulliau gweithredu cyffredin er mwyn rhoi sylw iddynt.

Mae'r partneriaid eraill yn y fframwaith yn cynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal, Health Education England, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yn 2021, cyfrannom at drafodaethau ar lefel genedlaethol ynghylch ansawdd hyfforddiant ac ynghylch arweinyddiaeth. Ar lefel ranbarthol, roeddem wedi parhau i weithio gyda rheolyddion eraill a rhanddeiliaid i rannu data a gwybodaeth. Yn ogystal, roeddem wedi parhau i oruchwylio a rhoi sylw i feysydd risg a oedd yn dod i'r amlwg.

## Ymgysylltu gyda meddygon, myfyrwyr a phartneriaid eraill er mwyn hyrwyddo gofal diogel

> “Diolch i chi eich dau am weithdy mor wych ddoe. Roedd yr hyfforddeion yn frwdfrydig ac wedi dysgu cryn dipyn o'r sefyllfaoedd achos a'r drafodaeth.”
>
> - Cyfarwyddwr rhaglen hyfforddiant

Mae ein timau allgymorth a'n cydweithwyr o'n timau sicrhau ansawdd addysg yn cyfarfod gyda meddygon, myfyrwyr, cyflogwyr, addysgwyr a phartneriaid eraill yn systemau gofal iechyd y DU er mwyn:

- gwella dealltwriaeth o'n rôl a'r cymorth yr ydym yn ei gynnig
- hyrwyddo a chynorthwyo rhagoriaeth ym maes addysg ac arfer meddygol
- nodi a rhoi sylw i risgiau i gleifion cyn y bydd niwed yn digwydd
- monitro ansawdd addysg feddygol, gan weithio gyda phartneriaid i roi sylw i sialensiau mewn amgylcheddau hyfforddiant
- cynorthwyo cyflogwyr i ddarparu gweithgarwch ailddilysu, rhoi sylw i bryderon am feddygon a'u rheoli, a chryfhau amgylcheddau hyfforddiant
- cynorthwyo datblygiad parhaus systemau llywodraethu clinigol lleol er mwyn cynnal gofal cleifion a'i wella.

Yn 2021, cynhaliodd ein cynghorwyr cyswllt rhanbarthol a chenedlaethol ychydig yn llai na 600 o weithdai rhyngweithiol, gan gynnwys 17,000 o feddygon ac 8,200 o fyfyrwyr. Cynhaliwyd mwyafrif y gweithdai ar-lein o ganlyniad i'r pandemig a oedd yn parhau. Roedd y pynciau moesegol y rhoddwyd sylw iddynt amlaf yn cynnwys gwneud penderfyniadau a chaniatâd, mynegi pryderon a chyfrinachedd. Yn ogystal, cynhaliodd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr dros 1,200 cyfarfod gyda swyddogion cyfrifol. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, buont yn trafod ein llawlyfr llywodraethu clinigol effeithiol ar gyfer y proffesiwn meddygol a sut y gall helpu i gryfhau systemau lleol. Yn ogystal, buont yn darparu cyngor addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn perthynas ag ychydig dros 2,200 o feddygon.

Mae ein hymdrechion yn y maes hwn yn ein galluogi i weithio gyda meddygon a phartneriaid eraill er mwyn diogelu a hyrwyddo diogelwch cleifion mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r ffordd y mae ein cynghorwyr cyswllt wedi ymateb i geisiadau gan ein partneriaid i gyfrannu i'w rhaglenni gwaith.

Yn **Lloegr**, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol i gynorthwyo meddygon ar ddechrau eu gyrfa.

- Cydweithiom gyda GIG Lloegr, NHS Improvement, a HEE i gynllunio a gweithredu Siarter Midlands. Nod y siarter yw cynorthwyo meddygon dan hyfforddiant.
- Cyfrannom at y gwaith o gynllunio darpariaeth ymsefydlu safonol GIG Lloegr.
- Cyfrannom at beilot ymsefydlu HEE ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd.
- Cyfranogom yn rhaglen Porth Meddygon Proffesiynol GIG. Nod y rhaglen yw helpu meddygon o'r DU a fu'n astudio yn UE i gael profiad er mwyn datblygu gyrfa yn y DU.

> "Mae'r ffaith eich bod yn estyn allan i brifysgolion unigol er mwyn cynnal sesiynau i fyfyrwyr yn dangos eich bod wir yn ymboeni."
> - Myfyriwr a fynychodd sesiwn allgymorth

> "Ffordd wych sy'n atgoffa bod pawb yn gyfrifol am ddiogelwch cleifion a'r safon y byddwch yn cerdded heibio yw'r safon y byddwch yn ei dderbyn."
> - Meddyg a fynychodd sesiwn allgymorth

Yng **Ngogledd Iwerddon**, rhoddom gyngor am sefyllfaoedd moesegol i addysgwyr a meddygon dan hyfforddiant. Yn ogystal, rhoddom wybodaeth am ein gwaith addasrwydd i ymarfer. Roedd y gwaith yn cynnwys::

- sesiwn ynghylch addasrwydd myfyrwyr i ymarfer (FTP), a fynychwyd gan staff o'r ddwy ysgol feddygol yng Ngogledd Iwerddon. Roedd y sesiwn wedi helpu staff academaidd i ddeall sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau FTP. Roedd nifer dda wedi mynychu'r digwyddiad a bu'r adborth yn gadarnhaol iawn.
- sesiwn a oedd wedi cynnwys dros 100 o feddygon teulu dan hyfforddiant. Roedd y sesiwn wedi canolbwyntio ar fynegi pryderon a gweithredu yn eu cylch, ac ynghylch defnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol. Croesawyd yr hyfforddiant, felly byddwn yn parhau i'w redeg yn 2022.

Yn **Yr Alban**, ymgysylltom gyda phartneriaid i hyrwyddo ein gwaith ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant..

- Buom yn peilota gweithdy hanner diwrnod ynghylch canfyddiadau *Teg cyfeirio?* a'n hymrwymiad i waredu gwahaniaethau mewn cyfeiriadau FTP ac mewn cyrhaeddiad. Cynhaliwyd y gweithdy gan Fwrdd Iechyd Grampian GIG. Fel rhan ohono, bu'r cyfranogwyr yn trafod astudiaethau achos lleol a sut y gallai gweithredu argymhellion helpu i roi sylw i faterion.
- Yn dilyn pryderon a fynegwyd yn GIG Gogledd yr Alban ynghylch y disgwyliadau o ran cyflawni gofynion cynllun Cydnabod a Chymeradwyo Hyfforddwyr yn ystod y pandemig, cynhaliom sesiwn i gynnig tawelwch meddwl i hyfforddwyr am ein disgwyliadau mewn perthynas â'r cynllun a sut y mae CMC wedi ceisio'u cynorthwyo nhw a hyfforddeion yn ystod y pandemig.

> "Diolch yn fawr am sesiwn wych. Roedd yr holl sylwadau yn dda iawn ac rydw i'n siŵr bod y sawl a fynychodd yn teimlo eu bod wedi elwa cryn dipyn. Heb os, roeddwn i wedi elwa ohoni!"
>
> \- Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol

Yng **Nghymru**, ymgysylltom gyda meddygon dan hyfforddiant ynghylch gwahanol bynciau.

- Cynhaliom sesiynau rhyngweithiol wedi'u teilwra gyda Meddygon Teulu dan hyfforddiant yn rhwydwaith Cynllun Hyfforddi Meddygon Teulu Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau a chaniatâd, ymgynghoriadau o bell, rhoi sylw i ymddygiad amhroffesiynol, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod clo. Yn ogystal, roeddent wedi ceisio egluro rhai agweddau ar ein gwaith FTP.
- Datblygom raglen ymsefydlu bwrpasol ar gyfer meddygon GMRh ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bu'r peilot yn llwyddiant ysgubol, a bu'r holl adborth iddo yn gadarnhaol. Rhoddom gyflwyniad i CMC a sylw i bynciau canllaw allweddol proffesiynoldeb, a chamdybiaethau cyffredin am ein gwaith. Bwriadwn gynnal gweithdai ymsefydlu dau ddiwrnod llawn ar gyfer meddygon GMRh bob blwyddyn.
- Dechreuom ar waith i gynorthwyo meddygon arbenigol a chyswllt staff sy'n dymuno gwneud cais am Dystysgrif Cymhwystra ar gyfer Cofrestriad Arbenigol, yn well. Mae'r gwaith wedi cychwyn i ymwreiddio fframwaith cefnogol ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais.

## Croeso i Ymarfer yn y DU





Yn 2020, dechreuom gynnal fersiynau ar-lein o'n gweithdai Croeso i Ymarfer yn y DU (WtUKP). Wrth i'r amhariad a achoswyd gan y pandemig barhau yn ystod 2021, ehangom y dull gweithredu hwn.

Mae'r gweithdai ar gyfer meddygon y mae gweithio yn y DU yn brofiad newydd iddynt. Fe'u cynlluniwyd i helpu meddygon i addasu i weithio yn systemau gofal iechyd DU ac fe'u darparir gan ein cynghorwyr cyswllt rhanbarthol, cynghorwyr cyswllt y swyddfa genedlaethol, a chan gysyllteion CMC. Maent yn cynnwys amrediad o sefyllfaoedd moesegol posibl y gallai meddygon ddod ar eu traws. Mae'r sesiynau yn cynnig cyngor ynghylch sut i fynd i'r afael â nhw ac yn esbonio sut i gael cymorth. Yn ogystal, maent yn cynnig dirnadaeth o agweddau ar y gwahanol systemau gofal iechyd ar draws pedair gwlad y DU ac yn cynnig cyfle i gyfranogwyr gyfarfod meddygon eraill sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol ac sy'n cychwyn ar eu gyrfa yn y DU.

Cafwyd adborth cadarnhaol cyson i'r gweithdai ar-lein ac mae gwerthusiadau blaenorol wedi cadarnhau eu bod yn effeithiol wrth gyflawni eu nodau. Ein nod dros y tymor hir yw sefydlu model ymgysylltu hybrid, sy'n cyfuno ymgysylltu digidol gydag ymgysylltu wyneb yn wyneb traddodiadol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid hefyd er mwyn sicrhau bod y gweithdai yn rhan annatod o raglenni ymsefydlu ar draws pedair gwlad y DU.

> “Rydw i'n hynod hapus gyda'r croeso cynnes hwn a drefnwyd gan CMC ar gyfer y meddygon newydd sydd wedi hyfforddi mewn gwlad dramor. Rydw i'n cymeradwyo'r fenter hon yn fawr, sy'n lleddfu'r gofid a'r amheuon ynghylch 'ffitio mewn' ym meddyliau'r GMRhion hyn.”
> - Meddyg a fynychodd weithdy WtUKP

**Presenoldeb mewn gweithdai Croeso i Ymarfer yn y DU (2014–2021)**




> “Roeddwn yn teimlo ychydig yn nerfus ynghylch ymuno â GIG; fodd bynnag, ar ôl y gweithdy hwn heddiw, rydw i'n teimlo'n gysurus am y ffaith y bydd wastad help ar gael pryd bynnag y byddaf ei angen.”
> - Meddyg a fynychodd weithdy WtUKP

# Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant: cyfeiriadau tecach

Ym mis Chwefror 2021, ymrwymom i dargedau er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol hirsefydlog yn y proffesiwn meddygol. Un o'r rhain yw gwaredu anghydraddoldeb mewn cyfeiriadau addasrwydd i ymarfer ar sail hil neu'r man lle y sicrhawyd prif gymhwyster meddygol erbyn 2026. Felly, rydym yn hyrwyddo amgylcheddau mwy cefnogol a chynhwysol er mwyn sicrhau triniaeth deg. Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yw'r peth iawn a theg i'w wneud. Yn ogystal, mae'n hanfodol er mwyn helpu i gadw meddygon sy'n gweithio yn y DU ac er mwyn cynorthwyo gofal o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Mae ein hymchwil yn dangos bod amgylcheddau mwy cynhwysol yn sicrhau canlyniadau a lefelau bodlonrwydd uwch ymhlith cleifion.

Ni allwn gyflawni'r targed hwn ar ein pen ein hunain, gan ei fod yn dibynnu ar newid diwylliannol ehangach. Felly, rydym yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill sy'n rhannu ein nodau. Yn arbennig, rydym yn gweithio gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod prosesau cyfeirio yn deg ac yn rhydd rhag tuedd. Byddwn yn gweithio gyda rheolyddion a phartneriaid ar draws systemau gofal iechyd y DU hefyd er mwyn sicrhau newid.

Er mwyn cyflawni ein targed ynghylch cyfeiriadau, byddwn yn ymgysylltu â gweithgareddau a fydd yn amrywio gydag amser. Mae hyn oherwydd bod angen i ni ystyried newidiadau ym myd gwaith. Mae hyblygrwydd o ran y ffordd y byddwn yn cyflawni ein targed yn golygu y gallwn addasu ein dull gweithredu gydag amser. Yn ystod 2021:

- cyfarfûm gyda swyddogion cyfrifol (ROs)* er mwyn ystyried sut y maent yn gweithredu argymhellion ein gwaith ymchwil *Teg Cyfeirio?* ac er mwyn deall unrhyw rwystrau y maent yn eu profi.
- diweddarom ein ffurflen gyfeirio ar gyfer cyflogwyr er mwyn helpu ROs i sicrhau bod cyfeiriadau yn deg ac yn briodol. Yn ogystal, cawsom sgyrsiau gydag ROs am y ffurflen a'r cwestiynau newydd am gyfeiriadau y mae'n gofyn iddynt eu hystyried. Byddwn yn adolygu'r ddirnadaeth o'r gwaith hwn er mwyn nodi arfer gorau ac yn gweithio i'w ymwreiddio yn ehangach.
- gweithiom i ddatblygu a gwella ein proses adborth ar gyfer ROs ynghylch yr achosion y maent yn eu cyfeirio atom. Fel rhan o hyn, cynhaliom weithdy gyda nhw i archwilio ffyrdd o ddatblygu, cofnodi, a rhannu adborth.
- cyfrannom ddata i *Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu Meddygol*, a arweiniwyd gan GIG Lloegr. Roedd ein cymorth yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: argymhellion ailddilysu, hyfforddiant ôl-raddedig, a phryderon addasrwydd i ymarfer. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r gwaith hwn yn y dyfodol. Byddwn yn hyrwyddo ei ganfyddiadau fel offeryn pwerus wrth fesur ac ysgogi tegwch ym maes meddygaeth.
- ehangom nifer y gweithdai Croeso i Arfer yn y DU a oedd ar gael yn sylweddol, gan gyrraedd mwy o feddygon. Mae'r gweithdai yn ffordd werthfawr o helpu meddygon y mae gweithio yn y DU yn brofiad newydd iddynt, i weithio yn systemau gofal iechyd y DU.

* Swyddog cyfrifol yw'r clinigydd uwch mewn sefydliad sy'n sicrhau bod meddygon yn parhau i weithio mewn ffordd ddiogel a'u bod yn cael eu cynorthwyo a'u rheoli wrth gynnal safonau proffesiynol.

Am ragor o wybodaeth am ein gwaith yn y maes hwn, ac i weld sut y mae'n datblygu, gweler ein hadroddiad *Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant: Targedau, cynnydd a blaenoriaethau ar gyfer 2022*.

# Datblygu gweithlu cynaliadwy

Mae gofal iechyd diogel, effeithiol ac ymatebol yn dibynnu ar dalent, ymrwymiad, ac amrywiaeth y bobl sy'n ei ddarparu. Mae prinder hirsefydlog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU yn peri risgiau i ofal cleifion. Mae'n fygythiad i les a chynnydd gweithwyr proffesiynol hefyd. Mae ein sefyllfa ni yn caniatáu i ni helpu i siapio addysg a hyfforddiant meddygol mewn ffyrdd sy'n gallu cynorthwyo datblygiad myfyrwyr meddygol a gweithwyr proffesiynol. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod mynediad i'r gofrestr feddygol a'r cynnydd trwy hyfforddiant yn deg ac yn hyblyg, gan fodloni anghenion cleifion a gweithwyr proffesiynol.

Yn 2019, cytunom gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU y byddwn yn dechrau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia hefyd. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn, ac wrth i'r ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu hyn gael ei datblygu i'w chymeradwyo gan wahanol gyrff deddfwriaethol y DU, llwyddom i wneud cynnydd sylweddol ar yr agenda hon yn ystod 2021.

## Sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant meddygol

Fel rhan o'n rôl, rydym yn rheoleiddio pob cam o addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddyg yn y DU. Rydym yn pennu safonau a chanlyniadau disgwyliedig ac rydym yn cyflawni gwaith sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal.

### Rhaglenni ac ysgolion newydd

Os bydd sefydliad yn bwriadu agor ysgol feddygol newydd, neu os bydd ysgol bresennol yn bwriadu sefydlu rhaglen newydd, rydym yn cynnal gweithgarwch sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau a'n canlyniadau.

Yn 2021:

- ymwelom â phum ysgol feddygol a grëwyd yn Lloegr o ganlyniad i raglen ehangu israddedig 2017, a oedd wedi croesawu eu myfyrwyr cyntaf (Anglia Ruskin, Aston, Edge Hill, Kent Medway a Sunderland).
- yng Ngogledd Iwerddon, croesawodd Prifysgol Ulster ei myfyrwyr cyntaf ym mis Awst 2021. Rydym yn sicrhau ansawdd rhaglen y brifysgol yn unol â'n proses ar gyfer ysgolion newydd, a byddwn yn parhau i wneud hynny dros y blynyddoedd i ddod.
- yn Yr Alban, rydym yn sicrhau ansawdd ScotGem, rhaglen mynediad graddedig a ddarparir gan Brifysgolion Dundee a St Andrews. Mae'r rhaglen yn bwriadu graddio ei myfyrwyr cyntaf yn 2022.
- ymwelom â Phrifysgol Brunel hefyd, un o dair ysgol newydd sy'n bwriadu croesawu myfyrwyr yn 2022. Bwriadwn ymweld â Phrifysgol Caerwrangon (Tair Sir) a Phrifysgol Caer, y disgwylir iddynt wneud yr un peth.

### Sicrhau ansawdd rhagweithiol

Mae ein prosesau sicrhau ansawdd israddedig ac ôl-raddedig yn hyrwyddo ac yn annog rheolaeth leol pryderon am ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant meddygol.

Yn 2021, cwblhaom y broses o gyflwyno ein proses sicrhau ansawdd rhagweithiol newydd. Mae'r broses yn cynnwys addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ac mae'n rhan o'n hymdrechion i sicrhau bod ein gweithgarwch rheoleiddio mor gymesur ag y bo modd. Fel rhan ohono, bydd angen i bob ysgol feddygol sefydledig ddatgan ei bod yn bodloni neu ei bod yn gweithio i fodloni ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae cwblhau'r broses gyflwyno yn golygu y bydd 35 o ysgolion meddygol y DU, ynghyd ag unrhyw ysgolion yn y dyfodol, yn cymryd rhan yn y broses.

Er gwaethaf yr amhariad a achoswyd gan y pandemig, llwyddom i barhau i fonitro ansawdd amgylcheddau hyfforddiant ôl-raddedig hefyd, gan nodi ac ymateb i sialensiau i ddiogelwch cleifion a meddygon dan hyfforddiant yn ôl yr angen. Fel rhan o hyn, mewn un achos, gweithiom gyda Health Education England er mwyn atal yr hyfforddiant mewn adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ac mewn arbenigeddau meddygol aciwt cysylltiedig am gyfnod yn Ysbyty Cyffredinol Weston. Ers hynny, mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ymddiriedolaeth Ysbytai Prifysgol Bryste a Weston wedi bod yn cymryd camau unioni er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa.

### Cynorthwyo myfyrwyr ac ysgolion meddygol

Yn ogystal, parhaom i gynorthwyo ysgolion meddygol i wneud penderfyniadau ynghylch graddio myfyrwyr yr oedd y pandemig wedi amharu ar eu hastudiaethau. Anogom ddatblygiad darpariaeth ymsefydlu estynedig ar gyfer graddedigion yr oeddent hefyd yn ymuno â gwasanaeth a oedd yn wynebu nifer o sialensiau o ran rhestrau gwaith sydd wedi cronni a'r pandemig sy'n parhau. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith y bydd yr amhariad ar astudiaethau yn effeithio ar fyfyrwyr yn nes ymlaen yn y dyfodol, a byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion meddygol i sicrhau mai dim ond y myfyrwyr hynny y maent yn ddiogel i ymarfer ac sy'n gallu cyflawni canlyniadau a safonau CMC fydd yn gallu graddio fel meddygon.

## Buddsoddi mewn addysg feddygol

### Hyblygrwydd mewn hyfforddiant

Mae meddygon wedi dweud wrthym ers tro nad oedd cyfleoedd hyfforddi yn ddigon hyblyg. Er enghraifft, pe bai meddyg yn dymuno newid maes arbenigol, byddai'n rhaid iddynt ddechrau hyfforddi o'r dechrau. Gallai hwn fod yn brofiad rhwystredig. Yn ogystal, nid oedd yn ddefnydd adeiladol o amser proffesiynol. Mewn rhai achosion, gwelwyd meddygon yn gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl yn hytrach nag ailadrodd blynyddoedd o hyfforddiant.

Yn 2021, ar ôl gwneud gwaith ymchwil gofalus, cyflwynom rai newidiadau er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn fwy hyblyg.

- Gellir cydnabod rhai o sgiliau presennol meddygon sy'n dymuno newid maes arbenigol a bod yn feddygon teulu, fel na fydd yn rhaid iddynt ailadrodd pethau yn ystod hyfforddiant.
- Hwylusom ddewisiadau hyfforddiant gwell i feddygon sy'n gweithio neu'n hyfforddi dan drefniant llai nag amser llawn.
- Cyflwynom hyblygrwydd pellach mewn gweithgarwch datblygu cwricwlwm, y cytunom arno gyda chydweithwyr a'r cyrff addysg statudol er mwyn helpu dilyniant meddygon yn ystod y pandemig. Mae y newidiadau hyn yn parhau am y cyfnod pan fydd y sefyllfa yn parhau i amharu ar hyfforddiant.

Bydd y newidiadau hyn ac eraill yn caniatáu i feddygon sicrhau cynnydd a meithrin eu sgiliau mewn ffordd fwy effeithlon. Bydd ein gwaith yn y maes hwn yn parhau yn y dyfodol wrth i ni gynorthwyo datblygiad gweithlu mwy cynaliadwy.

## Asesu cymhwyster

Yn 2021, cymeradwyodd ein Cyngor ein fframwaith asesu cymhwyster wedi'i ddiweddaru. Mae asesu cymhwyster yn broses lle y byddwn yn cydnabod arbenigedd meddyg mewn maes ymarfer penodol. Bydd cymwysterau a gaiff eu rheoleiddio gan CMC yn cynnig datrysiad hyfforddiant cymesur a hyblyg er mwyn rhoi sylw i anghenion cleifion sy'n newid a materion diogelwch. Byddant yn cael eu cymeradwyo pan welir angen amlwg am safonau cydnabyddedig mewn maes arfer arbenigol na chaiff ei ardystio fel arall trwy gyfrwng hyfforddiant ôl-raddedig. Yn ogystal, byddant yn darparu gweithgarwch rheoleiddio ychwanegol mewn meysydd lle y gall hyn helpu i leihau risgiau i ddiogelwch cleifion. Dechreuom gyflwyno cymwysterau a gaiff eu rheoleiddio gan CMC yn 2019, gan brofi pa mor dda yr oedd ein proses bresennol o gymeradwyo cwricwla ôl-raddedig yn gweithio gyda phum maes lle y mabwysiadwyd y rhain yn gynnar. Y rhain yw:

- meddygaeth wledig ac o bell
- seiciatreg cyswllt
- niwroradioleg ymyriadol (strôc aciwt)
- meddyginiaeth poen
- llawdriniaethau cosmetig.

Roedd y rhai a oedd wedi mabwysiadu'r trefniant hwn yn gynnar wedi parhau i symud trwy ein prosesau cymeradwyo yn ystod 2021 ac rydym bellach yn gweithio gyda nhw er mwyn paratoi ar gyfer gweithrediad llawn. Mae'r fframwaith wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu eu hadborth.

Yn ogystal, mae'n adlewyrchu gweithgarwch ymgysylltu a datblygu polisi pellach ers i ni ddechrau gweithio ar y broses asesu cymhwyster. Ein nod yw cymeradwyo'r cymwysterau cyntaf a gaiff eu rheoleiddio gan CMC yn 2022.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant: diwylliannau hyfforddiant ac addysg tecach

Ym mis Chwefror 2021, ymrwymom i dargedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol, gan gynnwys ym maes addysg a hyfforddiant meddygol.

Ceir tystiolaeth bod myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau wrth fanteisio ar adnoddau addysgol pwysig. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy agored i deimlo'n llai parod, gan arwain at ganlyniadau addysgol gwaeth. Mae'r myfyrwyr hyn, a meddygon dan hyfforddiant o leiafrifoedd ethnig a/neu y maent yn meddu ar brif gymwysterau a sicrhawyd y tu allan i'r DU, yn cael profiadau gwahanol o gynhwysiant na myfyrwyr a meddygon gwyn. Mae profiadau negyddol yn ystod hyfforddiant ac yn y gweithle yn effeithio ar les a pherfformiad, ac mae'n gallu effeithio ar ddiogelwch cleifion yn y pen draw. Mae'n iawn ac yn deg bod myfyrwyr yn cael sylfaen deg yn eu profiad hyfforddiant, waeth beth fo eu cefndir neu eu nodwedd. Felly rydym yn dymuno rhoi terfyn ar wahaniaethau mewn addysg a hyfforddiant meddygol ar sail ethnigrwydd a'r prif gymhwyster erbyn 2031.

Bydd sicrhau newid yn y maes cymhleth hwn yn gofyn am gydweithio sylweddol gyda sefydliadau a phartneriaid lluosog. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol o'r angen i weithredu ar y cyd ar draws

gofal iechyd os ydym yn mynd i sicrhau cynnydd, ac yn unol â hyn, rydym wedi addasu yr hyn yr ydym yn ei ofyn gan sefydliadau hyfforddiant.

Rhaid bod gan addysgwyr gynlluniau a threfniadau llywodraethu mwy cadarn yn eu lle er mwyn darparu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol, gan sicrhau eu hunain eu bod yn gwneud gwelliannau. Mae angen newid polisi a phrosesau ar draws y system gyfan, o faes mynediad i addysg feddygol i'r mynediad i gyfleoedd cymorth a dysgu, ac i gynllun asesiadau. Mae hon yn her a adlewyrchir yn ehangach ym myd addysg ac mewn cymdeithas, a bydd gofyn rhoi sylw agos parhaus iddi.

Er mwyn canlyn yr amcanion hyn yn 2021, darparom ganllawiau i gyfadrannau a cholegau brenhinol meddygol a gofynnom iddynt gyflwyno tystiolaeth o waith er mwyn sicrhau bod asesiadau yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr hyfforddeion a'r cleifion, a bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr er mwyn eu paratoi ar gyfer neu eu helpu i adfer ar ôl methu mewn arholiad lle'r oedd cryn dipyn yn y fantol. Yn ogystal, cynorthwyom ysgolion meddygol gyda'u gwaith i:

- adolygu cwricwla a deunyddiau asesu er mwyn cynrychioli amrywiaeth cleifion a meddygon yn well
- ymgysylltu gyda myfyrwyr am eu profiadau o hiliaeth
- datblygu offerynnau adrodd ar gyfer pryderon sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau ar y daith addysg
- sicrhau bod prosesau recriwtio a dethol yn deg a'u bod yn cynrychioli amrywiaeth.

Rhoddodd ysgolion meddygol ddata i ni am ganlyniadau arholiadau, a fydd yn cyfrannu at ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol (gweler tudalen 34). Yn ogystal, rhannom ddata wedi'i ddiweddaru gyda sefydliadau hyfforddiant ôl-raddedig a buom yn eu cynorthwyo i'w ddadansoddi. Bellach, mae gofyn i sefydliadau hyfforddiant gyflwyno cynlluniau gweithredu blynyddol sy'n dangos sut y maent yn rhoi sylw i'r bylchau mewn cyrhaeddiad yn eu rhanbarthau ac yn bodloni ein safonau.


Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu tystiolaeth am yr ymyriadau sy'n gwneud gwahaniaeth yn y byd go iawn i ganlyniadau hyfforddeion. Fel rhan o hyn, buom yn gweithio mewn partneriaeth gyda Health Education England a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion er mwyn peilota cwrs hyfforddiant paratoi ar gyfer arholiadau ac er mwyn gwerthuso ei effaith yn ffurfiol ar ganlyniadau arholiadau hyfforddeion o leiafrifoedd ethnig. Bydd y fenter hon yn parhau trwy gydol 2022, wrth i 170 o hyfforddeion gymryd rhan, a bydd yn darparu tystiolaeth hanfodol er mwyn gallu datblygu mentrau pellach arni.

Mae newidiadau systemig ym maes addysg a hyfforddiant meddygol yn gymhleth ac mae gofyn cael hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i ddysgu o'r gwaith hwn a gwaith ein partneriaid ar yr agenda hon. Yn ogystal, byddwn yn adolygu ein dull gweithredu ar sail y dysgu hwnnw yn barhaus.



# Rheoli mynediad i'r gofrestr feddygol

## Ein canolfan asesu clinigol newydd



Mae angen i oddeutu hanner yr holl feddygon o'r tu allan i'r DU sy'n dymuno gweithio yn systemau gofal iechyd y DU sefyll ein prawf Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB). Mae'r prawf yn cynnwys dwy ran, sef arholiad aml-ddewis (PLAB 1) ac asesiad clinigol (PLAB 2).

Cynhelir PLAB 2 mewn canolfan asesu clinigol (CAC), a leolir ym Manceinion. Mae'r arholiad yn caniatáu i ni brofi cymhwysedd clinigol meddygon trwy gyfrwng cyfres o sefyllfaoedd. Mae'r sefyllfaoedd ymarferol yn adlewyrchu sefyllfaoedd go iawn y gallai meddygon eu hwynebu yn ystod eu gwaith yn y DU.

Yn 2020, roedd y mesurau cadw pellter cymdeithasol a oedd yn ofynnol er mwyn goresgyn y pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar ein gallu i gynnal profion PLAB 2. Er mwyn goresgyn hyn, datblygom ganolfan asesu dros dro ychwanegol yn ein pencadlys ym Manceinion. Agorom y CAC dros dro newydd ym mis Mehefin 2021. Mae'r ganolfan newydd yn sicrhau bod ein capasiti asesu yr un fath ag yr oedd cyn COVID. Mae hyn yn golygu y bu modd i ni groesawu mwy o feddygon o bob cwr o'r byd i sefyll eu harholiad. Yn 2021, arholom 8,648 o ymgeiswyr ar draws ein dwy ganolfan asesu. Roedd 3,283 o'r rhain wedi mynychu'r ganolfan dros dro. At ei gilydd, llwyddodd 6,043 o ymgeiswyr ac maent wedi symud ymlaen i wneud cais i ymuno â'r gofrestr wedi hyn. Mae'r meddygon newydd hyn yn cyrraedd ar adeg pan fo angen cymaint o gymorth ag y bo modd ar y proffesiwn meddygol a'n systemau gofal iechyd.

## Rhoi cofrestriad brys dros dro fel rhan o'r ymateb i'r pandemig

Fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i'r pandemig, yn 2020, gofynnodd Llywodraeth y DU i ni roi cofrestriad brys dros dro (TER) i feddygon a oedd wedi gadael y gofrestr dros y blynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd TER i dros 35,000 o feddygon a oedd wedi rhoi'r gorau i ymarfer. Ar ddiwedd 2021, roedd tua 22,000 ohonynt yn meddu ar eu cofrestriad dros dro o hyd. Cyflawnodd nifer o'r meddygon hyn rôl gwerthfawr wrth ddarparu gofal i gleifion. Roedd eraill wedi cynnig cymorth hanfodol i'r rhaglen frechu. Yn 2021, roeddem wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r grŵp hwn er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu bod wedi ail-gofrestru a'r hyn yr oedd y cam hwn yn ei olygu. Y bwriad oedd y byddai eu cofrestriad yn para yn ystod yr argyfwng, ac mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i reolyddion orffen y trefniant ym mis Medi 2022.

Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae dros 1,100 o feddygon wedi penderfynu dychwelyd i gofrestriad llawn o TER. Mae hyn yn golygu y byddant yn parhau i fod ar gael i weithio yn y dyfodol. Ceir cryn werth mewn dwyn talentau a chyfraniad gweithwyr proffesiynol profiadol yn ôl, o ran diogelwch cleifion ac o ran y gymuned gofal iechyd ehangach.

## Asesiad Trwyddedu Meddygol

Rydym yn falch o fod yn cydweithio gydag ysgolion meddygol a phartneriaid eraill er mwyn cyflwyno asesiad newydd – yr Asesiad Trwyddedu Meddygol (ATM). Bwriedir lansio hwn yn 2024.

Bydd yr asesiad yn profi gwybodaeth graidd, sgiliau ac ymddygiad meddygon sy'n dymuno gweithio yn y DU. Bydd yn helpu i sicrhau bod y safonau y byddwn yn eu pennu yn bodloni anghenion cleifion a bod meddygon sydd newydd ymuno â'r gofrestr wedi cael eu paratoi'n dda er mwyn darparu gofal diogel. Bydd hyn yn cynnig mwy o hyder i gleifion, cyflogwyr a chyd feddygon mewn meddygon y mae gwneud gwaith meddygol yn brofiad newydd iddynt, waeth ble y byddant wedi hyfforddi. Bydd yn sicrhau gwell cysondeb a thegwch rhwng ymgeiswyr hefyd. Yn olaf, bydd yn caniatáu i ni fonitro a chymeradwyo'r safon ar gyfer mynediad i'r proffesiwn gydag amser yn well.

Bydd gofyn i bob myfyriwr meddygol sy'n graddio o brifysgolion y DU o flwyddyn academaidd 2024-25 basio'r asesiad newydd fel rhan o'u gradd. Yn ogystal, bydd meddygon o wledydd tramor y mae gofyn iddynt gymryd ein prawf PLAB i weithio yn y DU ar hyn o bryd, gymryd yr ATM hefyd yn lle hynny ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

Yn 2021, llwyddom i wneud cynnydd arwyddocaol tuag at gyflwyno'r asesiad newydd.

- Ym mis Mawrth, cyhoeddom *Sicrhau bod meddygon yn barod i ymarfer: fframwaith ar gyfer yr ATM*. Mae'r fframwaith yn rhoi sylw i gynnwys yr ATM a'r gofynion ar gyfer ei gydrannau.
- Ym mis Mehefin, cymeradwyodd ein Cyngor gynnig gan yr holl ysgolion meddygol a chan y Cyngor Ysgolion Meddygol (MSC) y byddai'r Prawf Gwybodaeth Gymhwysol (AKT) yn cael ei osod yn ganolog, a'i oruchwylio gan CMC, ac y byddai'n cael ei ddarparu gan bob ysgol i'w myfyrwyr yn lleol.
- Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio gydag ysgolion ac MSC i oruchwylio cynllun a datblygiad yr AKT cenedlaethol ar gyfer ysgolion meddygol.
- Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n helaeth gyda staff mewn ysgolion meddygol er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r ATM.
- Rydym wedi parhau gyda'n gwaith i sicrhau bod yr ATM yn asesiad teg, cadarn ac o ansawdd uchel, gan ymgysylltu'n eang er mwyn cyfrannu at ein gwaith, gan gynnwys gyda myfyrwyr a chyrff hyfforddiant ôl-raddedig.

> “digwyddiad o bwys yn hanes addysg feddygol yn y DU”
> - Athro Malcolm Reed, Cyd-Gadeirydd Arweiniol y Cyngor Ysgolion Meddygol, yn cyfeirio at y ffaith bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r cynnig a wnaethpwyd gan ysgolion meddygol ac MSC

## Llwybrau cofrestru ar ôl Brexit

Daeth cyfnod pontio Brexit i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Fel rhan o hyn, daeth cytundebau rhwng y DU ac UE ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol i ben. Roedd hyn yn golygu na fyddai gan raddedigion y maent yn wladolion AEE ac y maent yn dymuno ymarfer fel meddyg yn y DU, yr hawl i gael eu cymwysterau wedi'u cydnabod yn awtomatig yn y DU mwyach.

Er mwyn sicrhau y gallai meddygon o wledydd AEE barhau i ymuno â gweithlu meddygol y DU, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth newydd ar 1 Ionawr 2021. Roedd hyn yn golygu y byddai angen i ni baratoi a gweithredu llwybrau cofrestru newydd ar sail asesu'r cymwysterau sydd gan feddygon, yn hytrach nag ar sail llwybrau cofrestru sy'n dibynnu ar genedligrwydd.

Trwy gyfrwng rhaglen waith helaeth, diweddarom ein systemau, ein polisïau a'n prosesau er mwyn paratoi ar gyfer y rhain ar 1 Ionawr 2021. Lansiom ddeunydd cyfathrebu ymlaen llaw er mwyn rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd, a datblygom ganllawiau helaeth ynghylch sut y gall meddygon wneud cais dan y trefniadau newydd. Mae hyn wedi ein helpu i sicrhau parhad o ran mewnlif meddygon newydd o wledydd tramor ar adeg pan fo ein systemau gofal iechyd dan bwysau sylweddol.

## Rhannu dirnadaeth ynghylch tueddiadau yn y proffesiwn meddygol

Fel rhan o'n rôl, rydym yn casglu ac yn rhannu cryn dipyn o ddata er mwyn helpu i wella diogelwch cleifion a chynorthwyo gweithgarwch cynllunio. Yn ogystal, rydym yn cynnal neu'n comisiynu gwaith ymchwil a dadansoddi. Mae'r gwaith hwn yn helpu i wella hyfforddiant meddygol, gofal cleifion a datblygiad y gweithlu.

Yn 2021:

- rhyddhaom ganfyddiadau o'n gwaith ymchwil a gomisiynwyd ynghylch sut y gall darpariaeth ymsefydlu cyflogwr effeithio ar arfer meddygol a gofal cleifion. Roedd y gwaith ymchwil wedi datgelu gwahaniaeth enfawr rhwng ansawdd darpariaethau ymsefydlu.
- cyhoeddom waith ymchwil ynghylch effaith a gwerth adborth i feddygon dan hyfforddiant. Amlygodd yr adroddiad y cyswllt pwysig rhwng adborth a lles.
- yn ogystal, cyhoeddom ganfyddiadau gwaith ymchwil ynghylch sut y mae cyflawni rôl FiY1 yn effeithio ar arfer meddygon newydd. Yn wahanol i Flwyddyn Sylfaen 1 (FY1), crëwyd rolau Blwyddyn Sylfaen 1 interim (FiY1) er mwyn caniatáu i fyfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn olaf ddilyn llwybr carlam i'r rheng flaen er mwyn helpu i ymateb i bandemig COVID-19. Daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad bod FiY1 yn brofiad gwerthfawr i raddau helaeth, a oedd wedi hwyluso'r pontio i arfer.
- rhannom ganfyddiadau gwaith ymchwil a gomisiynwyd ynghylch sut y mae newidiadau gwasanaeth yn effeithio ar hyfforddiant meddygon. Roedd y canfyddiadau yn dangos sut y gall cynnwys hyfforddeion mewn penderfyniadau am newidiadau gwasanaeth arwain at ofal gwell i gleifion.

Os hoffech gael diweddariadau rheolaidd am ein gwaith ymchwil, cofrestrwch ar gyfer ein e-gylchlythyr Ymchwil.

## Cyflwr addysg ac ymarfer meddygol yn y DU

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddom rifyn 11 ein hadroddiad blynyddol ynghylch Cyflwr addysg ac ymarfer meddygol yn y DU. Mae'r adroddiad yn defnyddio data a dirnadaeth o'r gofrestr feddygol, arolygon, a ffynonellau eraill er mwyn cynnig darlun cynhwysfawr o brofiadau meddygon, yn ogystal â thueddiadau yn y gweithlu meddygol ac mewn addysg feddygol.

Roedd adroddiad 2021 yn ystyried yn arbennig sut y mae pandemig COVID-19 a'r adferiad wedi effeithio ar waith a hyfforddiant meddygon. Un o'i gasgliadau oedd mai nawr yw'r amser i gadw ac ymwreiddio newidiadau cadarnhaol i ffyrdd o weithio a fu'n rhan allweddol o'r ymateb cychwynnol i COVID-19, er gwaethaf y pwysau presennol ar systemau gofal iechyd y DU. Mae'r adroddiad yn rhybuddio y bydd lefelau blinder a dadrithio yn codi'n gyflymach fyth fel arall, gan bylu effeithiau mentrau i roi hwb i recriwtio.

Yn arbennig:

- dywedodd 23% o feddygon eu bod yn bwriadu gadael y proffesiwn, i fyny o 19% a ddywedodd hynny yn 2020. Yn ogystal, dywedodd 7% o'r holl feddygon eu bod wedi cymryd camau pendant i adael y proffesiwn, i fyny o 4% yn 2020.
- dywedodd dros un o bob tri meddyg (35%) eu bod yn ystyried lleihau nifer eu horiau dan gontract. Roedd rhai meddygon yn teimlo hefyd nad oedd lleihau eu horiau yn ddewis realistig yn yr hinsawdd bresennol, er eu bod wedi dymuno gwneud hynny efallai.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cyfleu darlun tywyll mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Er enghraifft, roedd yn amlinellu:

- bod meddygon anabl bron ddwywaith mor debygol â meddygon nad ydynt yn anabl i deimlo'n anfodlon, o fod mewn perygl uchel o orweithio, o gael anhawster gyda'u llwyth gwaith, ac o fod yn cymryd camau pendant i adael y proffesiwn.
- bod meddygon o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a meddygon Asiaidd/Asiaidd-Prydeinig yn arbennig, yn llai tebygol o gytuno eu bod yn cael eu cynorthwyo gan eu cydweithwyr neu eu bod yn rhan o dîm cefnogol.

Rhannom yr adroddiad ar ein gwefan ac yn y cyfryngau, a gwelwyd y tudalennau ar y we a oedd yn cynnwys yr adroddiad dros 7,000 gwaith yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl ei ryddhau. Rhyddhaodd nifer o'n partneriaid ddatganiadau a oedd yn cydnabod y canfyddiadau a phwysigrwydd yr adroddiad wrth gynnig dirnadaeth allweddol o dueddiadau ym maes addysg ac arfer meddygol.

## *Cwblhau'r darlun:* pam bod meddygon yn gadael y proffesiwn

Fel rhan o'n rhaglen ymchwil, gweithiom gyda Health Education England, yr Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon), NHS Education for Scotland, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddeall y rhesymau pam bod meddygon yn gadael y proffesiwn a'r hyn a allai eu hannog i ddychwelyd iddo efallai. Cwblhaodd dros 13,000 o feddygon arolwg ar-lein am y mater hwn. Roedd pob un ohonynt wedi ymarfer yn y DU yn ystod y 15 mlynedd ddiwethaf ond nid oeddent yn ymarfer ar yr adeg pan wnaethant ymateb i'r arolwg.

Mae prif ganfyddiadau'r arolwg, sydd ar gael yn ein hadroddiad *Cwblhau'r darlun*, yn cynnwys:

- roedd nifer o feddygon wedi rhoi'r gorau i ymarfer yn y DU am resymau personol, megis ymddeol. Fodd bynnag, roedd eraill wedi gadael oherwydd pwysau negyddol megis gorweithio.
- roedd cyfran uwch o feddygon anabl wedi rhoi'r gorau i ymarfer yn y DU na'r rhai nad oeddent yn ystyried eu hunain fel rhywun anabl.
- mae meddygon anabl yn fwy tebygol o adrodd bod bwlio yn ffactor pwysig yn eu penderfyniad i adael, ac roedd hi'n fwy cyffredin i feddygon LHDTC+ nodi bod problemau iechyd meddwl yn allweddol.
- roedd 35% o'r ymatebwyr yn dymuno dychwelyd i ymarfer yn y DU, ond dim ond 23% oedd yn credu ei bod yn debygol y byddent yn gwneud hynny. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif (59%) eu bod yn anfodlon ac yn annhebygol o ddychwelyd.
- gwelwyd lefelau gorweithio uwch ymhlith meddygon teulu ac adroddwyd eu bod yn llai tebygol o ddychwelyd na meddygon eraill.
- mae cyfran fawr iawn o feddygon sy'n symud i wlad dramor yn symud i grŵp bach o wledydd (ee Awstralia a Seland Newydd).
- gallai gwelliannau mewn meysydd megis ymsefydlu a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut i ddychwelyd wneud gwahaniaeth mawr wrth annog mwy o feddygon i ddychwelyd.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gweithleoedd tosturiol a chefnogol a arweinir yn dda yn hanfodol wrth annog meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i aros yn y proffesiwn.

> “Mae hwn wedi bod yn faromedr pwysig yn ein gwaith o ddiwygio addysg a bydd yn caniatáu i ni ddeall sut yr ydym yn helpu i gynorthwyo meddygon sy'n dymuno dychwelyd, yn ogystal â chynnig y cymorth i'r rhai sy'n ystyried gadael y proffesiwn i aros... ”
>
> - Athro Sheona MacLeod, Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, Diwygio Addysg, HEE

## Arolwg hyfforddiant cenedlaethol

Mae ein harolwg hyfforddiant cenedlaethol yn ein helpu i fonitro ac adrodd am ansawdd addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig. Hwn yw'r arolwg blynyddol mwyaf o hyfforddiant meddygon yn y DU. Yn arolwg 2021, gofynnom rai cwestiynau am effaith barhaus pandemig COVID-19 ar hyfforddiant. Roedd dros 63,000 o feddygon wedi cwblhau'r arolwg. Ymatebodd 76% o'r holl hyfforddeion yn y DU, a 32% o'r hyfforddwyr. Mae'r canrannau hyn yn uwch nag yr oeddent yn 2020, ond maent yn parhau i fod yn is na'n cyfraddau ymateb arferol. Credwn bod hyn o leiaf yn rhannol o ganlyniad i'r pwysau a'r amhariad a achoswyd gan y pandemig.

Mae'r arolwg yn ein helpu i wella ein gwaith sicrhau ansawdd mewn perthynas ag addysg. Yn ogystal, mae'n gwella'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu i hyfforddwyr, hyfforddeion ac amgylcheddau hyfforddi ar draws y DU.

Am ragor o wybodaeth ac i ddarllen canfyddiadau'r arolwg yn fanwl, trowch at dudalennau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol ar ein gwefan.

## Rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia

Yn 2019, cytunom gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) y DU y byddwn yn dechrau rheoleiddio cymdeithion meddygol (CMion) a chymdeithion anesthesia (CAion) hefyd.

Mae CMion a CAion yn ddau o'r proffesiynau cymdeithion meddygol (MAPs) sy'n gweithio ym maes gofal iechyd yn y DU. Rydym yn falch o gynorthwyo datblygiad y gweithwyr proffesiynol gwerthfawr hyn, gan gydnabod y rôl pwysig y maent yn ei gyflawni yn y gweithlu meddygol. Bydd rheoleiddio yn helpu i gynyddu'r cyfraniad y gall CMion a CAion ei wneud ym maes gofal iechyd yn y DU, gan gadw cleifion yn ddiogel ar yr un pryd.

Tra bod y ddeddfwriaeth a fydd yn ein galluogi i ddwyn y ddau broffesiwn hwn dan ein gweithgarwch rheoleiddio yn cael ei datblygu, rydym wedi sicrhau cynnydd arwyddocaol ar sawl agwedd ar weithgarwch cynllunio rheoliadol.

### Cofrestru

Cynlluniom y prosesau a fydd yn dwyn grwpiau canlynol CMion/CAion i'r gofrestr:

- ymarferwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU yn barod
- CMion/CAion a fydd yn cymhwyso o brifysgolion y DU yn y dyfodol.

Cyhoeddom wybodaeth am y prosesau hyn ar ein gwefan, fel y gall cofrestreion yn y dyfodol ddechrau ymgyfarwyddo â'n disgwyliadau ohonynt. Byddwn yn cysylltu â nhw yn agosach at ddechrau'r cyfnod rheoleiddio er mwyn eu hysbysu o'r hyn y bydd angen i ni ei gael ganddynt er mwyn cynorthwyo eu cofrestriad.

Rydym wedi dechrau gweithio ar y ffordd y bydd CMion a CAion yn ailddilysu hefyd, ac rydym yn datblygu meini prawf cofrestru ar gyfer ymarferwyr sy'n cymhwyso mewn gwledydd tramor.

### Addysg

Rydym wedi sefydlu proses sicrhau ansawdd (SA) ar gyfer cyrsiau CM a CA yn y DU. Mae'r 37 o ddarparwyr cyrsiau presennol wedi:

- ymgysylltu ag ymarfer SA sylfaenol o'u gwirfodd
- cwblhau hunanasesiad yn erbyn ein safonau a gyhoeddwyd
- cael adborth cychwynnol am gryfderau a meysydd i'w gwella.

Datblygom ganlyniadau addysg ar lefel uchel ar gyfer y proffesiynau hyn hefyd. Gweithiom gyda Choleg Brenhinol y Meddygon, Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion, ac eraill er mwyn creu cwricwla CM a CA sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n bodloni ein safonau.

### Safonau proffesiynol

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddom safonau interim ar gyfer y ddau broffesiwn cymdeithion. Mae *Arfer meddygol da ar gyfer CMion a CAion* yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn cadw cleifion yn ddiogel. Yn ogystal, lluniom astudiaethau achos i gyd-fynd â'r rhain er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer y safonau. Bydd y safonau hyn yn berthnasol o'r adeg pan fyddwn yn dechrau rheoleiddio CMion a CAion nes i ni gyhoeddi canllawiau moesegol newydd ar gyfer yr holl gofrestreion, fel rhan o'n hadolygiad cyffredinol o *Arfer meddygol da*.

## Addasrwydd i ymarfer

Disgwyliwn y bydd CMion a CAion yn destun prosesau addasrwydd i ymarfer diwygiedig yn y pen draw, a fydd yn deillio o ddiwygiadau rheoliadol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, rydym wedi bod yn cysylltu â Chyfadran Cymdeithion Meddygol a Choleg Brenhinol y Meddygon ynghylch delio gyda phryderon am ymddygiad CMion ar y gofrestr wirfoddol. Rydym wedi cyfarfod gyda swyddogion cyfatebol i ddeall eu dull gweithredu nhw a natur y pryderon a fynegwyd, a byddwn yn cynnig ein harbenigedd yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Cefnogi'r achos dros bresgripsiynu

Mae DHSC wedi cychwyn ar y gwaith o ymestyn cyfrifoldebau presgripsiynu priodol i CMion a CAion ar ôl i'n gweithgarwch rheoleiddio gychwyn. Rydym yn gefnogol o'r cam hwn oherwydd y bydd yn manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y gall y gweithwyr proffesiynol hyn ei wneud i ofal cleifion. Felly, cyfrannom at drafodaethau am y pwnc gyda phartneriaid perthnasol a chynigiom ein cymorth i'n rhai sy'n gweithio ar ddiffinio'r agweddau ymarferol ar y cam pwysig hwn.

I ddysgu mwy am ein gwaith ynghylch CMion a CAion, ymunwch â'n cymuned o ddiddordeb, sydd ar agor i aelodau'r cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal iechyd, neu trowch at ein hyb gwybodaeth ar-lein.

# Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig

Yn aml, bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd yn troi atom yn ystod cyfnod heriol. Rydym yn dymuno sicrhau bod ein holl gydweithwyr yn ymateb iddynt gydag empathi, tegwch a phroffesiynoldeb. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i wrando ar, dysgu gan a gweithredu ar sail eu hadborth am ein gwasanaethau, ac i ddysgu mwy am y sialensiau y mae'r proffesiwn yn eu hwynebu trwy gyfrwng gwaith ymchwil. Isod, nodir rhai enghreifftiau o'n gwaith er mwyn ceisio cyflawni'r amcanion hyn yn ystod 2021.

## Cynorthwyo cleifion ac eraill sy'n mynegi pryder i ni

Pan fydd claf yn mynegi pryder i ni, byddwn yn adolygu'r wybodaeth i weld a oes angen i ni ymchwilio. Os byddwn yn penderfynu ymchwilio i bryder, bydd ein tîm cyswllt cleifion yn cysylltu â'r claf i drafod yr hyn a fydd yn digwydd ac i ateb unrhyw gwestiynau. Ar ôl i ni orffen ein hymchwiliad, byddwn yn cynnig cyfarfod arall i esbonio'r canlyniad, ynghyd ag unrhyw gamau nesaf.


> “Rhoddwyd amser i mi leisio unrhyw bryderon a chwestiynau. Roeddwn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn fy neall. Rhoddwyd esboniad clir a llawn i mi o'r broses a fyddai'n digwydd.”
>
> - Claf a fynychodd gyfarfod cyswllt gyda chlaf

Cyn y pandemig, cynhaliwyd ein cyfarfodydd cyswllt gyda chleifion yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain a Manceinion yn gyffredinol.

Yn 2021, cynhaliwyd mwyafrif y cyfarfodydd dros y ffôn o ganlyniad i'r pandemig. Ar ddiwedd y flwyddyn, dechreuom gynnig cyfarfodydd ar-lein hefyd, a groesawyd yn fawr iawn.

Cynhaliom gyfarfodydd cyswllt gyda 285 o gleifion yn ystod 2021. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn: dywedodd 88% o'r rhai a fynychodd y cyfarfodydd eu bod yn teimlo'n fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r profiad o fynychu cyfarfodydd cleifion.

Yn ogystal, aethom ati i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan i gleifion sy'n ystyried a ddylent fynegi pryder i ni neu beidio. Yn aml, y peth gorau i'w wneud yw mynegi pryderon yn lleol yn gyntaf, ac rydym wedi darparu canllawiau wedi'u diweddaru ynghylch sut i wneud hyn. Yn ogystal, darparom ragor o wybodaeth am y mathau o bryderon y byddwn yn ymchwilio iddynt fel arfer a'r rhai na fyddwn yn ymchwilio iddynt. Rydym yn esbonio mai'r unig adeg y byddwn yn cynnal ymchwiliad yw pan fyddwn o'r farn bod meddyg yn peri risg difrifol i gleifion neu eu bod wedi methu cyflawni ein safonau dro ar ôl tro neu mewn ffordd arwyddocaol. Ers y lansiwyd y tudalennau newydd ar y we ym mis Mai 2021, fe'u gwelwyd dros 40,000 gwaith.




Dywedodd 88% o'r rhai a fynychodd gyfarfodydd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r profiad o gyfarfod gyda chleifion.

## Diwygio rheoliadol

Mae diwygio rheoliadol yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio ein gwaith ar hyn o bryd wedi dal i fyny gyda'r newidiadau a welwyd yn system gofal iechyd y DU ac mewn cymdeithas. Yn arbennig, mae'n ein hatal rhag addasu ein prosesau mor gyflym ag y byddem yn dymuno er mwyn cynorthwyo'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio i ddarparu gofal gwych mewn ffordd well.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig newidiadau i'r ffordd yr ydym ni a rheolyddion gofal iechyd eraill yn gweithio. Bydd y newidiadau yn effeithio ar bob maes o'n gwaith a'n prosesau. Rydym yn croesawu'r cyfleoedd y bydd y ddeddfwriaeth yn eu cynnig. Bydd diwygio rheoliadol yn ein helpu i ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae hyn yn golygu:

- ddelio gyda chwynion yn gyflymach ac mewn ffordd fwy hyblyg, gan leihau'r straen ar bawb dan sylw
- gweithredu prosesau cofrestru mwy syml a fydd yn helpu i ddatblygu gweithlu mwy cynaliadwy
- gweithredu pwerau ychwanegol mewn perthynas â monitro addysg a hyfforddiant, gan ganiatáu i ni gynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol yn well trwy eu hastudiaethau a'u gyrfa.

Bydd y diwygiadau hyn yn allweddol er mwyn ein galluogi i gyflawni nodau ein strategaeth gorfforaethol. Sefydlom raglen waith yn ffurfiol i gynorthwyo'r newidiadau ym mis Ionawr 2021. O fis Mawrth i fis Mehefin y llynedd, bu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymgynghori am newidiadau ar lefel uchel i reolyddion gofal iechyd. Bydd angen i'r Llywodraeth gynnal gweithgarwch ymgynghori pellach ar ôl cwblhau'r broses o ddrafftio'r ddeddfwriaeth gymhleth hon. Yn dilyn hynny, cyflwynir y ddeddfwriaeth newydd gerbron Llywodraeth y DU. Os a phryd y caiff ei chymeradwyo, byddwn yn ymgynghori er mwyn ceisio safbwyntiau am y ffordd o weithredu newidiadau. Yna, byddwn yn dechrau cyflwyno'r newidiadau hyn. Disgwyliwn i rai ohonynt ddigwydd yn gyflym, a bydd angen cyflwyno eraill fesul cam dros sawl blwyddyn.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'n gwaith ar ddiwygio rheoliadol. Rydym wedi diweddaru ac ymgysylltu gyda'n prif gynulleidfaoedd ynghylch yr agenda hon yn rheolaidd, a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i'r rhaglen newid hon ddatblygu.

## Rheoleiddio tecach

Rydym yn dymuno sicrhau bod tegwch wrth wraidd ein dull gweithredu. Yn ogystal, rydym yn dymuno gosod esiampl o'r ymddygiad yr ydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Felly, rydym wedi ymrwymo i adolygu ein prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn rhydd rhag tuedd a'u bod mor dryloyw ag y bo modd.

Yn 2021, dyfarnodd tribiwnlys cyflogaeth bod nifer o ffactorau wedi peri i ni wneud penderfyniad a oedd yn un a oedd yn gwahaniaethu yn erbyn meddyg mewn ffordd hiliol, gan gyfeirio at achos yn ôl yn 2018. Rydym wedi gwneud cais i apelio yn erbyn y dyfarniad hwn, ac adeg argraffu hwn, ni chynhaliwyd yr apêl eto.

Beth bynnag, rydym yn benderfynol o sicrhau bod pob cofrestrai yn cael eu trin yn deg, gennym ni a chan eraill.

Felly, yn dilyn gwaith ymchwil blaenorol am y pwnc, comisiynom archwiliad tegwch gan Brifysgol Caeredin a Fieldfisher. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer. Ni chanfu'r archwilwyr unrhyw dystiolaeth o duedd o ran y ffordd yr oedd ein penderfynwyr wedi dehongli ein canllawiau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod angen gwneud gwaith pellach. Mae'r targedau a osodom mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth hon.

Fel rhan o'n hymrwymiadau parhaus, rydym yn:

- diogelu ein dull gweithredu trwy gyfrwng diwygio rheoliadol at y dyfodol: wrth i ni ddiwygio'r ffordd yr ydym yn gweithio fel rheolydd, rydym yn dymuno sicrhau bod tegwch yn rhan ganolog o'r holl newidiadau yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno. Rydym yn gwneud hyn trwy ymgysylltu â'n holl dimau er mwyn deall sut i gyflawni ein nodau cydraddoldeb ac asesu sut y gallai prosesau rheoliadol newydd effeithio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn yn cyhoeddi ein dadansoddiadau cydraddoldeb er mwyn bod yn dryloyw gyda'n rhanddeiliaid.
- gwella ein prosesau: rydym yn adolygu'r pwyntiau penderfynu yn ein gweithdrefnau mewn ffordd systematig i weld a allwn gryfhau trefniadau rheoli tegwch. Er enghraifft, trwy gyfrwng mwy o hyfforddiant neu hyfforddiant gwahanol ar gyfer ein pobl, sicrhau bod data yn ddienw, gwneud penderfyniadau fel grŵp, a threfniadau sicrhau ansawdd eraill.
- buddsoddi mewn gweithgarwch sicrhau annibynnol: yn dilyn yr archwiliad tegwch y soniwyd amdano uchod, rydym wedi comisiynu adolygiad allanol o brofiad meddygon o'n prosesau ac o arfer gorau mewn archwilio am duedd. Bwriadwn ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad i ddatblygu a gweithredu archwiliadau tegwch rheolaidd fel rhan o'n prosesau.

## Rheoleiddio ar draws pedair gwlad

Mae gan systemau gofal iechyd Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon nodweddion ac anghenion penodol a rhai gwahanol i'r system gofal iechyd yn Lloegr. Er mwyn deall yr anghenion hyn a rhoi sylw iddynt, a chynnig gwasanaeth gwell i gleifion a meddygon yn y cyd-destunau hyn, rydym yn ymgysylltu â'n partneriaid a'n prif grwpiau diddordeb yng nghenhedloedd datganoledig y DU yn rheolaidd, trwy gyfrwng ein Fforymau Cynghori y DU.

Mae aelodau'r fforymau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adrannau Iechyd perthnasol, arweinwyr meddygol, cyrff addysg meddygol, rheolyddion proffesiynol a system, a sefydliadau sy'n cynrychioli cleifion.

Yn ystod cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn ym mhob gwlad, bydd aelodau yn cael y cyfle i godi materion gyda'n Cadeirydd a'n Prif Weithredwr yn uniongyrchol. Mae'r cyfarfodydd yn caniatáu i ni drafod ein blaenoriaethau a cheisio safbwyntiau ynghylch datblygiad polisi ar y cyd ag aelodau ym mhob gwlad.

Yn ystod 2021, bu'r trafodaethau yn canolbwyntio ar ein targedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac ar y pwysau ar y proffesiwn meddygol. Bu aelodau yn rhannu eu dirnadaeth o faterion a mentrau i gynorthwyo meddygon o leiafrifoedd ethnig ym mhob gwlad. Yn ogystal, buont yn rhannu eu myfyrdodau am effaith y pandemig ar y proffesiwn meddygol, gan amlygu

agweddau ymosodol ymhlith y cyhoedd tuag at staff gofal iechyd a lefelau gorflino uchel, a'r hyn y gallwn ei wneud ar y cyd i gynorthwyo diogelwch seicolegol meddygon.

## Gwella'r profiad i ddefnyddwyr ar ein pyrth ar-lein


Ym mis Awst 2021, cyflwynom welliannau sylweddol i'n pyrth ar-lein diogel – GMC Online a GMC Connect.

GMC Online yw ein porth ar gyfer meddygon. Gallant ei ddefnyddio i reoli cofrestriad, cyflawni gweithgarwch ailddilysu, talu ffioedd, gwneud cais i sefyll prawf y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol, cwblhau ein harolygon hyfforddiant cenedlaethol, a mwy.

GMC Connect yw'r system a ddefnyddir i drosglwyddo data mewn ffordd ddiogel, i mewn ac allan o'r sefydliad. Mae'r grwpiau y byddwn yn rhannu gyda nhw yn cynnwys swyddogion cyfrifol, sefydliadau addysg, sefydliadau cyfreithiol, a mwy. Mae'r gwelliannau a wnaethom i'r systemau yn cynnwys:

- profiad gwell wrth droi at GMC Online ar ffôn neu lechen
- proses fewngofnodi symlach
- trefniant haws i adfer cyfrinair
- y gallu i gysylltu cyfrifon ar gyfer GMC Online a Connect, sy'n golygu mai dim ond un set o fanylion mewngofnodi y bydd ei hangen ar ddefnyddwyr ar gyfer y ddau blatfform
- cynllun wedi'i ddiweddaru sy'n cyd-fynd yn well gyda gweddill ein gwefan.

Mae'r newidiadau yn gwella'r profiad defnyddio i feddygon ac i eraill sydd â chyfrifon ac maent yn rhan o waith parhaus yr ydym yn ei wneud i ddal i fyny gyda datblygiadau allanol a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau.



# Buddsoddi yn ein pobl

Mae mwyafrif ein cydweithwyr yn dweud wrthym eu bod o'r farn bod CMC yn lle gwych i weithio. Ond rydym yn gwybod nad yw pawb yn cael yr un profiad. Yn 2021, dangosodd ein harolwg pobl blynyddol bod canran y cydweithwyr sy'n profi neu sy'n dyst i fwlio, aflonyddu, neu wahaniaethu wedi codi. Mae gennym bolisi dim goddefgarwch tuag at ymddygiad fel hwn, ac rydym yn cydnabod bod gennym fwy i'w wneud er mwyn sicrhau bod yr holl gydweithwyr yn cael eu trin gyda pharch a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwaith.

## Rhaglenni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn dymuno creu sefydliad mwy amrywiol a chynhwysol a gweithlu mwy eang, cynhwysol ac amrywiol, lle y gall pawb wireddu eu potensial trwy gyfrwng cymorth personol penodedig. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, law yn llaw â'n targedau eraill ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I), rydym wedi gosod targedau i'n hunain mewn perthynas â gwella cynrychiolaeth a dilyniant gyrfa staff ar gyfer grwpiau ethnig sy'n cael eu tangynrychioli yn ein gweithlu. Erbyn 2026, rydym yn dymuno lleihau gwahaniaethau sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd mewn perthynas â:

- recriwtio a dethol
- cynrychiolaeth ar draws lefelau staffio
- cadw a dilyniant
- tybiaethau ynghylch cynwysoldeb ac ymgysylltu gyda chyflogeion
- bylchau rhwng cyflogau.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn yn 2021:

- buom yn briffio staff sy'n gyfrifol am recriwtio a dethol am y targedau a osodom a sut i'w cyflawni
- ymwreiddiom gynwysoldeb yn yr ymddygiad craidd a ddisgwylir gan yr holl staff, a'i integreiddio yn amcanion pawb
- ehangom ein rhaglenni datblygu arweinyddiaeth er mwyn cynnwys cydweithwyr ar bob lefel, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt adroddiadau uniongyrchol (eto)
- lansiom raglen datblygu talent ar gyfer cydweithwyr o grwpiau ethnig sy'n cael eu tangynrychioli yn ein rolau arwain
- lansiom raglen hyfforddiant pwrpasol sy'n canolbwyntio ar feithrin cynhwysiant a disgwylir i oddeutu 430 o gydweithwyr mewn swyddi arwain ymgymryd â'r hyfforddiant yn 2022
- datblygom hyfforddiant newydd am ymddygiad proffesiynol (gweler tudalen 49), i'w gwblhau gan yr holl staff erbyn diwedd 2022
- lansiom raglen cynghreiriaeth wrth-hiliol newydd. Fel rhan o'r cam cyntaf, mae 50 o gydweithwyr ar draws y sefydliad wedi cael yr hyfforddiant, gan gynnwys ein tîm rheoli uwch.

Byddwn yn adolygu ac yn adrodd am ein cynnydd yn erbyn ein nodau yn y maes hwn yn rheolaidd, ar sail data adnoddau dynol, grwpiau ffocws, a chanlyniadau ein harolwg pobl blynyddol.

## Buddsoddwyr mewn pobl

Rydym yn defnyddio fframwaith Rydym yn Buddsoddi mewn Pobl Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) i asesu ein prosesau a'n polisïau sy'n ymwneud â'n pobl. Mae gennym weithlu talentog ac ymrwymedig ac mae safon BmP yn caniatáu i ni ystyried y ffordd orau y gallwn ymgysylltu gyda ac ysbrydoli ein pobl i gyflawni ein strategaeth ac i ddarparu ein cynllun busnes.

Er 2018, cawsom ein hachredu yn erbyn y safon hon ar lefel Arian ac rydym yn gweithio i sicrhau achrediad Aur. Yn 2021, yn dilyn arolwg a chyfweliadau wedi'u targedu gyda staff, canfu BmP ein bod wedi sicrhau cynnydd arwyddocaol tuag at sicrhau safon Aur ar draws pob maes o'r safon. O blith y 27 thema a aseswyd, roedd 12 yn bodloni'r safon Aur ac roedd 15 yn cyflawni'r safon Arian. Roedd BmP yn cydnabod hefyd ein bod wedi sicrhau gwelliant mewn perthynas â'r holl ddangosyddion yn y fframwaith er 2018.

Ein ffocws dros y blynyddoedd nesaf fydd parhau i ymwreiddio ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoli pobl ar draws y sefydliad.

> “Bu gwelliannau yn yr ymatebion i'r holl ddangosyddion o'u cymharu â'r canlyniadau yn 2018, wrth i nifer o themâu ym mhob dangosydd godi i'r lefel Uwch (Aur)...mae'n amlwg, o bersbectif strategol, bod y sefydliad yn gweithredu ar lefel Uwch (Aur).
> - Adroddiad 2021 BmP”

## Ymddygiadau Proffesiynol: Hyrwyddo parch a chynhwysiant

Mae mwyafrif ein cydweithwyr yn dweud wrthym eu bod o'r farn bod CMC yn lle gwych i weithio. Ond rydym yn gwybod nad yw pawb yn cael yr un profiad.

Yn ystod 2021, datblygom hyfforddiant gorfodol, Ymddygiad Proffesiynol: hyrwyddo parch a chynhwysiant. Mae'r hyfforddiant yn cynnig sail i'n strategaeth a'n hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n cyfuno dysgu ar-lein gyda thrafodaethau tîm a digwyddiadau dilynol ac mae'n annog staff i ystyried eu hymddygiad, yr effaith y maent yn ei chael ar eraill, a'n cyfrifoldeb unigol dros greu amgylchedd proffesiynol a chynhwysol. Yn ogystal, mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gall cydweithwyr ei wneud os byddant yn teimlo nad yw rhywun yn ymddwyn mewn ffordd briodol a sut i fynegi pryder. Roedd y rhai a gwblhaodd cam cyntaf yr hyfforddiant wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn:

- Roedd 88% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi myfyrio mewn ffordd feirniadol am eu hymddygiad yn y gorffennol a'u hymddygiad presennol
- Roedd 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fwy tebygol o newid eu hymddygiad nawr pan y gallai fod yn cael effaith negyddol ar rywun arall
- Roedd 72% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i herio neu adrodd am ymddygiad amhroffesiynol yn y dyfodol.

Disgwyliwn i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd 2022.

## Rhyddid i godi llais

Cychwynnodd menter *Rhyddid i godi llai*s (FTSU) yn 2016 wrth benodi Gwarcheidwaid Rhyddid i Godi Llais ar draws GIG. Mae'r cynllun yn annog ac yn cynorthwyo gweithwyr i godi eu llais am ddigwyddiadau neu ymddygiad sy'n cael effaith negyddol ar gleifion neu ar staff.

Yn CMC, bu gennym Warcheidwad FTSU er mis Mawrth 2019. Cydnabuom werth gwella ein trefniadau presennol er mwyn i gydweithwyr godi unrhyw fater yr oeddent yn teimlo ei fod yn cael effaith negyddol ar ein gwaith a'n diwylliant yn fewnol.

Bu'r fenter yn ychwanegiad gwerthfawr i'n trefniadau presennol. Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Rhagfyr 2021, codwyd 279 o faterion trwy gyfrwng y sianel hon. Roedd y rhain yn cynnwys amrediad o faterion, ac roedd y prif themâu yn cynnwys:

- bymddygiad (sut yr ydym yn trin ein gilydd)
- gweithrediad cyson polisïau CMC
- tegwch tybiedig ymarferion recriwtio.

Mae tystiolaeth o'r rhaglen yn dangos bod nifer gynyddol o gydweithwyr wedi teimlo eu bod wedi gallu cymryd camau dilynol eu hunain ar ôl cael sgwrs gyda'r Gwarcheidwad neu un o'n hyrwyddwyr FTSU cefnogol. Mae'n cymryd dewrder i gydweithwyr godi eu llais ac rydym yn eu hannog i wneud hynny mewn ffordd weithredol. Rydym yn cydnabod y dysgu gwerthfawr o'u profiadau, y gallwn ei ddefnyddio er mwyn gwella ein polisïau, ein hyfforddiant rheoli a'n cyfathrebu yn barhaus.



# Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol



# Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Rydym yn ymdrechu i fod yn sefydliad cymdeithasol gyfrifol. Rydym yn dymuno ymwreiddio cynaladwyedd, effaith gymdeithasol a moeseg ym mhopeth a wnawn. O fentrau unigol i weithgareddau bob dydd, byddwn yn ceisio cyflawni ein gwaith mewn ffordd sy'n cynnig budd i'r amgylchedd ac i gymdeithas.

Yn 2021, llwyddom i sicrhau cynnydd gyda'r agenda hon mewn sawl ffordd.

## Cynorthwyo symudedd cymdeithasol ac ehangu cyfranogiad mewn addysg feddygol

- Cynlluniom a gweithredom gynllun prentisiaeth gyfreithiol gyda chymorth y Sefydliad Symudedd Cymdeithasol. Lansiom y cynllun ym mis Awst 2021, a chawsom ymateb cadarnhaol iddo. Roedd y cynllun yn caniatáu i ni recriwtio pedwar myfyriwr talentog sy'n astudio'r gyfraith o ardal Manceinion Fwyaf a fydd yn astudio am eu gradd wrth iddynt weithio yn ein tîm cyfreithiol.
- Yn ogystal, buom yn rhan o nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan y Sefydliad Symudedd Cymdeithasol. Anelwyd y digwyddiadau at bobl ifanc sy'n dymuno mynychu ysgol feddygol. Cyflwynodd tri o'n cymrodyr clinigol mewn digwyddiadau ysgol haf ar gyfer y myfyrwyr hyn, gan rannu eu profiadau nhw o ymgeisio am le mewn ysgol feddygol a'u profiadau o'r hyfforddiant.
- Ymunom â Fforwm Ehangu Cyfranogiad Cenedlaethol Ysgolion Meddygol a gweithiom gyda'r Cyngor Ysgolion Meddygol ar gynlluniau i ddatblygu adnoddau er mwyn helpu i ehangu cyfranogiad mewn addysg feddygol.

## Diogelu'r amgylchedd

- Lansiom brosiect carbon sero net CMC. Cynlluniwyd y prosiect i'n galluogi i fesur ein heffaith amgylcheddol ac i ddatblygu dewisiadau er mwyn datblygu i fod yn sefydliad carbon-sero-net.
- Tyfom ein rhwydwaith mewnol o hyrwyddwyr amgylcheddol CMC.
- Mynychom gynhadledd y Gymdeithas Awdurdodau Rheoliadol Meddygol. Fel rhan o hyn, rhoddom gyflwyniad ar y cyd gyda Greener NHS.
- Cyhoeddom flog er mwyn cefnogi COP26.

## Meincnodi a gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo CSR

- Cryfhaom ein perthynas gyda Busnes yn y Gymuned (BITC). Fel rhan o hyn, dechreuom ddefnyddio eu cyfleuster Tracio Busnes Cyfrifol i feincnodi ein gwaith CSR. Mae'r cyfleuster tracio yn caniatáu i ni fesur ein cynnydd o'i gymharu gyda sefydliadau eraill.
- Cynrychiolom CMC ar Fwrdd Arwain y Gogledd Orllewin BITC. Mae'r Bwrdd yn cynnig cymorth ac arweiniad ar gyfer gwaith busnes cyfrifol ar draws y rhanbarth.

## Creu cyfleoedd a datblygu ein rhaglen CSR ymhellach

- Cychwynnom raglen beilot o interneiaethau a oedd yn canolbwyntio ar CSR yn benodol. Ymunodd ein hintern CSR cyntaf â ni ym mis Mai 2021 am 12 wythnos. Roedd yr intern wedi ein helpu gyda gwaith ymchwil ynghylch cynlluniau ehangu cyfranogiad yn ysgolion meddygol y DU.
- Lansiom ein cynlluniau peilot gwirfoddoli corfforaethol cyntaf. Fel rhan o hyn, bu rhai o'n staff yn cymryd rhan mewn cynllun darllen rhith gydag academi yng ngogledd Llundain. Maent wedi bod yn darllen gyda disgyblion Blwyddyn 9 a 10 o'r academi, y mae'r Saesneg yn ail neu'n drydydd iaith iddynt, am 30 munud ddwywaith yr wythnos. Yn ogystal, buom yn gweithio gydag ymddiriedolaeth academi ym Manceinion ar eu cynlluniau ar gyfer ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig yn yr ardal.

> “Bydd y cynllun darllen yn cynnig manteision enfawr, gan bod llythrennedd mor bwysig. I mi, bydd gallu cyfrannu iddo yn uchafbwynt cadarnhaol o'm gwaith yn CMC. Mae'n adlewyrchiad da ar y sefydliad hefyd, gan ddangos ei fod yn dymuno cyfrannu at gymunedau lleol ac at gymdeithas yn y fath ffordd.”
>
> \- cydweithiwr CMC a fu'n cymryd rhan yn ein cynllun gwirfoddoli corfforaethol

Bydd y camau yr ydym wedi'u cymryd hyd yn hyn mewn perthynas â'n hagenda CSR yn ein helpu i nodi lle y gallwn wneud mwy fyth yn y dyfodol.



# Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli

## Y Cyngor a grwpiau llywodraethu eraill

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu. Ei rôl yw cynnig cyfeiriad strategol, sicrhau bod y swyddogion gweithredol yn atebol, a gwneud penderfyniadau polisi mawr ar lefel uchel. Mae'n cynnwys 12 aelod o bedair gwlad y DU, y mae 6 ohonynt yn aelodau meddygol a 6 ohonynt yn aelodau lleyg.

Rydym yn elusen gofrestredig ac mae aelodau ein Cyngor yn ymddiriedolwyr y sefydliad hefyd.

Fe'u penodir i gyd yn annibynnol gan y Cyfrin Gyngor, trwy gyfrwng proses sy'n dilyn canllawiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ynghylch gwneud penodiadau i gyrff rheoliadol gweithwyr proffesiynol gofal iechyd.

Yr ymddiriedolwyr rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 oedd:

- Mr Steve Burnett
- Dr Vanessa Davies
- Ms Lara Fielden (tan fis Awst 2021)
- Athro Anthony Harnden
- Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Hunt o Kings Heath PC
- Athro Paul Knight
- Athro Bonesig Carrie MacEwen
- Athro Deepa Mann-Kler
- Bonesig Clare Marx (tan fis Gorffennaf 2021)
- Athro Suzanne Shale
- Dr Raj Patel
- Miss Alison Wright.

Penodwyd Bonesig Clare Marx yn Gadeirydd newydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor ym mis Ionawr 2019, ond trist nodi y bu'n rhaid iddi ymddiswyddo ddiwedd fis Gorffennaf 2021 oherwydd afiechyd. Ymgymerodd Bonesig Carrie MacEwen â rôl y Cadeirydd dros dro yn dilyn ymddiswyddiad Bonesig Clare Marx, gan gadeirio'r Cyngor o'r adeg honno.

Ym mis Awst 2021, cawsom sioc o glywed y newyddion trist iawn am farwolaeth cyn pryd Lara Fielden, aelod neilltuol o'r Cyngor a oedd wedi ymuno â ni ym mis Ionawr 2021. Byddwn yn gweld eisiau ei chyfraniad yn fawr.

Felly, roedd dwy sedd wag ar y Cyngor. Cychwynnwyd ar y broses o recriwtio Cadeirydd parhaol ym mis Tachwedd 2021, a daeth y broses honno i ben ym mis Mai 2022, pan benodwyd Bonesig Carrie MacEwen yn Gadeirydd.

Gofynnir i aelodau'r Cyngor ddatgelu unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau hefyd. Rhestrir y rhain mewn cofrestr buddiannau a gyhoeddir ar ein gwefan.

Yn ogystal, roedd holl aelodau'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn adolygiadau arfarnu yn 2021, a oedd yn cynnwys ystyried unrhyw anghenion dysgu a datblygu ac ailystyried gwrthdaro go iawn rhwng buddiannau neu wrthdaro tybiedig rhwng buddiannau er mwyn sicrhau bod modd rheoli unrhyw achosion o wrthdaro a nodir.

Fel elusen, rydym yn ystyried y saith egwyddor a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen (2020), a gallwn ddangos sut yr ydym yn defnyddio'r egwyddorion hyn er mwyn tywys ein gwaith ar sail 'defnyddio neu esbonio'.


Ceir dau eithriad i'r Cod, y byddwn yn eu hesbonio yn hytrach na'u gweithredu. Yn gyntaf, mae'n Cyngor a'n pwyllgorau yn gweithredu heb is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd a benodir yn ffurfiol. Fodd bynnag, gwneir darpariaethau yn y *Llawlyfr Llywodraethu* i gadeiryddion enwebu dirprwy i gynorthwyo yn ystod absenoldebau, a weithredwyd eleni. Yn ail, gan bod ein proses benodi yn sefydledig ac yn drylwyr, ac yn cael ei goruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, ni farnir bod pwyllgor enwebiadau yn angenrheidiol.

Y *Llawlyfr Llywodraethu* yw dogfen lywodraethu y sefydliad. Fe'i adolygwyd yn 2019 er mwyn cynnwys y Cod Llywodraethu Elusen a chaiff mân ddiwygiadau eu gwneud yn barhaus ar ôl sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor, er enghraifft i aelodaeth pwyllgorau.

Mae gofyn i'r tîm llywodraethu corfforaethol gynorthwyo'r Cyngor i gynnal safonau uchel o ran gweithgarwch llywodraethu, ar sail 'defnyddio neu esbonio', yn unol â'r arfer da a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant a chyngor i'r sefydliad hefyd ynghylch materion llywodraethu. Mae pob pwyllgor yn atebol i'r Cyngor trwy gyfrwng adroddiad ffurfiol, ac mae'r Cyngor a phob pwyllgor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddatganiad o ddiben, a adolygir bob blwyddyn.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y gwahanol grwpiau llywodraethu sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y rhain i gyd, er mwyn ei helpu i oruchwylio ein gwaith ni mewn ffordd effeithiol. Disgrifir rolau a gweithgareddau'r grwpiau hyn ar y tudalennau sy'n dilyn.

Cynhelir busnes y Cyngor mewn ffordd agored a thryloyw, a chyhoeddir yr agenda a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod ar ein gwefan.


Llywodraethu y Cyngor
Cyngor
Pwyllgor Risg ac Archwilio
Pwyllgor Tâl
Pwyllgor Buddsoddi
Pwyllgor MPTS
Grŵp Cyswllt CMC /MPTS
Llywodraethu Gweithredol
Bwrdd Gweithredol
Cynlluniau gwaith cyfarwyddiaeth
Ymgysylltu Ffurfiol
Fforymau Cynghori
Yr Alban
Cymru
Gogledd Iwerddon
Addysg
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
Grwpiau Gyswllt
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

## Pwyllgor Risg ac Archwilio

Cadeiriwyd y Pwyllgor Risg ac Archwilio gan Paul Knight yn ystod 2021. Ei aelodau cyfetholedig allanol oedd Elizabeth Butler (tan fis Gorffennaf 2021), Jon Hayes (o fis Gorffennaf 2021) a Kenneth Gill.

Mae'r Pwyllgor yn cyflawni rôl allweddol yn ein trefniadau llywodraethu, gan gynnig sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu a systemau rheoli risg
- darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2021 ac mae'n adrodd i'r Cyngor ddwy waith y flwyddyn. Gallwch gael gwybod mwy am ei rôl a'i waith yn adran Adroddiad y Pwyllgor Risg (gweler tudalen 71) yn yr adroddiad hwn.

## Pwyllgor Tâl

Cadeiriwyd y Pwyllgor Tâl gan Anthony Harnden yn ystod 2021. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ynghylch tâl, amodau gwasanaeth a'r polisi treuliau ar gyfer aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd. Mae'n goruchwylio'r broses o recriwtio'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor cyn iddynt gael eu penodi gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n pennu'r broses benodi ar gyfer y Prif Weithredwr a Chadeirydd Gwasanaeth y Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS), ynghyd â thâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y cyfarwyddwyr, Cadeirydd MPTS ac aelodau Pwyllgor MPTS. Yn ogystal, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o asesu a mesur perfformiad, ac asesu gweithgarwch recriwtio a chynllunio ar gyfer olyniaeth, yn digwydd o fewn fframwaith priodol ar gyfer y rolau rheoli uwch o fewn ei gylch gwaith. Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn 2021 ac mae'n adrodd i'r Cyngor bob blwyddyn.

## Pwyllgor Buddsoddi

Cadeiriwyd y Pwyllgor Buddsoddi gan Steve Burnett yn ystod 2021. Ei aelodau cyfetholedig allanol yn ystod 2021 oedd Tim Scholefield (tan fis Mai 2021), David Stewart (tan fis Mehefin 2021), Keith MacKay, a Mike Jennings (o fis Tachwedd).

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am weithredu ac adolygu ein polisi buddsoddi, sicrhau bod y broses o reoli asedau yn cyd-fynd â'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, a monitro perfformiad.

Yn ogystal, mae'n gyfrifol am oruchwylio buddsoddiad CMC yng Ngwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI), gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Buddsoddi CMC, a chraffu cynllun busnes GMCSI, ac asesu lefelau posibl risg ac elw buddsoddiad. Mae'r Pwyllgor yn adrodd am berfformiad buddsoddi i'r Cyngor trwy gyfrwng cylchlythyrau yn dilyn cyfarfodydd, ac mae'n adrodd am berfformiad y portffolio i'r Cyngor bob blwyddyn. Cyfarfu bump gwaith yn 2021.

## Gwasanaethau Rhyngwladol CMC

Sefydlwyd Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI) gan y Cyngor yn 2016 fel is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr CMC. Prif amcan GMCSI yw cyflwyno ffrydiau refeniw newydd ac felly, lleihau ein dibyniaeth ar ffioedd meddygon.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn grym er mwyn sicrhau y caiff ein buddiannau eu diogelu ac y rheolir ein perthynas gyda GMCSI mewn ffordd effeithiol.

Er bod y Cyngor yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros GMCSI, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ystyried y risgiau i CMC gan weithrediad GMCSI, gan gynnal gweithgarwch mewnol cyson ac archwiliadau ar hap pan fo hynny'n briodol.

Cadeiriwyd Bwrdd GMCSI gan Andrew McCulloch yn ystod 2021. Roedd y Bwrdd yn cynnwys (yn ogystal â'r Cadeirydd) Paul Reynolds, Anthony Harnden, Alison Wright, a Colin Melville.

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Pensiwn

Rheolir a gweinyddir cynllun pensiwn staff CMC â buddion wedi'u diffinio gan fwrdd o ymddiriedolwyr yn unol â rheolau a gweithred ymddiriedolaeth y cynllun. Mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau y cedwir asedau'r cynllun pensiwn ar wahân i asedau'r cyflogwr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am redeg y cynllun yn gywir, gan gynnwys casglu cyfraniadau, buddsoddi asedau a thalu ymrwymiadau budd pensiwn a wnaethpwyd gan y cyflogwr.

Cadeiriwyd y Bwrdd gan Deirdre Kelly yn ystod 2021. Mae Deirdre, Steve Burnett, Raj Patel, a Vanessa Davies yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan y cyflogwr. Mae Danny Dubois, John Foley, Paula Robblee, a Martin Hart yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan yr aelodau.

## Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) yn gyfrifol am oruchwylio'r broses ddyfarnu yn ystod gwrandawiadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol. Mae Bonesig Caroline Swift, fel Cadeirydd, a Gavin Brown, fel Rheolwr Gweithredol, yn goruchwylio MPTS.

Mae Pwyllgor MPTS a'r Grŵp Cyswllt ar y cyd rhwng CMC ac MPTS yn rhan greiddiol o'n fframwaith llywodraethu.

Cadeirir Pwyllgor MPTS gan Fonesig Caroline Swift. Mae'r pwyllgor yn goruchwylio darpariaeth y gwasanaeth gwrandawiadau i feddygon, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan *Ddeddf Meddygol 1983*. Cadeirir Grŵp Cyswllt CMC/MPTS gan Gadeirydd y Cyngor. Mae'n goruchwylio'r berthynas waith rhwng MPTS a swyddogaethau CMC, y mae'n rhyngweithio gydag ef.

## Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw'r fforwm uwch ar gyfer gwneud penderfyniadau a goruchwylio a sefydlwyd er mwyn cynnig cyfeiriad strategol, gweithgarwch craffu ac adrodd i'r Cyngor gan dîm rheoli uwch CMC ynghylch materion arwyddocaol sy'n ymwneud â pholisi, strategaeth, cyllid, perfformiad, darpariaeth weithredol a rheoli adnoddau. Mae'n sicrhau bod CMC yn rheoleiddydd ystwyth ac sy'n sicrhau perfformiad uchel, a'i fod yn deall ei gofrestreion, y systemau gofal iechyd y mae'n gweithredu ynddynt a safbwyntiau ei brif randdeiliaid.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis (ac eithrio mis Awst) ac mae'n adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr a hefyd, trwy gyfrwng adroddiad blynyddol ar wahân.

## Fforymau Cynghori y DU

Yn 2013, sefydlom fforymau cynghori yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r fforymau yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori mewn ffordd effeithiol gyda grwpiau diddordeb a bod ein polisïau yn addas i bob rhan o'r DU. Mae'r aelodaeth wahoddedig yn amrywio o wlad i wlad, gan adlewyrchu ystod amrywiol y rhai y mae ganddynt ddiddordeb ac arbenigedd yn y meysydd yr ydym yn eu rheoleiddio ar draws y DU. Mae'r fforymau yn adrodd am eu gwaith i'r Bwrdd Gweithredol ddwywaith y flwyddyn.

## Fforwm Cynghori Addysg

Cychwynnodd y Fforwm Cynghori Addysg, a ddisodlodd y Bwrdd Cynghori Addysg a Hyfforddiant (ETAB) a'r Bwrdd Cynghori Asesu (AAB), ar ei waith ym mis Chwefror 2019. Mae'r fforwm yn ymgysylltu'n eang ac mewn ffordd effeithiol gyda'n grwpiau diddordeb allweddol ynghylch materion addysg, hyfforddiant ac asesu, gan sicrhau ein bod yn gallu datblygu a hyrwyddo dull gweithredu strategol at y gwaith hwn yn y ffordd orau ar draws holl wledydd y DU. Cadeirir y Fforwm gan Athro Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau ac mae'r aelodaeth a wahoddwyd yn adlewyrchu amrediad amrywiol y rhai sydd â diddordeb ac arbenigedd ym maes addysg, hyfforddiant ac asesu meddygol ar draws y DU. Adroddir am waith y Fforwm i'r Prif Weithredwr ac i'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr.

## Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein Fforwm Strategol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau yn ymateb i anghenion grwpiau amrywiol o feddygon. Mae'r fforwm yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli meddygon y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig a rennir, ac mae'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion ED&I trwy ddarparu adborth a chyngor am ein polisïau a'n strategaethau, gan fynegi materion a phryderon y mae gofyn i ni roi sylw iddynt, a bod yn glust i wrando yn gyffredinol mewn perthynas â materion ED&I. Yn ystod 2021, roedd trafodaethau gyda'r fforwm wedi cynnwys ein targedau ED&I newydd, tegwch a thryloywder, bwlio, aflonyddu, a gwahaniaethu, ein hadolygiad o *Arfer meddygol da*, a'r gwaith o ailgynllunio ein prosesau fel rhan o'n rhaglen diwygio rheoliadol.

# Presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor, byrddau a phwyllgorau yn ystod 2021*

| Aelod ac ymddiriedolwr | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Steve Burnett** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 4/4 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC | 5/5 |
| Fforymau Cynghori y DU – Cymru | 2/2 |
| **Vanessa Davies** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Tâl | 3/3 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC | 5/5 |
| **Lara Fielden (tan fis Awst 2021)** | |
| Cyngor | 3/4 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 2/2 |
| **Anthony Harnden** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Tâl | 3/3 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 1/1 |
| GMCSI | 3/3 |
| **Philip Hunt** | |
| Council | 8/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |
| Pwyllgor Tâl | 3/3 |

* Mae'n cynnwys saith cyfarfod o'r Cyngor ac un diwrnod cwrdd i ffwrdd strategol. Mae presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd Fforwm yn wirfoddol ac yn dilyn gwahoddiad a wneir gan Gadeirydd y Cyngor. Mae'r data presenoldeb yn adlewyrchu cyfanswm y cyfarfodydd yr oedd modd eu mynychu.

| Aelod ac ymddiriedolwr | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Paul Knight** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |
| Gwasanaethau Rhyngwladol CMC | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Yr Alban | 2/2 |
| **Carrie MacEwen** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 4/4 |
| Grŵp Cyswllt CMC/MPTS | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Gogledd Iwerddon | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Yr Alban | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Cymru | 1/1 |
| **Deepa Mann-Kler** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 4/4 |
| Pwyllgor Tâl | 3/3 |
| Fforymau Cynghori y DU – Gogledd Iwerddon | 2/2 |
| **Clare Marx (tan fis Gorffennaf 2021)** | |
| Cyngor | 4/4 |
| Grŵp Cyswllt CMC/MPTS | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Gogledd Iwerddon | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Yr Alban | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Cymru | 1/1 |
| **Raj Patel** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC | 5/5 |
| **Suzanne Shale** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |

# Aelodau cyfetholedig allanol

Mae aelodau cyfetholedig allanol yn eistedd ar y Pwyllgor Buddsoddi ac ar y Pwyllgor Risg ac Archwilio.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Buddsoddi** | |
| Mr Keith MacKay | 5/5 |
| Mr Tim Scholefield | 1/2 |
| Mr David Stewart | 1/2 |
| Mike Jennings | 1/1 |
| **Pwyllgor Risg ac Archwilio** | |
| Ms Elizabeth Butler | 3/3 |
| Mr Kenneth Gill | 4/5 |
| Jon Hayes | 2/2 |
| **GMCSI** | |
| Dr Andrew McCulloch | 4/4 |

# Rheolwyr

Ar ddechrau 2021, roedd ein staff dan reolaeth y Prif Weithredwr, Charlie Massey. Caiff ei gynorthwyo gan dîm o gyfarwyddwyr, yr oedd aelodau'r tîm hwn fel a ganlyn ar 31 Rhagfyr 2021:

- Shaun Gallagher, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi
- Una Lane, Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu
- Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau
- Anthony Omo, Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer
- Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol
- Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau.

## Personél rheoli allweddol – polisi tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am bennu tâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cadeirydd MPTS a'r cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor yn pennu pob agwedd ar gyflogau neu honoraria, darpariaeth unrhyw fuddion eraill, ynghyd ag unrhyw amodau cytundebol neu drefniadau eraill ar gyfer y grŵp hwn o staff.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylem ddarparu tâl a gwobrwyon a fydd yn denu ac yn cadw'r staff o ansawdd uchel sy'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cylch gwaith statudol a'n hamcanion strategol.

Wrth bennu'r tâl sylfaenol ar gyfer swyddi unigol, bydd y Pwyllgor yn cael cyngor allanol am rolau o fewn ei gylch gwaith, gan sicrhau bod cyflogau'n cyd-fynd â chyfradd y farchnad sy'n briodol, yn unol ag ystyriaethau ynghylch adnoddau.

Ystyrir dyfarniad cyflog cyfunedig wrth gyfeirio at lefel berfformio y sefydliad, goblygiadau ariannol unrhyw ddyfarniad, y dyfarniad a gytunwyd ar gyfer cyflogeion eraill CMC a thueddiadau ehangach yn y farchnad. Ystyrir elfen anghyfunol amrywiol flynyddol, gan adlewyrchu perfformiad personol, gyda'r un ystyriaethau a weithredir ar gyfer unrhyw ddyfarniad cyfunedig. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn bob blwyddyn.

Fel arfer, bydd staff yng nghylch gwaith y Pwyllgor Tâl yn gymwys i gael y pecyn buddion sydd ar gael i holl gyflogeion CMC yn unol â'r un amodau. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r gallu i dynnu yn ôl, addasu neu newid unrhyw fuddion i staff yn ei gylch gwaith, yn unol ag unrhyw ofynion ymgynghori a chytundebol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw fuddion ychwanegol mewn nwyddau (megis taliadau adleoli) fesul achos.

Caiff staff allanol newydd a benodir o fewn cylch gwaith y Pwyllgor eu cofrestru yn ein cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, yn awtomatig. Pan fydd gan gyflogeion drefniadau pensiwn cytunedig sy'n bodoli eisoes, megis aelodaeth o'n cynllun â buddion wedi'u diffinio, byddant yn cadw hwn yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, yn unol ag unrhyw newidiadau i'r rheolau y bydd ymddiriedolwyr a'r cyflogwr yn cytuno arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod goblygiadau'r polisi tâl a phenderfyniadau cysylltiedig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried mewn ffordd briodol. Yn benodol:

- cefnogir unrhyw wahanrediadau cyflog gan werthusiad swydd ffurfiol neu gyngor annibynnol o'r farchnad allanol
- cefnogir unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl amrywiol gan asesiad gwrthrychol o berfformiad
- ni fydd unrhyw addasiad neu newidiadau i drefniadau tâl yn gwahaniaethu mewn ffordd anghyfreithlon
- cefnogir penderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag amodau gwasanaeth gan gyngor priodol ynghylch unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

# Adolygiad ariannol 2021

Paratowyd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021 yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102).

## Cyfanswm ein hincwm a'n gwariant yn 2021

Roedd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi parhau i gael effaith arwyddocaol ar ein gweithgareddau trwy gydol 2021, ond bu modd i ni ddechrau gweithio trwy'r gwaith a oedd wedi cronni o ganlyniad i'r cyfnodau clo cynnar yn ystod y pandemig, ac roeddem wedi parhau i ddarparu nifer o'n gwasanaethau craidd er mwyn cynorthwyo meddygon a chleifion.

Yn 2021, sicrhaom incwm anghyfyngedig o £119.7 miliwn, a oedd £11.4 miliwn yn uwch na'r swm a sicrhawyd yn 2020. Roedd hyn oherwydd y cynnydd ym maint y gofrestr ac effaith cynnal rhagor o brofion Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) yn 2021 nag y gwnaethom yn 2020, ynghyd â'r cynnydd dilynol yn nifer y ceisiadau i ymuno â'r gofrestr.

Llwyddom i gynnal profion ychwanegol y PLAB trwy fuddsoddi £1 miliwn mewn canolfan asesu clinigol dros dro newydd a gynlluniwyd yn benodol er mwyn cynnal arholiadau a fyddai'n ystyried gofynion cadw pellter cymdeithasol, ac roedd hyn wedi caniatáu i ni sicrhau bod ein capasiti fel yr oedd cyn y pandemig o fis Mehefin.

Yn ogystal, rhoddodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU £2.6 miliwn i ni yn 2021 er mwyn parhau'r gwaith gweithredol o gynnwys cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia yng ngwaith rheoleiddio y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Roedd natur y cyllid hwn yn gyfyngedig, felly caiff ei ddangos ar wahân yn y cyfrifon. Gwariwyd hwn yn llawn yn 2021, a defnyddiwyd £0.9 miliwn i ddatblygu systemau TG, o natur cyfalaf, gan greu ased cyfyngedig ar y fantolen.

Yn ogystal, llwyddom i sicrhau £4.9 miliwn o elw ar ein buddsoddiadau yn ystod 2021. Roedd hwn yn uwch na'r swm yn 2020 oherwydd effaith dyddiau cynnar y pandemig ar farchnadoedd ariannol yn ystod 2020.

Ein gwariant elusennol digyfyngiad yn 2021 oedd £117.9 miliwn, a oedd yn gynnydd o £11.3 miliwn o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2020. Yn 2020, gohiriwyd tribiwnlysoedd a phrofion PLAB 2 dros dro, cyn iddynt ailgychwyn yn ystod ail hanner y flwyddyn. Trwy gydol 2021, llwyddom i gynnal tribiwnlysoedd dan drefniant hybrid, gyda rhai yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb a rhai yn cael eu cynnal trwy drefniant rhith. Parhaom i ddarparu profion PLAB 2 yn unol â mesurau cadw pellter cymdeithasol a llwyddom i gynnal profion PLAB 2 dan drefniant nad oedd yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol tuag at ddiwedd 2021. Cynyddom y capasiti er mwyn cynnal tribiwnlysoedd a phrofion PLAB yn 2021, ac roedd hyn wedi caniatáu i ni brosesu rhywfaint o'r gwaith y bu'n rhaid ei oedi pan fu'r cyfleusterau ar gau dros dro, a oedd wedi cynyddu'r costau.

Cynyddom ein darpariaeth dadfeilio gymaint ag £1.9 miliwn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni ein rhwymedigaethau dan ein lesoedd adeiladau. Mae ein cyfrifon ar gyfer 2021 yn cynnwys darpariaeth bellach o £0.1 miliwn er mwyn talu'r costau posibl y gallent godi o hawliadau cyfreithiol.

Roedd ein gweithgareddau craidd eraill wedi parhau trwy gydol 2021, gydag effaith y pandemig yn cael dylanwad cyffredinol ar ein gallu i deithio, dychwelyd i'r swyddfa gyda phatrymau gwaith newydd, a chynnal a mynychu digwyddiadau.

Pennom darged effeithlonrwydd i sicrhau arbedion o £1.5 miliwn, yr oeddem yn teimlo ei fod yn darged realistig o ystyried y sialensiau y mae'r pandemig wedi'u dwyn i'n hamgylchedd gweithredol. Llwyddom i sicrhau arbedion costau o £1.9 miliwn trwy wireddu arbedion trwy gynnal tribiwnlysoedd rhith a gohirio'r broses o recriwtio pobl i swyddi gwag.

Ni fu gan yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd gofyn eu datgelu dan A162A *Deddf Elusennau 2011*.

## Polisi cronfeydd wrth gefn a busnes gweithredol

Adolygir lefel ein cronfeydd wrth gefn a'n polisi cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, a rhoddir sylw i unrhyw oblygiadau ariannol fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Mae cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd, cronfeydd wrth gefn a gefnogir gan asedau sefydlog a chronfeydd wrth gefn pensiwn.

Rydym yn dal cronfeydd wrth gefn rhydd:

- i ddarparu cyfalaf gweithio er mwyn cynnal ein gweithgarwch arferol o ddydd i ddydd
- i ddarparu cronfeydd i ddelio ag unrhyw risgiau a fydd yn codi
- i ddarparu cronfeydd i ymateb i fentrau, cyfleoedd a sialensiau newydd sy'n codi
- i ariannu'r cyfnod cyn y teimlir effaith lawn unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd.

Cynrychiolir cyfran sylweddol o gyfanswm ein cronfeydd wrth gefn gan asedau sefydlog, nad oes modd eu trosi'n arian ar fyr rybudd yn hawdd, heb i hynny gael effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni ein nodau elusennol a'n rhwymedigaethau statudol. Felly, diystyrir gwerth asedau sefydlog at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn.

Diystyrir gwerth y cronfeydd pensiwn wrth gefn hefyd at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn. Caewyd y cynllun â buddion wedi'u diffinio i groniadau yn y dyfodol yn 2018, a gellir rheoli unrhyw ddiffyg neu warged yn y cynllun dros y tymor canolig, felly nid yw'n cael unrhyw effaith ar y cronfeydd wrth gefn rhydd yn y tymor byr.

Ni cheir fformwla safonol y gellir ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo lefel ddelfrydol y cronfeydd wrth gefn rhydd. Rydym yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gan bennu ystod a dargedir ar sail ein gofynion llif arian ac asesiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Ein nod yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd ar lefel nad yw'n ormodol, ond nad yw'n peryglu ein solfedd.

Ar sail ein dadansoddiad o lif arian a'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd o tua £25 miliwn i £45 miliwn. Fodd bynnag, yn 2021 aethom ati i ailasesu'r risgiau yr ydym yn eu hwynebu, a chymeradwyodd y Cyngor y cam o gynyddu ein trothwy uwch i £50 miliwn.

Yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y polisi cronfeydd wrth gefn rhydd yn parhau i adlewyrchu newidiadau ym maint y sefydliad, byddwn yn cysylltu'r ystod darged gyda gwariant yn uniongyrchol, a fynegir fel canran, felly bydd ein hystod darged o gronfeydd wrth gefn rhydd rhwng 20% a 35% o'r gwariant blynyddol.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i adolygu diben a chwmpas ein polisi cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y trothwyon yn adlewyrchu ein proffil risg presennol, ein gofynion o ran llif arian a'n hamgylchedd gweithredol.

Ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd go iawn yn unol â'r lefel a dargedwyd dros y tymor canolig. Os bydd ein cronfeydd wrth gefn go iawn yn amrywio'n sylweddol o'r ystod darged a nodir yn y polisi cronfeydd wrth gefn, byddwn yn gweithredu i roi sylw i'r amrywiad fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb, er mwyn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn go iawn yn unol â'r disgwyl unwaith eto cyn pen cyfnod rhesymol.

Cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2021 oedd £99.8 miliwn, a oedd yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd o £45.2 miliwn, a £18 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a gynrychiolwyd gan asedau sefydlog, a chronfa wrth gefn pensiwn o £36.6 miliwn.

Roedd lledaeniad y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith arwyddocaol ar ein gweithgareddau trwy gydol 2020 a 2021, ac yn gyffredinol, roedd ein costau net yn is na'r hyn a gynlluniwyd. Rydym yn bwriadu i'n gwariant fod yn uwch na'n hincwm yn 2022 wrth i ni barhau ein cynlluniau adfer. Amcangyfrifwn y bydd ein cronfeydd wrth gefn rhydd yn lleihau i tua £40.9 miliwn ar ddiwedd 2022, sy'n cyd-fynd â'n polisi cronfeydd wrth gefn.

Daw mwyafrif ein hincwm o'r ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg gofrestru gyda ni er mwyn gwneud gwaith meddygol yn y DU, felly mae'n hincwm yn gymharol sicr. Er gwaethaf effaith y pandemig, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod o'r farn bod CMC yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld, felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Nid oes unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar ein sefydlogrwydd ariannol hyd y gellir rhagweld.

# Polisi buddsoddi

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ac adolygu'r polisi buddsoddi cyffredinol, yr amcanion, y parodrwydd i dderbyn risg a'r elw a dargedir. Mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, a monitro perfformiad i'r Pwyllgor Buddsoddi, sy'n adrodd i'r Cyngor yn rheolaidd.

Mae'n polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori:

- y rhai hynny sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd
- y rhai y byddwn yn eu buddsoddi dan reolaeth efallai
- y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu efallai
- unrhyw falans ariannol sy'n weddill.

Rydym yn dal isafswm o £15 miliwn fel cyfalaf gweithio, at ddibenion llif arian arferol. Caiff hwn ei ddal mewn cyfrifon banc mynediad syth ac mae'n cynnig digon o hyblygrwydd er mwyn gallu osgoi benthyca dros dro a/neu'r angen i fanteisio ar fuddsoddiadau er mwyn delio ag amrywiadau tymor byr mewn incwm a gwariant gweithredol.

Yn wreiddiol, buddsoddom £50 miliwn dan reolaeth ym mis Mehefin 2019. Y gyfradd elw a dargedwyd ar gronfeydd a fuddsoddwyd dan reolaeth yw chwyddiant (CPI) a 2% dros gyfnod treigl pum mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymagwedd ofalus tuag at risg. Rydym yn dymuno diogelu rhag chwyddiant; sicrhau incwm cymedrol; ac amrywio ein cronfeydd er mwyn lleihau'r risg o golli cyfalaf a/neu refeniw.

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu buddsoddi moesegol cynhwysfawr tuag at fuddsoddiadau. Credwn y byddai buddsoddi mewn cwmnïau neu sectorau penodol yn gwrthdaro â'n nodau elusennol yn ein barn ni, neu y gallent beri niwed i'n henw da. Nid ydym yn dymuno elwa'n uniongyrchol gan neu ddarparu cyfalaf ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cyd-fynd â'n nodau elusennol, felly rydym yn gwahardd yn benodol buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n sicrhau dros 10% o'u refeniw gan: tybaco, alcohol, gamblo, pornograffi, benthyca ar gyfradd llog uchel, arfau rhyfel a ffrwydron tir, a chloddio am lo thermol neu dywodydd olew. Nid ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n destun ymchwiliadau neu y'u canfuwyd yn euog o efadu trethi neu wyngalchu arian dros y dair blynedd ddiwethaf.

Efallai y byddwn yn buddsoddi mewn cwmnïau y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â'n nodau elusennol neu y mae'n eu cefnogi. Disgwyliwn i gwmnïau y byddwn yn buddsoddi ynddynt ddangos arferion cyflogaeth a llywodraethu corfforaethol cyfrifol, gan fod yn gydwybodol mewn perthynas â materion amgylcheddol a chymdeithasol, a chan ddelio â chwsmeriaid a'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt mewn ffordd deg. Yn ogystal, efallai y byddwn yn defnyddio ein sefyllfa fel buddsoddwr er mwyn dylanwadu ar ac ymgysylltu ag ymddygiad corfforaethol y cwmnïau hynny yr ydym yn buddsoddi ynddynt mewn ffordd weithredol.

Dim ond trwy reolwyr cronfa sy'n dangos y cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) cryfaf y byddwn yn buddsoddi. Wrth benodi rheolwyr cronfa, byddwn yn ystyried sut y maent yn cynnwys asesiad o berfformiad cwmnïau ynghylch materion ESG yn eu proses er mwyn dethol stoc.

Ar ddiwedd 2021, barnwyd bod ein cronfeydd dan reolaeth yn werth £61.6 miliwn o'i gymharu â £57 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn. Llwyddom i sicrhau elw o 8.59% yn 2021 o'i gymharu â tharged o 7.4%.

Buddsoddom £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yng Ngwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig, is-gwmni masnachol CMC, ar ddiwedd 2016. Barnwyd bod ein buddsoddiad ar ddiwedd 2021 yn werth £0.2 miliwn.

Caiff unrhyw arian parod dros ben na chaiff ei ddal fel cyfalaf gweithio neu ei fuddsoddi, ei ddal mewn cyfrifon cadw tymor canolig a/neu gyfrifon sy'n cynnig llog. Sicrhaom llog o £0.08 miliwn ar ein balansau ariannol, sy'n cyfateb â chyfradd elw flynyddol gyfartalog o 0.20%. Dangosir arian parod sy'n cael ei ddal fel cyfalaf gweithio, ynghyd ag unrhyw arian parod dros ben, yn ein mantolen o fewn asedau cyfredol.

## Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig

Corfforwyd yr is-gwmni masnachol fel cwmni preifat cyfyngedig gan gyfranddaliadau ar 16 Rhagfyr 2016. Mae'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr CMC ac mae'n darparu gwasanaethau masnachol, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddi ac achredu. Un o'i brif amcanion yw cyflwyno ffrydiau refeniw newydd ac felly, lleihau dibyniaeth CMC ar adnoddau ariannol craidd. Bydd yn gwneud hyn trwy roi ei elw yn ôl i CMC at ddibenion cyflawni nodau elusennol CMC.

Buddsoddodd CMC £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yng Ngwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI). Yn ystod ei flynyddoedd cynnar, roedd GMCSI wedi gwneud colledion net, ond mae wedi gallu sicrhau elw cymharol fach yn ddiweddar. Yn 2021, roedd GMCSI wedi sicrhau colled net o £7,410 ac ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ganddo asedau net o £230,445, felly ni ddychwelwyd unrhyw elw i CMC ar ffurf rhodd cymorth. Rhagamcanir y bydd GMCSI yn sicrhau elw dros y tymor canolig.

Mae'r cyfrifon a gyflwynir yma yn gyfrifon grŵp cyfunol sy'n cynnwys ein his-gwmni masnachol, GMCSI. Mae'r datganiad materion ariannol yn dangos sefyllfa gyfunol CMC a GMCSI. Mae'r fantolen yn dangos colofnau ar wahân sy'n nodi sefyllfa'r grŵp (CMC a GMCSI gyda'i gilydd) a sefyllfa'r elusen rhiant (CMC). Paratowyd cyfrifon cwmni ar wahân ar gyfer GMCSI.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig). Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'r grŵp a'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu mewn ffordd gyson
- arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw achosion o wyro o bwys yn cael eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn esbonio trafodion yr elusen ac sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â *Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005, Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006* (fel y'u diwygiwyd), Cyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd dan *Ddeddf Meddygol 1983* a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp ac felly, cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

## Trafodion partïon cysylltiedig

Rhaid i bob ymddiriedolwr ac uwch reolwr ddatgelu manylion unrhyw sefydliadau y maen nhw (ac aelodau teuluol agos a phartneriaid busnes) yn cyflawni rôl o awdurdod ynddynt neu y mae ganddynt fudd perthnasol arall ynddynt, ac y gallai eu busnes arwain at sefyllfa lle y byddent yn cael cyswllt ariannol â CMC. Rhaid datgelu manylion unrhyw drafodion go iawn rhwng CMC a phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn hefyd. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi cofrestr buddiannau ar ein gwefan.

Yn ystod 2021, gwnaethpwyd yr holl ddatgeliadau ac nid oedd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder.

# Adroddiad y pwyllgor risg ac archwilio

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ein Cyngor yn cyflawni rôl allweddol yn ein strwythur llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn cynnig sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg
- darpariaeth y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Yn ogystal, mae'n monitro ein polisïau gwrth-dwyll ac unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'r *Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data*, ac mae'n adolygu'r trefniadau er mwyn mynegi pryderon.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i gyngor a'i benderfyniadau ar ganllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a phan fo hynny'n briodol, ar gyngor allanol annibynnol.

Ar ddechrau 2021, roedd saith aelod ar y Pwyllgor – pump o aelodau'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig. Croesawodd y Pwyllgor aelod cyfetholedig newydd ym mis Gorffennaf ond yn anffodus, collodd un o aelodau'r Cyngor ym mis Medi ar ôl iddynt farw cyn pryd, gan arwain at bedwar aelod o'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig ar y pwyllgor ar ddiwedd 2021. Mae aelodau cyfetholedig, neu annibynnol, yn datblygu gwaith y Pwyllgor trwy ddwyn sgiliau a phrofiad ychwanegol gwerthfawr i'r gwaith craffu a herio annibynnol ynghylch cyllid, risg a llywodraethu. Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan mewn proses arfarnu flynyddol.

Yn 2021, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith a chyflwynodd ddau adroddiad ffurfiol am ei waith a'i ganfyddiadau i'r Cyngor. Yn ogystal, cafodd aelodau'r Pwyllgor y cyfle i ddysgu mwy am feysydd penodol o'r busnes a'u risgiau, a'u craffu, yn ystod pum sesiwn seminar.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i raglen waith flynyddol ar risg ac mae ein Cofrestr Risg a Chyfleoedd Corfforaethol yn adlewyrchu'r prif risgiau strategol yr ydym yn eu rheoli. Mae gweithgarwch goruchwylio a chraffu y Pwyllgor yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod cyfleoedd yn cael eu hymestyn trwy gyfrwng systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg effeithiol.

## Gweithgareddau allweddol yn ystod 2021

Yn 2020, penderfynodd y pwyllgor oedi ei raglen gwaith archwilio a gynlluniwyd er mwyn ymateb i risgiau'r pandemig a oedd yn dod i'r amlwg, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar gyfres o adolygiadau dysgu a gweithgarwch archwilio er mwyn cynnig sicrwydd ynghylch risgiau a gweithgareddau newydd. Yn 2021, bu modd i'r pwyllgor ganlyn ei rhaglen archwilio mewnol a gynlluniwyd. Mae hon wedi parhau i ganolbwyntio ar weithgareddau a addaswyd er mwyn ymateb i'r pandemig, gan archwilio cynnydd ein cynlluniau er mwyn mynd i'r afael â gwaith sydd wedi cronni, a chwblhau archwiliadau ar hap rheolaidd er mwyn asesu cynnydd yn ein gwaith i gynorthwyo rhaglen diwygio rheoliadol y Llywodraeth.

Yn ystod pob un o'i gyfarfodydd, roedd y Pwyllgor wedi:

- trafod ystod eang o risgiau strategol er mwyn cynnig cefndir pwysig i'w ddealltwriaeth o'r sialensiau a'r cyfleoedd yr oedd CMC yn eu hwynebu
- ystyried y sicrwydd a oedd ganddo o ran y ffordd yr oedd y sefydliad yn ymateb i fygythiadau a chyfleoedd a oedd yn dod i'r amlwg
- herio ein Cofrestr Cyfleoedd Corfforaethol a Risg
- parhau i roi cymorth parhaus ar gyfer aeddfedrwydd risg yn unol ag egwyddorion rheoli risg mewn ffordd effeithiol, a nodir yn safon canllawiau rhyngwladol ISO 31000:2009
- craffu canfyddiadau archwilio a'r adolygiad dysgu er mwyn teimlo'n fodlon bod y camau yr oeddent yn cael eu cymryd yn briodol
- monitro gweithrediad argymhellion a wnaethpwyd mewn adroddiadau archwilio blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn ffordd effeithiol gan reolwyr uwch
- adolygu unrhyw ganfyddiadau a gwersi a ddysgwyd o waith a gynhaliwyd mewn perthynas â digwyddiadau niweidiol arwyddocaol.

Roedd gweithgareddau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- cymeradwyo llythyr ymgysylltu yr archwiliad allanol a chraffu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020
- adolygu *adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol*
- comisiynu prawf annibynnol o'n trefniadau rheoli diogelwch seiber
- adolygu pryderon a fynegwyd i'r Gwarcheidwad Rhyddid i Godi Llais (FTSU), fel yr adroddwyd yn adroddiad blynyddol 2020 FTSU
- cynnal seminar er mwyn deall sut yr ydym yn rhoi sylw i agenda cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol y pwyllgor
- ystyried risg a sicrwydd trwy lens sefydliadau sydd wedi profi digwyddiad mawr neu fethiant o ran llywodraethu a threfniadau rheoli mewnol.

Yn ogystal, comisiynodd y Pwyllgor adolygiad annibynnol o'n trefniadau er mwyn cydymffurfio gyda safon BS 10008 ynghylch pwysau tystiolaethol a derbynioldeb cyfreithiol gwybodaeth a gaiff ei storio yn electronig (ESI), y daeth CMC yn hollol achrededig iddo yn 2016. Roedd yr adolygwr allanol yn canmol ein gwaith unwaith eto a'r ffaith y llwyddwyd i gynnal safonau uchel er gwaethaf yr amhariad parhaus a achoswyd gan y pandemig. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod ein system rheoli gwybodaeth yn effeithiol wrth sicrhau natur ddibynadwy gwybodaeth electronig.

## Rheoli risg yn 2021

Yn ystod 2021, prif elfen y cyd-destun ehangach fu'r pandemig o hyd. Ein blaenoriaeth o hyd fu diogelu cleifion, cynorthwyo'r gweithlu meddygol, ac iechyd a lles ein cydweithwyr. Mae'r sefydliad wedi parhau i addasu i risgiau ac amgylchiadau allanol. Er enghraifft, adlewyrchu cyd-destun COVID-19 mewn gweithgarwch penderfynu ynghylch addasrwydd i ymarfer, parhau i gynnal gwrandawiadau MPTS o bell, datblygu cylchedau interim ar gyfer asesiadau clinigol PLAB 2, a

diweddaru cynlluniau yn barhaus er mwyn sicrhau bod staff yn gallu dychwelyd i swyddfeydd mewn ffordd ddiogel.

Mae'r gallu hwn i ddelio ag ystod amrywiol o risgiau, gan fwrw golwg ar y gorwel allanol ehangach am fygythiadau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, a gweithio gydag eraill ar draws y tirlun iechyd, yn dangos aeddfedrwydd ein trefniadau risg a'u cydnerthedd.

Mae trafodaethau strategol ar lefel uchel ynghylch risg yn y Cyngor ac yn y pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnig cefndir pwysig er mwyn deall cyd-destun gweithgareddau CMC a'r potensial i gael effeithiau cadarnhaol ar feddygon a chleifion. Yn ogystal â myfyrio am oblygiadau posibl natur barhaus y pandemig ac ystyried y cyfleoedd ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol a gweithgareddau adfer, bu rhai o'r prif feysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod 2021 mewn perthynas â risg a chyfle fel a ganlyn:

- ystyried y cyfleoedd i ail-siapio a gwella'r broses o gyflawni ein cyfrifoldebau statudol trwy gyfrwng rhaglen diwygio rheoliadol y Llywodraeth
- rheoli paratoadau ar gyfer effaith Brexit
- paratoi ar gyfer cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol yn 2024
- ymateb i amrediad o ymchwiliadau cyhoeddus pwysig, gan gynnwys yr Ymchwiliad Niwroleg Annibynnol yng Ngogledd Iwerddon, yr adolygiad Annibynnol ynghylch Ymddiriedolaeth sefydledig GIG Ysbyty Gorllewin Suffolk, a'r adolygiad o ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth yn Lloegr
- datblygu ein dulliau gweithredu tuag at degwch rheoliadol er mwyn gwaredu patrwm anghymesur pryderon addasrwydd i ymarfer y byddwn yn eu cael gan gyflogwyr ar sail ethnigrwydd a lleoliad sicrhau cymhwyster meddygon, a gwaredu gwahaniaethu, anfantais, ac annhegwch mewn addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig
- cynnal diogelwch a lles staff wrth ymateb i ganllawiau'r Llywodraeth ynghylch gweithio gartref ac ar gyfer dychwelyd i swyddfeydd.

Mae meddwl am risg yn rhan annatod o drafodaethau a gweithrediadau ar bob lefel yn y busnes. Mae gennym set aeddfed o drefniadau rheoli risg sydd wedi'u hymwreiddio yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd a defnyddir cofrestrau risg fel offeryn er mwyn nodi, cyfleu, monitro a rheoli risgiau gweithredol a risgiau prosiect, sy'n ein helpu i nodi cyfleoedd i wella'r ffordd y rheolir y busnes a'n hamgylchedd gwaith. Cyhoeddir ein Cofrestr Risg a Chyfleoedd Corfforaethol ar y wefan yn rheolaidd, trwy gyfrwng adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cyngor.

## Dysgu gan ddigwyddiadau a materion

Mae'r gallu i gloriannu sefyllfaoedd mewn ffordd agored a gonest pan fydd rhywbeth annisgwyl yn codi yn rhan annatod o weithgarwch rheoli risg da a meithrin cydnerthedd. Mae gennym ddull gweithredu cadarn ar gyfer cynnal adolygiadau dysgu a digwyddiadau arwyddocaol er mwyn nodi cyfleoedd i wella.

Cynhaliom nifer o'r rhain yn 2021, gan gynnwys:

- adolygiad dysgu yn dilyn digwyddiad pan rannwyd gwybodaeth sensitif trwy amryfusedd wrth ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth. Yn yr achos hwn, hysbyswyd y Comisiynydd

Gwybodaeth yn unol â phroses hysbysu statudol GDPR, ond penderfynont beidio ymchwilio na chymryd camau, ac yn dilyn hyn, caewyd y mater.

- Adolygiad yn dilyn dyfarniad tribiwnlys cyflogaeth mewn achos lle'r oedd meddyg wedi gwneud honiad ynghylch gwahaniaethu ar sail hil a chrefydd yn erbyn CMC, mewn perthynas â'r broses o ddelio gyda chwyn am eu haddasrwydd i ymarfer. Canfu'r tribiwnlys bod y gŵyn ynghylch gwahaniaethu uniongyrchol ar sail hil yn rhesymol a bu'n llwyddiannus. Barnwyd nad oedd y gŵyn ynghylch gwahaniaethu ar sail crefydd a chredo yn rhesymol ac fe'i gwrthodwyd. Fel rhan o'r adolygiad, cynhaliom ymarfer cychwynnol er mwyn ystyried pethau i'w dysgu ar unwaith er mwyn helpu i wella'r ffordd yr ydym yn ymateb i honiadau tribiwnlys cyflogaeth a gweithgarwch ymgyfreitha ansafonol yn y dyfodol. Ar wahân i hyn, gan gydnabod potensial anghydraddoldeb hiliol i effeithio ar ein gweithgareddau, rydym wedi sefydlu rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod systemau, trefniadau rheoli, a dulliau gweithredu presennol ynghylch lliniaru tuedd, monitro gwahaniaethau, a hyrwyddo tegwch ar draws ein swyddogaethau rheoliadol yn effeithiol nawr a dros y tymor hir (gweler tudalen 45). Bydd y canlyniadau o'r gwaith hwn yn batrwm ar gyfer y ffordd yr ydym yn ymwreiddio mecanweithiau rheoli tegwch cryfach yn ein prosesau fel rhan o agenda diwygio rheoliadol y Llywodraeth y DU.

# Y tu hwnt i 2021

Wrth i ni ddechrau adfer o effeithiau'r pandemig ar lefel weithredol, bydd yr amgylchedd allanol yn parhau i fod yn ansicr wrth i'r system iechyd ehangach ddechrau roi sylw i'r gweithgarwch dewisol cynyddol sydd wedi cronni ac wrth i ni wynebu cyfnod economaidd heriol. Bydd hyn yn esgor ar fygythiadau a chyfleoedd pellach i ni. Mae ein Strategaeth Gorfforaethol 2021-2025 uchelgeisiol a'r ymrwymiadau cyhoeddus yr ydym wedi'u gwneud yn mynnu ein bod yn parhau i gynnal ffocws ond i fod yn ymwybodol o'r pwysau ar bartneriaid yn allanol ac ar gydweithwyr yn fewnol. Bydd rheoli risg gweithredol yn parhau i fod yn allweddol wrth ein cynorthwyo i sicrhau cydbwysedd rhwng ein gwaith a'n blaenoriaethau, fel y gallwn barhau i gynorthwyo meddygon a chleifion.

## Cyfleoedd allweddol yn 2022

Yn allanol, mae gennym y cyfle i:

- barhau i weithio ar agenda diwygio deddfwriaethol sy'n ein trawsnewid ni (a rheolyddion eraill) i fod yn rheolydd blaengar, modern a hyblyg
- defnyddio ein dylanwad, ein data a'n dirnadaeth er mwyn cyflymu dealltwriaeth a chymorth ein partneriaid er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac annhegwch ym maes addysg feddygol ac yn y system iechyd ehangach.

Yn fewnol, byddwn yn datblygu momentwm er mwyn:

- diweddaru ac esblygu ffyrdd o weithio er mwyn gwella gweithgarwch adfer y busnes, gan ddatblygu dysgu a chynnydd wrth ymateb i'r pandemig
- hyrwyddo ffyrdd o weithio sy'n cynorthwyo diwylliant cynhwysol ac arloesol, gan gynnwys cyflawni ein rhaglenni arweinyddiaeth a thalent amrywiol.


## Prif sialensiau yn 2022

Byddwn yn wynebu sialensiau fel rheolydd ac fel cyflogwr hefyd, gan gynnwys:

- cyflawni'r newidiadau polisi a gweithredol ar gyfer diwygio rheoliadol yn unol â'r amserlenni a bennwyd gan Lywodraeth y DU
- cynnal cydweithio effeithiol gyda phartneriaid allweddol y mae eu capasiti a'u hymdrechion sefydliadol yn canolbwyntio ar ymateb i ôl-effeithiau'r pandemig
- sicrhau cydbwysedd rhwng y pwysau parhaus a'r effaith bosibl ar les ein cydweithwyr.

Rydym yn llwyr sylweddoli maint y sialensiau hyn. Rydym yn gwybod na allwn gyflawni'r effeithiau cadarnhaol y mae cleifion a meddygon yn eu haeddu os na fyddwn yn parhau i wrando arnyn nhw, ar arweinwyr meddygol, ac ar sefydliadau cleifion, er mwyn i ni ddysgu am eu profiadau a'u disgwyliadau nhw yn y dyfodol. Rhaid i ni weithio gyda thosturi a dealltwriaeth ar adeg pan fo disgwyliadau cymdeithas yn newid. Rhaid i ni fod yn sensitif ac yn hyblyg fel ein bod yn parhau i gadw cleifion yn ddiogel, yn cynorthwyo meddygon, ac yn ennyn parch am fod yn rheolydd ac yn gyflogwr effeithiol, perthnasol a thosturiol.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 22 Mehefin 2022 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:



Bonesig Carrie MacEwen

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ('y cwmni elusennol') a'i is-gwmni ('y grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r cwmni elusennol ar 31 Rhagfyr 2021 ac o incwm a gwariant y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno;
- wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion *Deddf Cwmnïau 2006* a *Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005* a *Rheoliadau 6 ac 8 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 (diwygiwyd).*

## Sail dros y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn bod y dystiolaeth archwilio a sicrhawyd gennym yn ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail dros ein barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwr o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnom, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau y gallent, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth ar allu y grŵp neu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n ymddangos yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amdanynt. Nid yw'n barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y mynegir hynny yn glir yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n cynnig sicrwydd amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall, a thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol mewn ffordd o bwys neu ei bod yn ymddangos bod ein gwybodaeth ni a sicrhawyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi cael ei chamfynegi mewn ffordd o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondebau o bwys o'r fath neu gamfynegiadau o bwys amlwg, mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn yn cyfateb â chamfynegi o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camfynegi o bwys o ran y wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a gynhaliwyd yn ystod ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwyswyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae gofyn i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwysir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle y mae *Deddf Cwmnïau 2006* a *Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006* yn mynnu ein bod yn adrodd i chi:

- os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a chywir yn ein barn ni; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r adroddiadau a'r cofnodion cyfrifyddu yn ein barn ni; neu
- os na wneir datgeliadau penodol am dâl ymddiriedolwyr yn ein barn ni, y mae'r gyfraith yn nodi bod gofyn iddynt gael eu gwneud; neu
- os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 69, mae'r ymddiriedolwyr (y maent yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am deimlo'n fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn galluogi gweithgarwch i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu y grŵp neu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, pan fo hynny'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu dirwyn yr elusen i ben neu orffen gweithrediadau, neu os nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilydd dan adran 44(1)(c) *Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005* a than *Ddeddf Cwmnïau 2006* ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a rheoliadau perthnasol a wnaethpwyd oddi tanynt neu sy'n cael effaith oddi tanynt.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o ran sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) wastad yn canfod camfynegi o bwys pan fydd yn bodoli. Gall achosion o gamfynegi ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn achosion o bwys pe byddai'n rhesymol disgwyl y byddent, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Isod, nodir manylion y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau.

Mae modd gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

## Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau. Nodom ac asesom risgiau camddatgan o bwys mewn perthynas â'r datganiadau ariannol oherwydd afreoleidd-dra, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a thrafodwyd y rhain rhwng aelodau ein tîm archwilio. Yna, cynlluniom a chyflawnom weithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys sicrhau tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail ar gyfer ein barn.

Sicrhaom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol y mae'r grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddyfarnu datgeliadau a symiau o bwys yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriom yn y cyd-destun hwn oedd *Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Meddygol 1983* a *Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005*, ynghyd â'r SORP Elusennau (FRS102). Asesom y cydymffurfiaeth gofynnol gyda'r rheoliadau a'r cyfreithiau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar gyfer yr eitemau cysylltiedig yn y datganiad ariannol.

Yn ogystal, ystyriom ddarpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond gallai cydymffurfiaeth â nhw fod yn hollbwysig i allu y grŵp a'r cwmni elusennol i weithredu neu i osgoi cosb o bwys. Yn ogystal, ystyriom y cyfleoedd a'r cymhellion y gallent fodoli yn y grŵp a'r cwmni elusennol mewn perthynas â thwyll. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriom yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau'r DU oedd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a deddfwriaeth cyflogaeth.


Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth gyda'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymholi'r ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol a rheoliadol, os o gwbl.

Nodom risg fwyaf effaith o bwys ar y datganiadau ariannol gan afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, i fod o fewn amseru cydnabod incwm, amcangyfrifon ynghylch darpariaethau cyfreithiol, dadfeiliadau a 'r rheolwyr yn anwybyddu trefniadau rheoli. Roedd ein gweithdrefnau archwilio er mwyn ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys gwneud ymholiadau gyda'r rheolwyr, archwilio mewnol, cyngor cyfreithiol a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ynghylch eu gweithgarwch nhw i adnabod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau ynghylch postio cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd, adolygu gohebiaeth reoliadol gyda'r Comisiwn Elusennau, cyflawni gwaith dadansoddi data ynghylch incwm PLAB ac ARF a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau anochel archwiliad, ceir risg na ellir ei osgoi nad ydym wedi darganfod rhai camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol efallai, er ein bod wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn gywir yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, y pellaf y mae diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau (afreoleidd-dra) o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau y mae'n anochel eu bod yn gyfyngedig ac sy'n ofynnol gan safonau archwilio, yn ei nodi. Yn ogystal, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o fethu darganfod afreoleidd-dra, oherwydd y gallai hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu anwybyddu trefniadau rheoli mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth gyda'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

## Defnydd o'n hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 rhan 16 *Deddf Cwmnïau 2006*, ac i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rheoliad 10 *Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006*. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i aelodau ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a hynny heb fod am unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol, aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn, neu'r barnau yr ydym wedi'u ffurfio.



Naziar Hashemi
Archwilydd Statudol Uwch
Dros ac ar ran
Crowe U.K. LLP
Archwilydd Statudol
55 Ludgate Hill
Llundain
EC4M 7JW

1 Gorffennaf 2022

# Datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyfyngedig £'000 | **Cyfanswm 2021 £'000** | Cyfanswm 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| **O weithgareddau elusennol** | | | | | |
| Cofrestru | 2 | 114,545 | - | **114,545** | 103,042 |
| Cofrestriadau arbenigol a Meddygon Teulu | 2 | 4,047 | - | **4,047** | 4,052 |
| Ailddilysu | 2 | 107 | - | **107** | 54 |
| **Gweithgareddau masnachu eraill** | 3 | 337 | - | **337** | 193 |
| **Gweithrediadau masnachu masnachol** | 3 | 239 | - | **239** | 316 |
| **Buddsoddiadau** | 3 | 154 | - | **154** | 388 |
| **Cyllid gan yr adran Iechyd - MAPS*** | 3 | - | 2,605 | **2,605** | 1,577 |
| **Arall** | 3 | 308 | - | **308** | 242 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn** | | 119,737 | 2,605 | **122,342** | 109,864 |
| **Gwariant** | | | | | |
| **Codi arian** | | | | | |
| Gweithgareddau masnachu masnachol | 4 | 246 | - | **246** | 302 |
| Costau rheoli buddsoddiadau | 4 | 249 | - | **249** | 221 |
| | | 495 | - | **495** | 523 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | | |
| Addasrwydd i ymarfer | 4 | 46,882 | - | **46,882** | 42,936 |
| Cofrestru ac ailddilysu | 4 | 29,803 | - | **29,803** | 25,394 |
| Perthnasoedd allanol | 4 | 15,319 | - | **15,319** | 15,140 |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | 4 | 14,012 | - | **14,012** | 11,297 |
| Addysg | 4 | 9,941 | - | **9,941** | 10,025 |
| Safonau | 4 | 1,920 | - | **1,920** | 1,760 |
| Cyllid gan yr adran Iechyd - MAPS | 4 | - | 1,749 | **1,749** | 1,577 |
| | | 117,877 | 1,749 | **119,626** | 108,129 |
| **Gwariant arall** | | | | | |
| Darpariaeth gyfreithiol | 11 | 144 | - | **144** | 3,744 |
| Darpariaeth dadfeiliadau | 11 | 1,882 | - | **1,882** | 973 |
| | | 2,026 | - | **2,026** | 4,717 |
| **Cyfanswm y gwariant** | 4 | 120,398 | 1,749 | **122,147** | 113,369 |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol** | | (661) | 856 | **195** | (3,505) |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 8 | 4,879 | - | **4,879** | 2,476 |
| **Incwm net/(Colled net)** | | 4,218 | 856 | **5,074** | (1,029) |
| **Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| (Colled)/ennill actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 16 | 30,143 | - | **30,143** | (6,971) |
| **Symud net mewn cronfeydd** | | 34,361 | 856 | **35,217** | (8,000) |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 64,581 | - | **64,581** | 72,581 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 98,942 | 856 | **99,798** | 64,581 |


Corfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachol yn ei lwyr berchnogaeth ar 16 Rhagfyr 2016, gyda'r diben o ddarparu gwasanaethau masnachol gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant ac achredu. Mae'r Elusen wedi manteisio ar eithriad rhag cyflwyno'i chyfrif elw a cholled anghyfunol. Y symudiad cronfeydd ar gyfer yr elusen yn ystod y flwyddyn yw £35,217,000.

* Darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) gyllid yn ystod 2021 er mwyn parhau gyda'r gwaith o sicrhau bod cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Roedd natur y cyllid yn gyfyngedig, ac fe'i wariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn. Talodd cyfran o'r arian am Ddatblygiad y System TG, sydd wedi creu ased yn y fantolen. Yr effaith net ar gronfeydd wrth gefn CMC yw £856,000. Bydd balans y cronfeydd wrth gefn yn lleihau pan gaiff yr ased ei amorteiddio yn y dyfodol.

# Mantolen

| | | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Grŵp** | **Elusen** | Grŵp | Elusen |
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 6 | 11,702 | 11,702 | 10,361 | 10,361 |
| Asedau diriaethol sefydlog | 7 | 6,305 | 6,305 | 7,519 | 7,519 |
| Buddsoddiadau | 8 | 61,649 | 61,879 | 57,020 | 57,257 |
| | | **79,656** | **79,886** | 74,900 | 75,137 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 9 | 24,041 | 24,096 | 23,349 | 23,303 |
| Balansau banc ac arian | | 46,821 | 46,502 | 38,128 | 37,882 |
| | | **70,862** | **70,598** | 61,477 | 61,185 |
| **Rhwymedigaethau** | | | | | |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | 10 | (80,538) | (80,504) | (71,067) | (71,012) |
| | | | | | |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | | (9,676) | (9,906) | (9,590) | (9,827) |
| **Cyfanswm yr asedau yn llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **69,980** | **69,980** | 65,310 | 65,310 |
| | | | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 11 | (6,743) | (6,743) | (4,717) | (4,717) |
| | | | | | |
| **Asedau net heb gynnwys ased y cynllun pensiwn** | | **63,237** | **63,237** | 60,593 | 60,593 |
| | | | | | |
| Ased cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 16 | 36,561 | 36,561 | 3,988 | 3,988 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **99,798** | **99,798** | 64,581 | 64,581 |
| | | | | | |
| Cronfeydd incwm anghyfyngedig | | 62,381 | 62,381 | 60,593 | 60,593 |
| Cronfeydd incwm cyfyngedig | | 856 | 856 | - | - |
| Cronfa wrth gefn pensiynau | | 36,561 | 36,561 | 3,988 | 3,988 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | 12, 13 | **99,798** | **99,798** | 64,581 | 64,581 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr ymddiriedolwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 22 Mehefin 2022. Fe'u llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr gan:



**Bonesig Carrie MacEwen**
Cadeirydd y Cyngor

# Datganiad llif arian cyfunol

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol:** | | | | |
| **Arian net a ddarparwyd gan /(defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol (nodyn i isod)** | | 16,902 | | 14,064 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi:** | | | | |
| Difidendau, llog a rhenti gan fuddsoddiadau | 84 | | 180 | |
| Prynu eiddo, cyfarpar, offer ac eitemau annirweddol | (8,293) | | (6,783) | |
| **Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | **(8,209)** | | (6,603) |
| **Newid mewn arian a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod (nodyn ii isod)** | | **8,693** | | 7,461 |

**Nodyn (i)**

| Llif arian o weithgareddau gweithredol | | |
|---|---|---|
| Adnoddau net sy'n dod i mewn/(mynd allan) | 5,074 | (1,029) |
| Incwm buddsoddi a llog | (154) | (388) |
| Symud buddsoddi net | (4,629) | 8,029 |
| Eitemau anariannol – dibrisiant ac amorteiddio | 8,165 | 7,854 |
| Eitemau anariannol – asedau a ddilëwyd | 1 | 47 |
| Cyfraniad i'r cynllun pensiwn | (2,360) | (1,360) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | (692) | (2,200) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | 11,497 | 3,111 |
| **Arian net a ddarparwyd gan /(defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol** | **16,902** | 14,064 |

**Nodyn (ii)**

| Arian a chyfwerthoedd | Blaendaliadau tymor byr £'000 | Arian yn y banc ac mewn Llaw £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Balansau ar 1 Ionawr 2021 | - | 38,128 | **38,128** |
| Cynnydd net mewn arian a chyfwerthoedd arian | - | 8,693 | **8,693** |
| **Balansau ar 31 Rhagfyr 2021** | - | 46,821 | **46,821** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

## Gwybodaeth gyffredinol

Rydym yn gorff statudol a lywodraethir gan Ddeddf Meddygol 1983 ac rydym wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (1089278), a gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban (SC037750).

## 1. Prif bolisïau cyfrifyddu

### (i) Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol er mwyn cynnig darlun 'cywir a theg' ac maent wedi gwyro o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol er mwyn darparu darlun 'cywir a theg'. Mae'r gwyriad hwn wedi cynnwys dilyn y SORP Elusennau (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014, ac a ddiweddarwyd ar 1 Hydref 2019.

Paratowyd ein datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac yn unol â'r Datganiad Elusennau o'r Arfer a Argymhellir (FRS 102), sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, Deddf Elusennau 2011, Charities and Trustee Investment (Scotland) 2005, Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 a'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y mae'n berthnasol o 1 Hydref 2019. Mae CMC yn bodloni diffiniad 'endid er budd y cyhoedd' dan FRS 102.

**(ii)** Ar 16 Rhagfyr 2016, corfforodd CMC is-gwmni masnachol, Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd, rhif cwmni 10530157, sy'n eiddo i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn llwyr ar ffurf cyfalaf cyfrannau.

**(iii)** Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a weithredwyd mewn ffordd gyson, fel a ganlyn:

### Adnoddau sy'n dod i mewn

Caiff incwm ei gynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol:

- Hawl – rheolaeth dros yr hawliau neu fynediad arall er budd economaidd wedi'i drosglwyddo i CMC
- Tebygolrwydd – mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd y buddion economaidd yn llifo i CMC
- Mesur – mae modd mesur y gwerth mewn ffordd ddibynadwy.

Mae'r polisïau penodol canlynol yn berthnasol:

- Mae taliadau cadw blynyddol yn ymwneud â gwasanaethau i'w darparu dros gyfnod o 12 mis. Caiff incwm ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef.
- Caiff ffioedd cofrestru, gan gynnwys ffioedd cofrestru amodol, eu cydnabod pan ddyfarnir cofrestriad.
- Caiff ffioedd y Bwrdd Asesiadau Ieithyddol a Phroffesiynol (PLAB) eu cydnabod pan fydd arholiadau'n cael eu sefyll.
- Caiff incwm gan fuddsoddiadau a chronfeydd a gedwir ar adnau ei gydnabod pan fydd yn dderbyniadwy ac mae modd mesur y swm yn fanwl.

Cydnabyddir yr holl incwm fel incwm gros.

### Y sail ar gyfer cydnabod rhwymedigaethau

Mae gwariant yn cynnwys costau staffio, costau swyddfa, costau pwyllgor, costau cyfreithiol, costau llety, prynu asedau a chostau ariannol, actiwaraidd a phroffesiynol.

Caiff adnoddau a ddefnyddiwyd eu cynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail groniadol. Cydnabyddir yr holl rwymedigaethau cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant.

### Y sail ar gyfer neilltuo adnoddau i'w defnyddio

Caiff mwyafrif ein hadnoddau eu gwario yn uniongyrchol wrth ganlyn ein nodau elusennol, ac fe'u nodir felly yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff costau llety, costau llywodraethu a chostau cymorth eraill eu dosbarthu i weithgareddau elusennol ar sail cyfrifiad o'r staff ar draws y sefydliad.

### Irrecoverable VAT

Caiff unrhyw TAW anadferadwy ei godi ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol fel rhan o eitem berthnasol y gwariant, neu caiff ei gyfalafu fel rhan o gost yr ased cysylltiedig pan fo hynny'n briodol.

### Treth

Gallwn fanteisio ar yr eithriadau rhag treth ar incwm ac enillion sydd ar gael i elusennau, felly ni chaiff unrhyw dreth ei thalu ar yr adnoddau net sy'n dod i mewn.

### Dyledwyr

Fel arfer, caiff dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill eu cydnabod yn unol â'r swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnachu a gynigir. Fel arfer, caiff rhagdaliadau eu prisio yn unol â'r swm a ragdalwyd sy'n net o unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Credydwyr a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Fe'u cydnabyddir pan fydd hi'n debygol y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Fel arfer, caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod yn unol â'u swm setlo ar ôl ystyried unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Barnau cyfrifyddu allweddol a ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif

Mae ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif sy'n cael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

- Adolygir yr holl hawliadau am gostau cyfreithiol a wneir yn erbyn CMC, ac nad ydynt wedi cael eu setlo, fesul achos ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff darpariaethau eu seilio ar brofiad hanesyddol ac asesiad manwl o fanylion penodol achosion cyfredol. Mae setliad terfynol achosion yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, felly mae cywirdeb y ddarpariaeth yn destun swm sylweddol o ansicrwydd.

- Caiff darpariaethau ar gyfer costau adfeilio eu gwneud ar gyfer yr holl adeiladau sy’n cael eu lesio. Fe’u hasesir fesul achos, gan adlewyrchu gwahanol gyfluniadau adeiladau sy’n cael eu lesio a’r gost o’u hadfer i’w cyflwr gwreiddiol.

- Mae darpariaethau ar gyfer tâl gwyliau yn seiliedig ar lefel go iawn y diwrnodau cronedig a chyflogau pob aelod o staff.

### Asedau diriaethol sefydlog

Caiff asedau diriaethol sefydlog eu datgan yn ôl y gost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### Asedau anniriaethol sefydlog

Mae asedau anniriaethol sefydlog yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol. Fe'u nodir yn ôl eu cost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### Dibrisiant

Darparir dibrisiant er mwyn dileu cost, yn llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, yr asedau mewn ffordd gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

Mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

- Adeiladau lesddaliadol a gwelliannau lesddaliadol – pum mlynedd neu gyfnod y brydles sy’n weddill, pa un bynnag yw’r lleiaf.
- Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau swyddfa – pum mlynedd neu gyfnod y brydles sy'n weddill, pa un bynnag yw'r lleiaf.
- Offer Technoleg Gwybodaeth (TG) – tair blynedd.
- Asedau anniriaethol: (meddalwedd TG) – tair blynedd.
- Offer swyddfa arall – tair blynedd ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig â TG a phum mlynedd ar gyfer yr holl eitemau eraill.

Adolygir cyfraddau dibrisiant yn rheolaidd, gan gymharu hyd oes go iawn asedau gyda'r cyfraddau yn y polisi cyfrifyddu.

### Meddalwedd TG trwyddedig

Caiff costau datblygu ar gyfer gweithredu systemau TG newydd eu cyfalafu a’u disbrisio dros 3 blynedd neu oes ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag yw’r lleiaf. Caiff costau trwydded y flwyddyn gyntaf eu cyfalafu gan eu bod yn angenrheidiol er mwyn defnyddio’r ased, a chaiff costau trwydded blynyddoedd dilynol eu trin fel gwariant gweithredol.

### Prydlesi gweithredol

Codir y rhent sy'n daladwy dan brydlesi gweithredol ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### Offerynnau ariannol

Mae gan yr elusen asedau a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n eu gwneud yn gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl eu gwerth trafod yn y lle cyntaf a'u mesur yn ôl y gost wedi'u hamorteiddio wedi hyn. Mae asedau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian a balansau yn y banc, adneuon tymor byr (datganiad llif arian), buddsoddiadau sy'n cael eu dal mewn adneuon arian (nodyn 8), ynghyd â masnach a dyledwyr eraill (nodyn 9). Mae rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys masnach a chredydwyr eraill, credydwyr nawdd cymdeithasol a threth a chroniadau (nodyn 10).

### Buddsoddiadau

Mae'n polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori: y rhai hynny sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd; y rhai y byddwn yn eu buddsoddi dan reolaeth; y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu efallai; a'r balans ariannol sy'n weddill sy'n amrywio yn ystod y flwyddyn.

Dangosir cronfeydd a gedwir fel arian parod ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd ar fantolen CMC o fewn asedau cyfredol, a dangosir cronfeydd sy'n cael eu dal ar gyfer y tymor hwy fel buddsoddiadau.

### Pensiynau

Mae gennym gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion parhaol. Caewyd y cynllun i aelodau newydd ar 30 Mehefin 2013, ac ar gyfer croniadau yn y dyfodol i aelodau presennol ar 31 Mawrth 2018, ac fe'i ddisodlwyd gan gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff gwarged neu ddiffyg y cynllun â buddion wedi'u diffinio ei gydnabod ar y fantolen. Caiff newidiadau i asedau a rhwymedigaethau'r cynllun eu datgelu a'u neilltuo fel a ganlyn.

- Caiff taliadau sy'n ymwneud â chostau gwasanaeth cyfredol neu yn y gorffennol, ac enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau, eu cynnwys yn y costau staff ac fe'u codir ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

- Dangosir llog ar rwymedigaeth/ased buddion wedi'u diffinio net fel swm net o gostau cyllid eraill neu fel adnodd sy'n dod i mewn law yn llaw gydag incwm a llog buddsoddi. Caiff enillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod ar unwaith mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar fuddsoddiadau.

